**MESUR ARFAETHEDIG Y GYMRAEG (CYMRU) 2010**

# Memorandwm Esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 23.41. Mae'n pennu amcanion polisi a darpariaethau Mesur Arfaethedig y Gymraeg fel y'i diwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 ac yn esbonio'i gwmpas.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 4 Mawrth 2010 ac a ddiwygiwyd yn dilyn gweithdrefnau Cam 2, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Alun Ffred Jones AC**

Y Gweinidog dros Dreftadaeth
Yr Aelod Cynulliad â gofal am y Mesur Arfaethedig

30 Tachwedd 2010

## Cynnwys

**RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol**

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

7. Opsiynau
8. Costau a Manteision
9. Asesu'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

**RHAN 3 – Nodiadau Esboniadol**

# Rhan 1: Memorandwm Esboniadol

## 1. Disgrifiad

1.1 Bwriedir i Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010 (“y Mesur arfaethedig”) foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (“Deddf 1993”) ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth o ran statws swyddogol y Gymraeg ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") a fydd yn cymryd lle Bwrdd yr Iaith Gymraeg ("y Bwrdd") a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993.

1.3 Prif nod y Comisiynydd fydd hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg a bydd ganddo ef neu hi’r swyddogaethau cyffredinol o hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys y pŵer i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd penodol. Bydd Panel Cynghori yn cefnogi’r Comisiynydd.

1.4 Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth o ran datblygu safonau ymddygiad yn ymwneud â’r Gymraeg ("safonau") (a esbonnir ym mharagraff 3.19 isod) a fydd yn cymryd lle'n raddol y system bresennol o gynlluniau iaith (“cynlluniau”) y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1993.

1.5 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn cynnwys darpariaethau o ran gorfodi dyletswyddau sydd ynghlwm â’r safonau, ac o ran hawl unigolion i herio'r dyletswyddau hynny fel ag y maent yn gymwys iddynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys creu Tribiwnlys y Gymraeg (“y Tribiwnlys”).

1.6 Yn olaf, mae’r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg (“y Cyngor Partneriaeth”) i roi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru am eu strategaeth iaith Gymraeg.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

### Cymhwysedd

2.1 Darperir y pŵer i wneud Mesurau Cynulliad gan Ran 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae adran 93 y Rhan honno o Ddeddf 2006 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) wneud Mesurau. Mae adran 94 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaethau Mesur fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Materion 20.1 ac 20.2 yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf 2006 sy’n darparu’r cymhwysedd y dibynnir arno o dan adran 94(4) Deddf 2006 ar gyfer y Mesur arfaethedig. Cafodd y Materion hyn eu gosod yn Atodlen 5 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010 ("y Gorchymyn").

2.2 Mae cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â gofynion Rhannau 2 a 3 Atodlen 5 Deddf 2006 fel y’u haddaswyd gan y Gorchymyn, wedi cael ei sicrhau.

2.3 Caiff Materion 20.1 ac 20.2, fel y'u gosodwyd yn Atodlen 5 Deddf 2006 gan y Gorchymyn, eu nodi isod:

***Mater 20.1***

Hybu neu hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio’r canlynol—

(a) awdurdodau cyhoeddus;

(b) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus;

(c) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad;

(d) personau sydd wedi eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol—

(i) i hybu dysgu a gwybodaeth drwy addysgu neu ymchwilio neu drwy ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau;

(ii) i gasglu neu ddiogelu gwybodaeth gofnodedig, neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, neu ddarparu mynediad at yr wybodaeth honno neu at y gwrthrychau a’r pethau hynny;

(iii) i gefnogi, gwella neu hybu treftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, neu ddarparu mynediad atynt;

(iv) sy'n ymgymryd â hybu gwybodaeth ehangach am Gymru a chynrychioli buddiannau Cymru mewn gwledydd eraill;

(v) sy'n ymgymryd â bancio canolog;

(e) personau y rhoddir iddynt swyddogaethau neu y gosodir arnynt swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ddeddfiad;

(f) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol;

(g) personau sy'n goruchwylio reoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd;

(h) darparwyr tai cymdeithasol;

(i) personau sy'n darparu i'r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny—

  (i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi neu ddosbarthu);

  (ii) gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion);

  (iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post;

  (iv) gwasanaethau telathrebu;

  (v) addysg, hyfforddiant (lle mae'r darparwr yn derbyn arian cyhoeddus i'w ddarparu) neu gyfarwyddyd gyrfaoedd, a gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd;

  (vi) gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd;

  (vii) gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol;

(j) personau sy'n dewis bod yn ddarostyngedig i gael y dyletswyddau wedi'u gosod arnynt neu sy'n cytuno i hynny.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (b), dim ond dyletswyddau'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n cael eu darparu o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus, a gynhwysir yn y mater hwn.

Nid yw person sy'n derbyn arian cyhoeddus sy'n dod i gyfanswm o £400,000 neu fwy mewn blwyddyn ariannol yn dod o fewn dan baragraff (f) oni bai—

(a) ei fod wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu

(b) bod penderfyniad wedi ei wneud iddo gael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (i)—

(a) dim ond dyletswyddau'n ymwneud â'r gwasanaethau a'r gwasanaethau eraill cysylltiedig sydd wedi eu crybwyll a gynhwysir yn y mater hwn, a

(b) ynglŷn â'r gwasanaethau cysylltiedig, nid yw'r mater hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau cysylltiedig mewn siop, ac eithrio gwasanaethau cownteri swyddfeydd post a gwerthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ynghylch darlledu.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar berson (ac eithrio awdurdod iaith Gymraeg) onid oes modd i'r person hwnnw herio'r dyletswyddau hynny, fel y bônt yn gymwys i'r person hwnnw, ar sail rhesymoldeb a chymesuredd.

***Mater 20.2***

Darpariaeth ynghylch neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr "darlledu" yw comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddi-wifr eraill;

ystyr "gwasanaeth bysiau" yw gwasanaeth rheolaidd â cherbyd gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr adran 1 Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (**1**)) i gludo teithwyr am brisiau tocyn ar wahân, ac eithrio gwasanaeth—

(a) y mae capasiti cyfan y cerbyd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi ei brynu gan y siartrwr at ei ddefnydd ei hun neu i'w ailwerthu;

(b) sy'n daith neu'n drip a drefnwyd yn breifat gan unrhyw berson sy'n gweithio'n annibynnol ar weithredwr y cerbyd; neu

(c) lle mae'r teithwyr yn teithio gyda'i gilydd ar daith, gyda seibiannau neu hebddynt, a ph'un ai ar yr un diwrnod ai peidio, o un lle neu fwy o leoedd i un neu fwy o leoedd ac yn ôl;

mae "deddfiad" yn cynnwys unrhyw ddeddfiad yn y dyfodol;

ystyr "siop" yw unrhyw fangre lle y mae'r brif fasnach neu fusnes sy'n cael ei gynnal yn fasnach neu fusnes gwerthu nwyddau;

ystyr "gwasanaethau post" yw'r gwasanaeth o gludo llythyrau, parseli, pacedi neu bethau eraill o un man i fan arall drwy'r post a'r gwasanaethau cysylltiedig o dderbyn, casglu, sortio a danfon y cyfryw bethau;

ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "*public authority*" yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998(**2**);

ystyr "arian cyhoeddus" yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(**1**) 1981 c.14
(**2**) 1998 c.42

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr “gwasanaeth telathrebu” yw unrhyw wasanaethau sy'n cynnwys darparu mynediad at, neu gyfleusterau i wneud defnydd o, unrhyw system sy'n bod (p’un ai'n gyfan gwbl yntau’n rhannol yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) at y diben o hwyluso trosglwyddo cyfathrebiadau drwy unrhyw fodd sy'n golygu defnyddio ynni trydanol, magnetig neu electromagnetig (gan gynnwys y cyfarpar a geir yn y system), ond nid yw'n cynnwys darlledu, radio na’r teledu;

ystyr “awdurdod iaith Gymraeg” yw person y mae deddfiad yn rhoi iddo neu'n gosod arno swyddogaethau—

(a) gosod neu orfodi ar bersonau eraill ddyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg,

(b) pennu'r dyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg sydd i’w gosod ar bersonau eraill, neu

(c) penderfynu ynghylch heriau i’r dyletswyddau ynglŷn â’r Gymraeg sydd i’w gosod ar bersonau eraill.

**Cyffredinol**

2.4 Dros y blynyddoedd mae Llywodraethau olynol y DU wedi cydnabod bod gan ddeddfwriaeth ran i'w chwarae o ran hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Rhoddodd Deddf Llysoedd Cymru 1942 hawliau cyfyngedig i unrhyw barti neu dyst sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd yng Nghymru. Rhoddodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 hawl absoliwt i unrhyw barti, tyst neu berson ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd (yn amodol ar roi hysbysiad ymlaen llaw, heblaw mewn llys ynadon), a hefyd rhoddodd y grym i Weinidogion ragnodi fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o ffurflenni statudol.

2.5 Y ddeddfwriaeth fwyaf diweddar a sylweddol o ran y Gymraeg yw Deddfau 1993 a 2006 (mae'r ail o'r rhain yn cynnwys darpariaeth ynghylch defnydd o'r iaith gan y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a Gweinidogion Cymru).

**Deddf 1993 – y cefndir**

2.6 Mae Deddf 1993 yn seiliedig ar ddwy egwyddor, sef yr angen i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, cyn belled ac y bo’n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae swyddogaeth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wedi'i rhoi i’r Bwrdd drwy Ddeddf 1993.

2.7 Mae Deddf 1993 yn rhestru categorïau penodol o bersonau y gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau. Mae'r cynlluniau

hyn yn rhoi manylion y mesurau y mae'r personau hynny'n bwriadu'u cymryd o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn rhoi effaith i’r egwyddor y dylai’r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae Deddf 1993 hefyd yn rhoi pwerau i'r Bwrdd ymchwilio i achosion honedig o dorri cynlluniau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddo adrodd ar ei ymchwiliadau.

2.8 Cyfrifoldeb y Bwrdd yw'r rhan fwyaf o swyddogaethau o dan Ddeddf 1993, ond mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i benodi aelodau'r Bwrdd; y pŵer i ychwanegu at y categorïau o bersonau y gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio cynlluniau; a'r pŵer i ddyfarnu mewn achos lle nad yw'r Bwrdd a'r rheini y mae'n ofynnol iddynt lunio cynllun yn dod i gytundeb ar faterion sy'n gysylltiedig â'u cynlluniau. Hefyd mae gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gymeradwyo canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau sy'n cael eu llunio gan y Bwrdd.

2.9 Mae'r cyfnod ers 1993 wedi dangos mantais pennu cyfrifoldebau clir o ran hybu a hwyluso defnydd o'r iaith. Mae'r Bwrdd wedi cynnig ffocws mwy eglur i'r dasg o ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r Bwrdd wedi pwysleisio rôl bwysig ymchwil; datblygu arbenigedd ym meysydd cynllunio iaith; a'r manteision i'r iaith yn sgil cael pencampwr statudol sy'n annibynnol ar y llywodraeth.

2.10 Bwriedir i'r darpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig foderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau a grëwyd o dan Ddeddf 1993.

**Deddf 2006 – y cefndir**

2.11 Mae adran 78 Deddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu'u cynllun iaith eu hunain, yn ogystal â dyletswydd i fabwysiadu strategaeth yn nodi sut maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Cynllun gweithredu *Iaith Pawb* ar gyfer Cymru ddwyieithog yw strategaeth iaith gyfredol Gweinidogion Cymru. O dan adran 61(k) Deddf 2006, gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gefnogi'r Gymraeg (ond nid yw hyn yn cynnwys cynnig na gwneud deddfwriaeth).

2.12 O dan adran 35 Deddf 2006, rhaid i'r Cynulliad, wrth ymgymryd â’i waith, weithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, cyn belled ag y bo’n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Yn ogystal, mae adran 156 yn darparu y dylid trin yn gyfartal, at bob diben, destun Cymraeg a Saesneg unrhyw Fesur neu Ddeddf y Cynulliad sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg adeg deddfu, neu unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg adeg deddfu.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Adeiladu ar Ddeddf 1993

3.1 Er yr holl lwyddiannau a gyflawnwyd o dan Ddeddf 1993, mae siaradwyr Cymraeg yn dal i wynebu anghysondebau ac anawsterau o ran derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Mewn sawl maes, mae'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi newid ers 1993. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith yn Neddf 1993 yn caniatáu i'r newidiadau hyn gael eu hystyried mewn ffordd gyson. Er enghraifft, mae newidiadau i strwythur gwasanaethau cyhoeddus allweddol penodol, a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, yn golygu bod gwedd gyhoeddus rhai sectorau a gwasanaethau allweddol y tu allan i gwmpas Deddf 1993. Er bod gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan Ddeddf 1993 i ychwanegu personau penodol o'r sectorau hyn i'r categori y gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio cynllun, nid yw'r pŵer hwn yn cwmpasu'r sector cyfan. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd o anghysondeb yn y sectorau hyn ac ansicrwydd ynghylch y gwasanaethau y gall cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ddisgwyl eu derbyn.

3.3 Hyd yn oed pan yw person yn dod o fewn y categori o bersonau y caniateir i'r Bwrdd ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynllun, mae profiad y Bwrdd ers 1993 o ran datblygu, negodi a chytuno ar gynlluniau fesul achos wedi bod yn broses sy'n galw am lawer o adnoddau. Hefyd, ar ôl cytuno ar y cynlluniau, cânt eu hailystyried a'u diwygio oddeutu bob tair mlynedd. Gan fod dros 550 o gynlluniau'n bodoli ar hyn o bryd, gall y dasg o sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu datblygiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau'u darparu (e.e. newid mewn technoleg) fesul achos fod yn faich biwrocrataidd.

3.4 Yn ogystal â galw am lawer o adnoddau o ran eu datblygu, gan fod cynnwys y cynlluniau'n ganlyniad negodi, gall cyrff sy'n darparu gwasanaethau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, yn yr un ardal ddaearyddol neu ardal debyg, ymrwymo i gynnig lefelau amrywiol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, gall siaradwyr Cymraeg weld anghysondeb o un corff i'r llall, ac nid yw'n hawdd iddynt ddeall y rheswm dros unrhyw anghysondeb.

3.5 O dan Ddeddf 1993 ni cheir ychwanegu cyrff y Goron, gan gynnwys adrannau llywodraethol, i'r categori o bersonau y gall y Bwrdd ei gwneud yn *ofynnol* iddynt lunio cynlluniau, ond mae rhwydd hynt iddynt fabwysiadu cynllun yn wirfoddol. Yn ogystal, nid yw'r cynlluniau gwirfoddol hyn yn ddarostyngedig i'r system orfodi lawn a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993.

3.6 O ran gorfodi, dim ond un mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymchwilio i achosion honedig o dorri cynlluniau sy'n cael ei ddarparu gan Ddeddf 1993, ac nid oes darpariaeth ar gyfer dewisiadau eraill wedi'u graddoli.

Efallai nad yw un mecanwaith yn briodol ym mhob achos, ac efallai na fydd yn sicrhau'r canlyniadau cywir i bawb ym mhob achos. Yn ogystal, nid oes gan y Bwrdd y pŵer o dan Ddeddf 1993 i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth iddo a fydd yn ei gynorthwyo yn ei ymchwiliadau.

**Amcanion y Mesur arfaethedig**

3.7 Un o ymrwymiadau allweddol rhaglen lywodraethu *Cymru'n Un* oedd ceisio "cael mwy o hawl i ddeddfu o safbwynt yr iaith Gymraeg... gyda'r nod o greu Mesur Cynulliad newydd i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith".

3.8 Cododd yr ymrwymiadau hyn yn *Cymru'n Un* yn sgil yr angen i ailystyried a diweddaru'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n llywodraethu defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae gwireddu amcanion *Cymru'n Un* yn un agwedd ar ddiben ehangach sy'n sail i'r Mesur arfaethedig, sef unioni'r anghysondebau a'r anawsterau a amlinellir yn Rhan 2 y memorandwm hwn o ran Deddf 1993.

3.9 Hefyd bwriedir y bydd deddfu ynghylch y Gymraeg yn sail i Weinidogion Cymru gyflwyno polisïau ar yr iaith. Mae *Iaith Pawb* yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am Gymru wirioneddol ddwyieithog, lle gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a lle mae'r ddwy iaith i'w gweld a'u clywed yn destun balchder a chryfder. Bydd drafft y strategaeth newydd fydd yn olynu *Iaith Pawb* yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn hir, a'r bwriad yw i'r Cyngor Partneriaeth a gaiff ei sefydlu gan y Mesur arfaethedig roi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch y strategaeth honno.

3.10 Dyma yw nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddeddfu i ddiweddaru'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol:

- cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;

- lleihau'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n destun dyletswyddau drwy symud y ffocws oddi ar baratoi cynlluniau;

- sefydlu system a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur;

- o fewn sectorau penodol, sicrhau bod mwy o gysondeb o ran y cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau, gyda'r nod o sicrhau chwarae teg i bawb;

- datblygu cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru o ran

hybu defnydd o'r Gymraeg yn ehangach;

- datblygu trefn orfodi fwy effeithiol mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau a gaiff eu gosod;

- rhoi llais cryf ac annibynnol i'r Gymraeg drwy sefydlu'r Comisiynydd fel pencampwr ac eiriolwr i'r iaith;

- gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Cyngor Partneriaeth – a fydd yn cynnwys y rheini sydd â phrofiad perthnasol o'r Gymraeg a strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad – i gynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion mewn perthynas â'r strategaeth honno;

- gwneud darpariaeth o ran statws swyddogol y Gymraeg; a

- gwneud darpariaethau o ran ymchwilio ac adrodd ar yr achosion hynny o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

**Crynodeb y Mesur arfaethedig**

***Statws swyddogol***

3.11 Mae adran gyntaf y Mesur arfaethedig gwneud darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, ac yn amlinellu sut y rhoddir effaith gyfreithiol i'r statws hwnnw. Nid yw'r Mesur yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.

***Y Comisiynydd***

3.12 Bydd y Mesur arfaethedig yn sefydlu swydd y Comisiynydd, sydd i'w benodi gan Brif Weinidog Cymru. Prif nod y Comisiynydd, wrth arfer ei swyddogaethau, fydd hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a bydd ganddo'r swyddogaethau a phwerau cyffredinol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.13 Caiff y Comisiynydd ei gynorthwyo gan Banel Cynghori sydd i'w benodi gan Weinidogion Cymru. Bydd gan y Panel Cynghori rôl strategol, gan gynghori'r Comisiynydd ynghylch materion polisi ehangach, ond ni fydd yn ymwneud â rhedeg swyddfa'r Comisiynydd o ddydd i ddydd nac ag unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan y Comisiynydd i achosion honedig o dorri safonau (gweler paragraff 3.19 isod).

***Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg***

3.14 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i rai achosion honedig penodol o ymyrryd â rhyddid unigolion yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Rhaid iddo ef neu hi gyflwyno

adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith i warchod rhyddid unigolion yng Nghymru sydd am ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â’i gilydd. Hefyd gall y Comisiynydd lunio a chyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau penodol a gynhelir.

***Dyletswyddau ieithyddol***

3.15 Yn ogystal, mae'r Mesur arfaethedig yn gosod rôl y Comisiynydd o ran parhau â chynlluniau o dan y system a grëwyd gan Ddeddf 1993; datblygu a gosod safonau ymddygiad newydd ynghylch y Gymraeg; a gorfodi'r safonau hynny. Bydd modd apelio i’r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau’r Comisiynydd ynghylch cymhwyso safonau i bersonau unigol ac ynghylch gorfodi safonau sy'n cael eu gosod ar bersonau.

3.16 Caiff pob rhan unigol a amlinellir uchod o ran pontio o'r 'hen' system o gynlluniau i sefydlu a gweithredu'r system newydd o safonau eu hesbonio yn y paragraffau canlynol.

***Y Bwrdd***

3.17 Ar ôl penodi'r Comisiynydd yn unol â'r gofynion yn y Mesur arfaethedig, bydd ef neu hi i bob pwrpas yn camu i safle'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn dod i ben. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu bod modd trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o dan adran 3 Deddf 1993 i Weinidogion Cymru, naill ai yn lle neu yn ogystal â throsglwyddo’r swyddogaethau hynny i'r Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau o dan Ran 2 Deddf 1993. I bob pwrpas, bydd y Comisiynydd yn goruchwylio'r prosesau sydd ynghlwm â chynlluniau cyfredol. Bydd y Mesur arfaethedig yn diddymu'r darpariaethau hynny yn Neddf 1993 ynghylch sefydlu'r Bwrdd.

3.18 Bwriad polisi y Mesur arfaethedig yw sefydlu rhaglen dreigl er mwyn i system o safonau gymryd lle'r cynlluniau. Wrth i gyrff a sectorau ddechrau dod yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau o dan y Mesur, ni fydd darpariaethau Deddf 1993 ynghylch cynlluniau bellach yn gymwys iddynt. Wedi i'r safonau gael eu gosod ar yr ystod gyfan o gyrff sy'n gweithredu cynlluniau ar hyn o bryd, caiff y rhan honno o Ddeddf 1993 sy'n delio â chynlluniau ei diddymu'n llwyr.

***Safonau***

3.19 Bydd y safonau ar ffurf dyletswyddau penodol yn ymwneud â’r ffordd y mae personau sydd wedi eu rhestru yn y Mesur arfaethedig (gweler isod) yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallent gynnwys gofynion i ystyried y ffordd y mae gweithredoedd rhai personau yn effeithio ar y Gymraeg.

3.20 Bydd y Mesur arfaethedig yn creu'r mathau canlynol o safonau:

- safonau cyflenwi gwasanaethau;
- safonau llunio polisi;
- safonau gweithredu;
- safonau hybu; a
- safonau cadw cofnodion.

3.21 O dan y system gyfredol, mae'r Bwrdd yn gorfod negodi bob cymal unigol yng nghynllun corff, ond bydd modd gosod dyletswyddau o dan y safonau ar gyrff unigol neu ar sectorau cyfan er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder i'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau iaith Gymraeg ynghylch y lefel gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mai dyletswyddau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fydd y safonau (yn ddarostyngedig i'r broses herio a esbonnir isod), bydd y system a sefydlir gan y Mesur arfaethedig yn golygu bod modd ystyried amrywiadau rhanbarthol yn ogystal â gosod amserlenni amrywiol ar gyfer cydymffurfio ar draws sector.

3.22 Math o ddyletswydd fydd **safon cyflenwi gwasanaethau** a fydd yn cael ei gosod er mwyn hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu er mwyn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn yr amgylchiadau canlynol: pan fydd personau sy'n ddarostyngedig i'r safon yn cyflenwi gwasanaethau i eraill, neu pan fyddant yn delio ag eraill mewn cysylltiad â chyflenwi'r gwasanaethau hynny.

3.23 Math o ddyletswydd fydd **safon llunio polisi** a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu ar weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.24 Math o ddyletswydd fydd **safon gweithredu** a fydd yn cael ei gosod er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â pherson wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.

3.25 Math o ddyletswydd fydd **safon hybu a** fydd yn cael ei gosod o ran cymryd camau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

3.26 Math o ddyletswydd fydd **safon cadw cofnodion** a fydd yn cael ei gosod er mwyn cadw a chynnal manylion ynghylch cydymffurfio â'r pedair safon arall, yn ogystal ag unrhyw gŵynion eraill yn ymwneud â'r iaith.

3.27 Cyn bod dyletswyddau ar ffurf safonau penodol yn gallu cael eu gosod ar berson, mae angen bodloni rhai amodau:

- rhaid bod modd ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
- mae'r safon o fath y gellir ei gosod ar y person;

- mae Gweinidogion Cymru yn darparu y gall fod yn ofynnol i’r person gydymffurfio â'r safon; a
- rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i'r person.

*Personau y mae modd ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safon:*

3.28 Dim ond os bydd person wedi’i restru yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 6 neu Atodlen 8 y Mesur arfaethedig y bydd modd cymhwyso safonau penodol i berson. Gellir rhestru personau yn unigol neu eu cynnwys mewn disgrifiad cyffredinol yn y naill Atodlen neu’r llall. Gellir ond cynnwys person yn Atodlen 6 os yw'r person hwnnw yn dod o fewn un neu fwy o'r categorïau o bersonau a restrir yn ail golofn Atodlen 5. Yn yr un modd, dim ond os yw person yn dod o fewn disgrifiad o bersonau (yn unigol neu’n rhan o grŵp) yn ail golofn Atodlen 7 y gellir cynnwys y person hwnnw o fewn Atodlen 8.

3.29 Mae Atodlenni 5 a 7 y Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r cymhwysedd a roddir i'r Cynulliad gan Fater 20.1, pan na chaniateir gosod dyletswyddau ynghylch yr iaith ond ar y personau hynny sy’n dod o fewn un neu fwy o baragraffau (a) – (j) y mater. Mae Atodlenni 6 ac 8 y Mesur arfaethedig yn rhestru personau sydd o fewn cymhwysedd y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau penodol.

3.30 Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n darparu i safon fod yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i’r ddarpariaeth honno.

*Math o safon y gellir ei gosod ar y person:*

3.31 Gall fod yn ofynnol i bersonau a restrir yn Atodlen 6 - ac sydd o fewn Atodlen 5 - gydymffurfio â safonau penodol sydd o fewn un neu fwy o'r math o safonau sy'n delio â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, materion gweithredu, a chadw cofnodion.

3.32 Ond dim ond os yw safon yn fath o safon a restrir yn yr ail golofn wrth ochr y disgrifiad o’r person yn y golofn gyntaf yn Atodlen 6 y gellir ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â’r safon benodol honno.

3.33 Dim ond ar Weinidogion Cymru, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau sir, awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol, ac unrhyw bersonau eraill sy’n cydsynio y dylai safonau hybu fod yn gymwysadwy iddynt.

3.34 Mae'r sefyllfa o ran y personau hynny sydd o fewn Atodlen 5, a'r rheini sydd o fewn Atodlen 7, yn wahanol o ran y safonau penodol y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw.

3.35 O ran y personau ym mharagraff (b) Mater 20.1 Atodlen 5 yn Neddf 2006 - sef y rheini sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb neu'n unol â threfniadau a wneir gydag awdurdod cyhoeddus - dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny a ddarperir o dan y

cytundeb hwnnw neu'n unol â'r trefniadau hynny y gellir gosod dyletswyddau ar y personau hynny.

3.36 Dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau a nodir yn y paragraff y gellir gosod dyletswyddau ar y personau hynny ym mharagraff (i) Mater 20.1 Atodlen 5 i Ddeddf 2006, sef personau sy'n darparu mathau penodol o wasanaethau i'r cyhoedd neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny.

3.37 O ganlyniad, mae dyletswyddau y gellir eu gosod ar y personau hynny a restrir yn Atodlen 8 yn y Mesur arfaethedig – ac sydd o fewn Atodlen 7 – yn gyfyngedig i ddyletswyddau sy'n dod o fewn dau fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion.

*Gweinidogion Cymru yn darparu y gall fod yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon:*

3.38 O dan y system sydd i'w sefydlu gan y Mesur arfaethedig, bydd Gweinidogion Cymru yn nodi manylion safonau penodol o dan bob un o'r pum dosbarth cyffredinol o safonau mewn rheoliadau, ac yn nodi'r personau y gall fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â phob safon benodol. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch ar ba ffurf ac ym mha ffordd y dylai safonau penodol fod yn gymwys i berson, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i unrhyw adroddiad y bydd y Comisiynydd yn ei lunio ar ôl arfer ei bwerau penodol i ymchwilio i safonau. Bydd ymchwiliadau, ymhlith materion eraill, yn galluogi'r Comisiynydd i ymchwilio i ba safonau penodol y dylai person orfod cydymffurfio â nhw ac ar ba ffurf y dylai'r safonau hynny fod.

3.39 Os bydd y Comisiynydd yn arfer ei bwerau i ymchwilio i safonau mewn perthynas â pherson penodol, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r person hwnnw wrth gynnal yr ymchwiliad a roi sylw i'r angen i sicrhau nad yw'r gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau penodol yn afresymol neu'n anghymesur. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori hefyd gyda'r Panel Cynghori, a'r cyhoedd (ac eithrio os yw'n ystyried, neu i'r graddau y mae'n ystyried, ei bod yn amhriodol gwneud hynny) wrth gynnal yr ymchwiliad.

*Y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson:*

3.40 Ar ôl cael hysbysiad cydymffurfio, bydd yn rhaid i'r person gydymffurfio â'r safon(au) a nodir yn yr hysbysiad, yn ddarostyngedig i'w hawl i herio. Os bydd person yn herio, caiff y gofyniad i gydymffurfio â safon(au) sy'n cael eu herio ei ohirio nes bod y person hwnnw wedi disbyddu ei hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

*Hawl i herio*

3.41 Gall y person sy'n derbyn yr hysbysiad cydymffurfio herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol fel y mae'r safon honno'n gymwys i'r

person hwnnw, ar sail rhesymoldeb a chymesuredd. Hefyd gellir herio os yw person wedi bod yn cydymffurfio â safon benodol ond y mae o'r farn bod newid mewn amgylchiadau'n golygu nad yw parhau i gydymffurfio yn rhesymol nac/neu yn gymesur.

3.42 Y Comisiynydd fydd yn gwrando ar yr her i ddechrau, a bydd modd apelio i'r Tribiwnlys. Os gwneir y penderfyniad nad yw gofyniad mewn hysbysiad cydymffurfio i gydymffurfio â safon yn rhesymol neu'n gymesur, rhaid i'r Comisiynydd, neu'r Tribiwnlys os yw'n briodol, naill ai ddirymu'r hysbysiad hwnnw; dirymu'r hysbysiad a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd; neu amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol.

*Codau ymarfer*

3.43 Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd gyhoeddi codau ymarfer er mwyn rhoi arweiniad ymarferol ynghylch gofynion unrhyw safon benodol.

***Gorfodi safonau***

3.44 Y Comisiynydd fydd â'r prif gyfrifoldeb dros orfodi cydymffurfiaeth â safonau. Mae'r Mesur arfaethedig yn sefydlu system o orfodi graddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Gall y camau gorfodi o dan y Mesur arfaethedig amrywio o wneud argymhellion neu roi cyngor i berson, i osod cosb sifil heb fod yn fwy na £5,000. Gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu uchafswm gwahanol.

3.45 I'r perwyl hwn, rhoddir i'r Comisiynydd bŵer i ymchwilio ac adrodd p'un a yw person wedi methu cydymffurfio â safon benodol. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu bod methiant i gydymffurfio wedi digwydd, gall ef neu hi gymryd camau gorfodi.

3.46 Gall person y mae'r Comisiynydd wedi dyfarnu ei fod wedi methu â chydymffurfio â safon apelio i'r Tribiwnlys ar y sail nad yw wedi methu â chydymffurfio. Os yw'r Comisiynydd wedi cymryd camau gorfodi yn achos person, gall y person hwnnw apelio i'r Tribiwnlys ar sail bod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur.

***Y Cyngor Partneriaeth***

3.47 Bydd y Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal y Cyngor Partneriaeth. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg fydd yn cadeirio'r Pwyllgor.

3.48 Swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth fydd cynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth. Mae sefydlu'r Cyngor Partneriaeth yn adlewyrchu barn y Gweinidogion y gallai fod yn fuddiol i gyrff ledled Cymru gydweithio er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Esbonio'r darpariaethau**

3.49 Mae'r wybodaeth uchod o ran gweithrediad y Mesur arfaethedig wedi cael ei darparu ar ffurf crynodeb. Esbonnir darpariaethau unigol y Mesur hwn yn y Nodiadau Esboniadol yn Rhan 3 y memorandwm hwn.

## 4. Ymgynghori

4.1 Ers cyhoeddi ymrwymiadau *Cymru'n Un*, mae'r Gweinidogion wedi cynnal trafodaethau helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid o ran deddfwriaeth a'u strategaeth ehangach i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r Gweinidogion wedi defnyddio'r trafodaethau hyn wrth ddatblygu'u cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol diwygiedig i gefnogi'r Gymraeg. Maent hefyd wedi gallu ystyried safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan ar eu cynnig ar gyfer y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a'r sylwadau a wnaed fel rhan o broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol o'r Mesur arfaethedig yn ystod camau 1 a 2 o daith y Mesur drwy'r Cynulliad.

4.2 Mae'r cynigion i foderneiddio cynlluniau a gweithio dros gyfnod i osod system o safonau yn lle cynlluniau wedi tynnu ar brofiad y Bwrdd ac eraill o ran gweinyddu cynlluniau o dan delerau Deddf 1993.

4.3 Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal maes o law gyda grwpiau sydd â buddiant, ar gynnwys y safonau ac ar gynigion i roi dyletswydd i gydymffurfio â safonau ar sefydliadau.

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r adran hon yn nodi manylion:

- y darpariaethau hynny yn y Mesur arfaethedig sy'n trosglwyddo pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth;
- esboniad o'r rhesymau pam y daethpwyd i'r farn ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer;
- manylion gweithdrefn berthnasol y Cynulliad (os oes gweithdrefn berthnasol) a fydd yn gymwys o ran arfer pob pŵer; ac
- esboniad o'r rhesymau pam y daethpwyd i'r farn ei bod yn briodol i'r pŵer fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno.

5.2 Cydnabyddir na roddir pwerau o'r fath i wneud is-ddeddfwriaeth ar chwarae bach, ond teimlir y bydd cael pwerau o'r fath yn diogelu hyblygrwydd ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol drwy is-ddeddfwriaeth mewn modd sy'n sensitif i natur y newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn ymateb i'r newidiadau yng ngofynion siaradwyr Cymraeg.

5.3 Er mwyn cydnabod amrediad eang y pwerau a gynhwysir yn y Mesur arfaethedig, ac er mwyn cynnig cyfleoedd craffu pellach i'r Cynulliad, caiff y weithdrefn gadarnhaol ei defnyddio ar bob achlysur pan wneir rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau ar bersonau. Cyn i reoliadau gael eu gosod gerbron y Cynulliad, byddai yna ymgynghoriad ffurfiol ar fanylion y trefniadau newydd a sut y byddai'r rheoliadau'n cynnig sail ar eu cyfer, ynghyd â'r asesiad effaith rheoleiddiol gofynnol.

5.4 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth fydd yn sicrhau bod y rheoliadau penodi ar gyfer penodi'r Comisiynydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol er mwyn cydnabod natur y swydd ac o'r herwydd, yr angen i sicrhau y rhoddir cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu ar gynnwys y rheoliadau.

**Pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth**

5.5 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau galluogi fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi ar waith a phennu manylion darpariaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- diddymu Bwrdd yr Iaith a throsglwyddo'i swyddogaethau;
- y meini prawf ar gyfer penodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog ac ar gyfer penodi aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys gan Weinidogion Cymru;

- y ffordd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni'i swyddogaethau (o ran cymorth cyfreithiol: costau; uniondeb cymeriad; a chyfyngiadau);

- gwaith ar y cyd rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn a ragnodir neu awdurdodau eraill, a gweithio'n gyfochrog â nhw;

- gosod safonau ar bersonau a ragnodir yn y Mesur;

- gosod cosbau sifil;

- adroddiad blynyddol y Comisiynydd i Weinidogion Cymru ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg;

- rheolau'r Tribiwnlys ar ei arferion a'i weithdrefnau; a

- darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad â'r Mesur, neu i roi effaith iddo.

5.6 Mae rhai o'r pwerau hyn yn osgoi'r angen i nodi manylion amhriodol ar wyneb y Mesur arfaethedig ac maent yn cynnig yr hyblygrwydd i addasu'r manylion hynny yn ôl yr angen. Mae angen pwerau eraill i ddelio â materion neu ddatblygiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn osgoi'r angen i gyflwyno Mesur diwygio yn y dyfodol i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

5.7 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru gychwyn mwyafrif y darpariaethau yn y Mesur drwy orchymyn, a thrwy orchymyn wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol, ganlyniadol, arbed, gysylltiedig neu unrhyw ddarpariaeth arall sy'n angenrheidiol neu'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Mesur arfaethedig hwn, neu i'w roi ar waith yn llawn. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu, i ddarpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu unrhyw Ddeddf Seneddol, Mesur Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth.

**Diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a throsglwyddo'i swyddogaethau**

5.8 Mae paragraffau 1 a 2 yn Atodlen 12 yn cynnwys dau bŵer i lunio gorchmynion a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth:

- er mwyn i staff y Bwrdd drosglwyddo i'r Comisiynydd neu Weinidogion Cymru; ac

- ynghylch eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Bwrdd yr Iaith, er enghraifft gwneud darpariaeth mewn perthynas â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd i'r Comisiynydd neu Weinidogion Cymru.

5.9 Gan fod y Mesur arfaethedig ei hun yn darparu mewn egwyddor ar gyfer diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo'i swyddogaethau i'r Comisiynydd, yn ddarostyngedig i drosglwyddo unrhyw elfen o'r swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru, rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r gorchymyn sy'n gwneud y trefniadau manwl ac yn galluogi'r gwaith trosglwyddo gael ei wneud mewn is-ddeddfwriaeth, ac y dylai ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

**Y meini prawf ar gyfer penodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog ac ar gyfer penodi aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys gan Weinidogion Cymru**

*Rheoliadau penodi mewn perthynas â'r Comisiynydd*

5.10 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu bod yn rhaid i'r Prif Weinidog benodi'r Comisiynydd (adran 2(2)) ac mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r Comisiynydd. Mae paragraff 3(1)(a) yn Atodlen 1 yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Weinidog gydymffurfio â rheoliadau penodi sydd i'w llunio gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 7 yr Atodlen honno. Mae paragraff 7 yn mynd ymlaen i'w gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu panel o bersonau a fydd yn cyfweld ymgeiswyr ac yn rhoi argymhelliad i'r Prif Weinidog ynghylch penodi'r Comisiynydd. Mae paragraff 7 hefyd yn darparu y gall y rheoliadau ddelio â'r egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi'r Comisiynydd, yr wybodaeth a'r profiad y bydd eu hangen ar y Comisiynydd, a chymhwyso unrhyw godau ymarfer sy'n gysylltiedig â phenodiadau i gyrff cyhoeddus.

5.11 Gall y gofynion o ran penodi'r Comisiynydd newid gydag amser i adlewyrchu newidiadau ehangach yn y gyfraith neu mewn polisi ac ymarfer o ran penodiadau ac, am y rhesymau hynny, rydym o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaethau o'r fath drwy is-ddeddfwriaeth. O ystyried natur y swydd a'r angen i sicrhau y rhoddir cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu ar gynnwys y rheoliadau, y farn yw ei bod yn briodol y dylai'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 7 yn Atodlen 1 ddilyn y **weithdrefn gadarnhaol**.

*Dirprwyo swyddogaethau penodi*

5.12 Mae paragraffau 8(1)(a) a (b) yn Atodlen 1 yn nodi y gall y Prif Weinidog, drwy orchymyn, ddarparu i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog o ran penodi'r Comisiynydd, ac unrhyw swyddogaethau eraill, neu bob un o'r swyddogaethau eraill, sydd gan y Prif Weinidog mewn perthynas â'r Comisiynydd. Mae paragraff 8(2) yn nodi y gall y ddarpariaeth gynnwys, ymysg pethau eraill, darpariaeth sy'n diwygio neu sydd fel arall yn addasu'r Mesur arfaethedig. Er enghraifft, efallai na fydd modd i'r Prif Weinidog weithredu neu y byddai'n amhriodol iddo weithredu. Mewn amgylchiadau o'r fath, o dan ddarpariaethau Deddf 2006, dim ond i staff y byddai modd i'r Prif Weinidog ddirprwyo'r swyddogaeth o benodi'r Comisiynydd heb fod darpariaeth benodol yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu dirprwyo'r swyddogaeth i Weinidogion

Cymru.

5.13 Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym o'r farn bod angen hyblygrwydd yn y Mesur er mwyn rhoi pŵer penodi i Weinidogion Cymru heb fod angen cyflwyno Mesur diwygio. Os yw’r pŵer i wneud gorchymyn ym mharagraffau 8(1)(a) a (b) yn Atodlen 1 yn cynnig diwygio neu fel arall addasu'r Mesur arfaethedig, rydym o'r farn y dylai'r gorchymyn gael ei wneud drwy’r **weithdrefn gadarnhaol**. Os nad yw'r gorchymyn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio'r Mesur arfaethedig, rydym o'r farn y dylai'r gorchymyn ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys*

5.14 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Panel Cynghori (adran 22) ac mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch aelodau'r Panel Cynghori. Mae paragraff 1 yn Atodlen 4 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r rheoliadau penodi sydd i'w gwneud ganddynt o dan baragraff 5 yr Atodlen honno. Mae paragraff 5 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau'r Panel Cynghori, ac y gall y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion i'w dilyn wrth benodi aelodau'r Panel Cynghori, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen ar yr aelodau hynny, cymhwyso unrhyw godau ymarfer ynghylch penodiadau i gyrff cyhoeddus, ac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath. Mae paragraff 5 hefyd yn nodi y gall y rheoliadau penodi roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, yn ogystal ag i unrhyw berson arall, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

5.15 Gall gofynion mewn perthynas â phenodi aelodau'r Panel Cynghori newid dros amser i adlewyrchu newidiadau ehangach yn y gyfraith, neu'r polisi a'r arfer mewn perthynas â phenodiadau ac, am y rhesymau hynny, rydym o’r farn ei bod yn briodol bod darpariaethau o'r fath yn cael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth. Gan y bydd y Cynulliad wedi trafod egwyddor penodi'r Panel Cynghori, teimlir ei bod yn briodol i'r pŵer i wneud rheoliadau sydd yn Atodlen 4, paragraff 5, ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

5.16 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys (adran 109(3)) ac mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys. Mae paragraffau 3(1)(b), 4(1)(b) a 5(1) yn nodi na chaiff Gweinidogion Cymru benodi Llywydd, aelod wedi'i gymhwyso'n gyfreithiol, nac aelod lleyg, oni bai bod y person yn bodloni unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r penodiad a bennir yn y rheoliadau penodi. Mae Paragraff 9 Atodlen 11 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau o'r Tribiwnlys ac y gall y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion i'w dilyn wrth benodi aelodau'r Tribiwnlys, yr wybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi y

mae'n rhaid i aelodau'r Tribiwnlys eu cael, cymhwyso unrhyw godau ymarfer sy'n ymwneud â phenodiadau i gyrff cyhoeddus, ac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath. Mae paragraff 9 hefyd yn darparu y caiff y rheoliadau penodi roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ogystal ag i unrhyw berson arall, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

5.17 Gall gofynion mewn perthynas â phenodi aelodau'r Tribiwnlys newid dros amser i adlewyrchu newidiadau ehangach yn y gyfraith, neu’r polisi a’r arfer mewn perthynas â phenodiadau ac, am y rhesymau hynny, rydym o'r farn ei bod yn briodol bod darpariaethau o'r fath yn cael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth. Gan y bydd y Cynulliad wedi trafod egwyddor penodi i'r Tribiwnlys, dylai'r pŵer i wneud rheoliadau sydd yn Atodlen 11, paragraff 9, ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

**Y modd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni ei swyddogaethau**

*Cymorth cyfreithiol: costau*

5.18 Mae adran 9 y Mesur arfaethedig yn ymdrin ag adennill treuliau'r Comisiynydd a dynnwyd wrth ddarparu cymorth cyfreithiol o dan adran 8. Mae adran 9(4) o'r Mesur yn darparu y bydd y treuliau hynny'n cael eu cyfrifo yn unol â darpariaeth a wneir (os gwneir darpariaeth) gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw drwy reoliadau. Mae adran 9(5) yn nodi y caiff rheoliadau o'r fath ddarparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer dyrannu gwariant a dynnir gan y Comisiynydd yn rhannol at un diben ac yn rhannol at ddiben arall, neu at ddibenion cyffredinol.

5.19 Rydym o'r farn bod angen i'r Mesur ddarparu hyblygrwydd ar gyfer diwygio’r modd o gyfrifo treuliau heb yr angen i gyflwyno Mesur diwygio.

5.20 Gan y bydd y Cynulliad wedi trafod egwyddor y ddarpariaeth hon, rydym o’r farn ei bod yn briodol i'r pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 9 ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Uniondeb cymeriad*

5.21 Mae Pennod 1 yn Rhan 8 y Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd. Mae adran 129(1) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru bennu drwy reoliadau pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion y Bennod hon (adran 129(1)(a)) ac y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod ar Uniondeb Cymeriad (adran 129(1)(b)). Mae'r materion a gynhwysir yn y Bennod ar Uniondeb Cymeriad yn ymwneud â'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd ac yn ymwneud â gwrthdrawiadau buddiannau a chreu, cynnal a chyhoeddi cofrestrau buddiannau.

5.22 Credwn bod angen i'r Mesur arfaethedig gynnig yr hyblygrwydd i ddarpariaethau ynghylch buddiannau o'r fath gael eu gwneud a'u

diwygio i adlewyrchu'r amgylchiadau y mae'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd yn gweithredu ynddynt ar unrhyw adeg, heb yr angen i gyflwyno Mesur diwygio. Credwn hefyd y byddai'n amhriodol i fanylion o'r fath ymddangos ar wyneb y Mesur arfaethedig.

5.23 Gan y bydd y Cynulliad wedi trafod egwyddor y ddarpariaeth hon, rydym o’r farn y dylai'r pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adrannau 129(1)(a) a (b) ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Cyfyngiadau*

5.24 Mae adran 133 yn nodi nad yw'r Comisiynydd wedi'i awdurdodi i arfer swyddogaeth benodol sydd, yn rhinwedd deddfiad, yn arferadwy gan berson arall, ac nad oes gofyn iddo wneud hynny. Mae adran 133(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn, y swyddogaethau penodol a'r personau o dan sylw.

5.25 O dan yr amgylchiadau, credwn fod angen i'r Mesur arfaethedig ddarparu'r hyblygrwydd i'r darpariaethau sy'n pennu'r swyddogaethau a'r personau penodol dan sylw gael eu rhagnodi'n gyflym, er enghraifft wrth i swydd-ddeiliaid presennol gael swyddogaethau newydd neu wrth i swydd-ddeiliaid a'u swyddogaethau newydd gael eu creu, heb yr angen i gyflwyno Mesur diwygio. Credwn hefyd y byddai'n amhriodol i fanylion o'r fath ymddangos ar wyneb y Mesur arfaethedig.

5.26 Gan y bydd y Cynulliad wedi trafod egwyddor y ddarpariaeth hon, rydym o’r farn ei bod yn briodol i'r pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 133 ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

**Y Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag ombwdsmyn rhagnodedig neu awdurdodau eraill, a gweithio'n gyfochrog â hwy**

*Gweithio ar y cyd rhwng y Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*

5.27 Mae adran 19 y Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â’r Comisiynydd yn gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae is-adran (4)(a) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy orchymyn, bod adran 19 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson arall fel y mae'n gymwys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae is-adran (4)(b) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion neu o ganlyniad i orchymyn a wneir o dan is-adran (4)(a).

5.28 Pan fo gorchymyn a wneir o dan adran 19(4) yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rydym o’r farn ei bod yn briodol bod y ddilyn y **weithdrefn gadarnhaol**. Pan nad yw gorchymyn o'r fath yn diwygio deddfwriaeth

sylfaenol, rydym o’r farn y dylai'r gorchymyn ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill*

5.29 Mae adran 20 o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill. Mae is-adran (7) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y diffiniad o ombwdsmon yn is-adran (6). Mae is-adran (8) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion neu o ganlyniad i ddiwygiad a wneir drwy orchymyn o dan is-adran (7).

5.30 Mae gorchymyn a wneir o dan adran 20(7) yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol.** Pan fo gorchymyn a wneir o dan adran 20(8) yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rydym o’r farn ei bod yn briodol bod y gorchymyn yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol**. Pan nad yw gorchymyn o'r fath yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rydym o’r farn y dylai'r gorchymyn ddilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Pŵer i ddatgelu gwybodaeth*

5.31 Mae adran 21(10) y Mesur arfaethedig y rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o berson a ganiateir yn is-adran (9). Mae gorchymyn a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** am fod gan ddiwygio’r rhestr o “bersonau a ganiateir” yn is-adran (9) oblygiadau o ran y Comisiynydd yn datgelu gwybodaeth a allai fod yn sensitif a gafodd wrth iddo arfer unrhyw un o’i swyddogaethau. Mae hyn yn gyson â darpariaethau Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn 2006.

**Gosod safonau ar bersonau a bennir yn y Mesur**

*Pennu safonau*

5.32 Mae adran 25(1) o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu safonau ac mae adran 25(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth arall ynghylch safonau o'r fath.

5.33 Mae'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd y rheoliadau hyn yn pennu manylion y safonau a fydd, yn y man, yn cael eu gosod ar bersonau.

*Diwygio'r personau a'r categorïau a bennir yn Atodlenni 6 a 8*

5.34 Mae adran 34 a 37 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 a'r tabl yn Atodlen 8 sy'n pennu'r personau neu'r categorïau o bersonau sy'n agored i orfod

cydymffurfio â safonau.

5.35 Mae'r Gorchmynion a wneir o dan yr adrannau hyn yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd y gorchmynion hyn yn effeithio ar y person neu'r categori o berson sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Bydd gorchmynion a wneir o ganlyniad i newid enw person, fodd bynnag, yn dilyn y **weithdrefn negyddol**.

*Diwygio swm yr arian cyhoeddus y mae'n rhaid i berson ei dderbyn er mwyn cael ei gynnwys o fewn y disgrifiad o berson yng nghofnod (5) Atodlen 5*

5.36 Mae paragraff 1(1) Atodlen 5 i'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio cofnod (5) yn y tabl drwy gyfnewid y swm perthnasol o arian cyhoeddus am unrhyw swm arall heb fod yn llai na £400,000.

5.37 Mae'r gorchmynion a wneir o dan yr adrannau hyn yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd y gorchmynion hyn yn effeithio ar y person neu'r categori o berson sy'n agored i orfod cydymffurfio â'r safonau.

*Gwneud safonau'n benodol gymwys i berson*

5.38 Mae adran 38 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â safon.

5.39 Mae'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd y bydd gofyn i'r person, wedi iddo gael yr hysbysiad cydymffurfio, gydymffurfio â'r safon(au) a nodir yn yr hysbysiad.

*Y ddyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys*

5.40 Mae adran 41 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r rhestr o weithgareddau yn Atodlen 9 y mae gofyn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â hwy.

5.41 Mae'r gorchmynion a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd gorchmynion o'r fath yn effeithio ar natur a hyd a lled y safonau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau y gallai fod angen i'r person hwnnw gydymffurfio â hwy.

*Rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd*

5.42 Mae adran 68 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd a gynhwysir mewn cofnodion a gedwir gan berson sy'n ddarostyngedig i orfod cydymffurfio â safonau cadw cofnodion.

5.43 Mae'r gorchmynion a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y gall gorchmynion o'r fath ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol a rhoi cosbau sifil os na ddarperir gwybodaeth o'r fath.

**Rhoi cosbau sifil**

5.44 Mae adran 82 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, gyfnewid swm gwahanol am y gosb sifil uchaf o £5,000 y gellid ei gosod mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 70(2)).

5.45 Mae'r gorchmynion a wneir o dan yr adran hon yn cael dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** gan y bydd gorchmynion o'r fath yn effeithio'n uniongyrchol ar y personau sy'n ddarostyngedig i orfod cydymffurfio â’r safonau.

**Adroddiad blynyddol y Comisiynydd i Weinidogion Cymru ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**

5.46 Mae adran 108 o'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer adroddiadau gan y Comisiynydd i Weinidogion Cymru ar y ceisiadau a wnaed gan unigolion i'r Comisiynydd yn gofyn am ymchwiliad i achos honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i bob cais; a barn y Comisiynydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith i warchod rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd.

5.47 Mae'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn negyddol** gan fod adran 108 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiadau o'r fath ac yn gosod gofynion o ran y cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig.

**Rheolau arferion a gweithdrefnau’r Tribiwnlys**

5.48 Mae adran 112 y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Tribiwnlys wneud rheolau sy'n llywodraethu arferion a gweithdrefnau’r Tribiwnlys. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ganiatáu neu wrthod y rheolau a gosod y rheolau gerbron y Cynulliad. Mae hyn yn gyson â phroses Pwyllgor Gweithdrefn Tribiwnlys o wneud Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

5.49 Gan y bydd egwyddorion sefydlu’r Tribiwnlys a manylion ei gyfansoddiad yn ogystal â'i swyddogaethau wedi'u trafod yn y Cynulliad a’u bod wedi'u cynnwys ar wyneb y Mesur, credwn ei bod yn briodol i'r rheolau sy'n llywodraethu gweithrediad y Tribiwnlys o ddydd i ddydd gael eu cynnwys mewn offeryn statudol sy'n dilyn y **weithdrefn negyddol**. Mae Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys mewn perthynas ag offeryn

statudol sy'n cynnwys rheolau a wnaed gan Lywydd y Tribiwnlys, fel ag yn achos is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru.

**Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad â’r Mesur, neu i roi effaith iddo**

5.50 Mae adran 143 o’r Mesur arfaethedig yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, a’r cyfryw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru o’r farn ei bod yn angenrheidiol neu’n briodol mewn cysylltiad â’r Mesur, neu i roi effaith iddo.

5.51 Mae'r gorchmynion a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol** i’r graddau y maent yn cynnwys darpariaeth sy’n diwygio, yn dirymu neu fel arall yn addasu deddfiad (heblaw am ddeddfiad a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth). Mae gweithredu’r lefel hon o graffu yn gyson gyda’r weithdrefn sy’n berthnasol i arfer y pwerau cyfwerth mewn deddfwriaeth arall. Mae’r gorchmynion a wneir o dan yr adran hon sy’n diwygio, yn dirymu neu fel arall yn addasu deddfiad a gynhwysir mewn is-deddfwriaeth yn dilyn y **weithdrefn negyddol**.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid yw'r Mesur arfaethedig, ohono'i hun, yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar gyrff heblaw'r Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, Llywydd y Tribiwnlys, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru.

6.2 Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru bennu safonau a fydd, yn eu tro, yn gweld dyletswyddau'n cael eu gosod ar bersonau sy'n cael hysbysiad cydymffurfio.

6.3 Gan y bydd angen ymgynghori â'r cyrff sydd â buddiant cyn i'r safonau gael eu gwneud, ni chaiff y rheoliadau drafft sy'n ymwneud â'r safonau eu hystyried ochr yn ochr â'r Mesur hwn. Fel y disgrifiwyd uchod, bydd y Comisiynydd, na ellir ei benodi hyd nes y bydd y Mesur arfaethedig yn dod yn gyfraith, yn gallu cynnal ymchwiliadau ynghylch y safonau, a bydd y broses hon yn golygu ymgynghori â'r rhai y bwriedir iddynt fod yn destun y safonau. Yn absenoldeb y safonau hynny, nid yw'n bosibl rhagweld mewn unrhyw fanylder beth fydd effaith uniongyrchol y dyletswyddau a osodir gan y safonau.

6.4 Bydd pob un o'r rheoliadau hyn, yn y man, yn destun asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

6.5 Fodd bynnag, yn unol â Rheol Sefydlog 23.18(vi), mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn ac mae'n dilyn fel Rhan 2.

# Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Paratowyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 23.18(iii) a 23.18(vi).

## 7. Opsiynau

### Cyflwyniad

7.1 Mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig yr ymrwymiadau perthnasol yn rhaglen llywodraethu *Cymru'n Un* yw "cadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith". Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion hyn ac, wrth wneud hynny, unioni'r anghysondebau a'r anawsterau a amlinellir yn Rhan 1 o'r memorandwm hwn mewn perthynas â Deddf 1993.

7.2 Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn trafod i ba raddau y byddai'r opsiynau canlynol yn cyflawni'r amcanion hyn:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim.

- **Opsiwn 2:** Cynyddu'r buddsoddiad yng ngwaith rheoleiddio Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf 1993.

- **Opsiwn 3:** Cyflwyno Mesur i sefydlu Comisiynydd gydag ystod eang o bwerau a swyddogaethau; symud o gynlluniau i system sy'n seiliedig ar safonau gyda gorfodi gwell (gan gynnwys sefydlu Tribiwnlys); rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵynion mewn perthynas ag achosion honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; sefydlu Cyngor Partneriaeth; a gwneud darpariaeth mewn perthynas â statws y Gymraeg.

## 8. Costau a Manteision

### Cyffredinol

8.1 Mae'r adran hon yn edrych ar gostau a manteision yr opsiynau a ddisgrifir yn yr adran flaenorol.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

8.2 Byddai gwneud dim yn gadael y fframwaith deddfwriaethol presennol sydd wedi bod yn ei le ers 1993 fel y mae ac, o ganlyniad, ni fyddai'r manteision a ddymunir a amlinellir yn Rhan 1 o'r memorandwm hwn yn cael eu cyflawni.

8.3 Byddai'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar gynlluniau a'u diwygio a amlinellir yn Rhan 1, sy'n llyncu llawer o adnoddau, yn parhau ynghyd â'r drefn orfodi gyfyngedig bresennol. Gan fod y cynlluniau'n ddogfennau sy'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau gan sefydliadau, yn hytrach na dyletswyddau penodol, ni fyddai hyn yn ymdrin ag ymrwymiad *Cymru'n Un* i sefydlu hawliau wrth ddarparu gwasanaethau (canlyniad gosod dyletswydd ar sefydliad i'r unigolyn).

8.4 Ni fyddai'r nod a gyhoeddwyd o sefydlu Comisiynydd fel pencampwr ac eiriolwr amlwg dros y Gymraeg yn cael ei gyflawni.

8.5 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn caniatáu gwneud darpariaethau o ran statws y Gymraeg nac mewn perthynas ag ymchwilio i achosion o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd, ac adrodd arnynt.

8.6 Byddai'r opsiwn hwn yn niwtral o ran costau gyda Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i noddi Bwrdd yr Iaith Gymraeg (£13.8m yn 2009-10).

### Opsiwn 2: Cynyddu'r buddsoddiad yng ngwaith rheoleiddio'r Bwrdd o dan Ddeddf 1993

8.7 Byddai cynyddu'r buddsoddiad yng ngwaith rheoleiddio'r Bwrdd yn caniatáu i'r Bwrdd gytuno ar fwy o gynlluniau newydd a diwygiedig. Drwy wneud hynny, fodd bynnag, ni fyddai'r manteision a ddymunir fel y'u hamlinellir yn Rhan 1 o'r memorandwm hwn yn cael eu gwireddu a byddai'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cytuno ar gynlluniau a'u diwygio, sy'n llyncu llawer o adnoddau, yn parhau, ynghyd â'r drefn orfodi gyfyngedig bresennol. Yn ogystal, mwyaf yn y byd o gynlluniau y cytunir arnynt, mwyaf yn y byd fydd y baich gweinyddol ar y Bwrdd.

8.8 Nid yw darparu mwy o adnoddau i'r Bwrdd yn rhywbeth digynsail. Yn 2003, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid ychwanegol i'r Bwrdd er mwyn helpu i weithredu *Iaith Pawb*. Defnyddiwyd peth o'r cyllid ychwanegol hwn i gryfhau tîm y Bwrdd oedd yn gweithio gyda

sefydliadau i ddatblygu cynlluniau. Arweiniodd hyn at gynyddu nifer y cynlluniau y cytunwyd arnynt, neu a ddiwygiwyd, bob blwyddyn.

8.9 Byddai angen canfod adnoddau ar gyfer unrhyw fuddsoddiad pellach yng ngwaith rheoleiddio'r Bwrdd naill ai o du Llywodraeth y Cynulliad, neu drwy ailddyrannu adnoddau o fewn y Bwrdd ei hun (gan effeithio ar waith arall y Bwrdd o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg). Byddai angen i fuddsoddiad o'r fath fod yn arian cylchol ac, fel y nodir uchod, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a drafodwyd yn Rhan 1.

8.10 Fel ag yn achos opsiwn 1, ni fyddai'r nod a gyhoeddwyd o sefydlu Comisiynydd fel pencampwr ac eiriolwr amlwg dros y Gymraeg yn cael ei gyflawni.

8.11 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn caniatáu gwneud darpariaethau o ran statws y Gymraeg nac mewn perthynas ag ymchwilio i achosion o ymyrryd â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd, ac adrodd arnynt.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur**

8.12 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno Mesur i:

- sefydlu Comisiynydd gydag ystod eang o bwerau a swyddogaethau;
- symud o gynlluniau i system sy'n seiliedig ar safonau, gyda dulliau gorfodi gwell (gan gynnwys sefydlu Tribiwnlys);
- rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵynion mewn perthynas ag achosion honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg;
- sefydlu Cyngor Partneriaeth; a
- gwneud darpariaeth mewn perthynas â statws y Gymraeg.

8.13 Cred Gweinidogion Cymru y bydd cyflwyno Mesur o'r fath yn arwain at broses symlach ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau. Dylai hynny ganiatáu i'r sefydliadau hynny ganolbwyntio mwy o'u hymdrechion ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'w cwsmeriaid yn hytrach nag ar y prosesau sy'n gysylltiedig â chytuno ar gynlluniau, a'u gweithredu.

***Manteision***

*Sefydlu Comisiynydd gydag ystod eang o bwerau*

8.14 Barn glir y Gweinidogion yw ei bod yn bwysig bod swyddogaeth y Comisiynydd yn ehangach na gosod a gorfodi safonau yn unig. Er mwyn i'r Comisiynydd gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg mae'n bwysig ei fod yn gallu hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio a gaiff ei sefydlu gan y Mesur arfaethedig. Bydd Panel Cynghori'n helpu'r Comisiynydd drwy gynnig arbenigedd, cyngor a chanllawiau ynghylch cyfeiriad strategol ei waith.

*Sefydlu Tribiwnlys*

8.15 Bydd sefydlu Tribiwnlys yn sicrhau bod yna fodd i herio, yn annibynnol ar y Comisiynydd, mewn perthynas â gosod a gorfodi dyletswyddau.

*Symud o gynlluniau i system sy'n seiliedig ar safonau gyda gwell dull gorfodi*

8.16 Fel yr amlinellir yn Rhan 1, bydd cyflwyno safonau'n cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg; yn lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai y gosodir dyletswyddau arnynt drwy roi llai o bwyslais ar baratoi cynlluniau; sefydlu system a fydd yn sicrhau bod y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn rhesymol ac yn gymesur; a bod yna lefel resymol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff; datblygu cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach; a datblygu trefn orfodi fwy effeithiol mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau a osodir.

8.17 Bydd y safonau hefyd yn arwain at sefydlu hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau, gan gwrdd â'r ymrwymiadau yn *Cymru'n Un.*

8.18 Bydd gwell trefn orfodi yn cynnig dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â safonau ond yn sicrhau hefyd y gellir datrys cwynion yn gynnar ac yn anffurfiol os yw hynny'n briodol.

*Rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵynion mewn perthynas â honiadau o ymyrryd â rhyddid personau yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd*

8.19 Mae'r pŵer hwn i ymchwilio yn cynnwys gofynion adrodd a fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd roi adroddiadau i Weinidogion Cymru ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith wrth amddiffyn y rhyddid hwn.

8.20 Bydd y ffaith y bydd gan y Comisiynydd y pŵer i gyhoeddi adroddiadau am unrhyw achosion lle mae'n teimlo yr ymyrrwyd â rhyddid person i ddefnyddio'r Gymraeg yn codi ymwybyddiaeth o arferion gwael ac o argymhellion y Comisiynydd ynghylch arferion da.

*Sefydlu Cyngor Partneriaeth*

8.21 Bydd y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig i sefydlu Cyngor Partneriaeth yn rhoi'r cyfle i Weinidogion weithio mewn partneriaeth gyda'r rheini sydd â diddordeb yn y Gymraeg ac yn strategaeth iaith y Llywodraeth.

*Gwneud darpariaethau mewn perthynas â statws y Gymraeg*

8.22 Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â statws y Gymraeg.

***Costau***

*Goblygiadau cydymffurfio â safonau ar gyfer sefydliadau*

8.23 Eglurwyd y broses ar gyfer gosod safonau yn Rhan 1. O dan y broses hon bydd y Comisiynydd yn datblygu safonau, cânt eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru a byddant yn destun prosesau craffu a chymeradwyo'r Cynulliad. Fel rhan o'r broses hon, bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar effaith y rheoliadau arfaethedig ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth. O ganlyniad, dim ond ar ddiwedd y broses y daw union natur y safonau a osodir ar gyrff o dan y fframwaith a bennwyd gan y Mesur arfaethedig yn glir.

8.24 Mae'r asesiad canlynol o gostau yn cynnig astudiaeth gychwynnol o oblygiadau cydymffurfio â'r safonau ar gyfer sefydliadau. Mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd gofyn i'r sefydliadau y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â'r safonau gwrdd â chostau wneud hynny o'u cyllidebau prif ffrwd. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth a wnaed pan oedd Deddf 1993 yn mynd ar ei daith drwy Senedd San Steffan mewn perthynas â chydymffurfio â chynllun.

8.25 Nid yw cost gyffredinol cydymffurfio â chynlluniau wedi'i mesur yn rheolaidd. Mae'r gost gyffredinol i'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi'i thrin fel cost darparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog. Wedi'r cyfan, nid yw cost defnyddio'r Saesneg i ddarparu gwasanaeth yn cael ei mesur yn rheolaidd. Dylid cymhwyso'r un egwyddor i'r Gymraeg.

8.26 Mae gan fwyafrif llethol y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas Deddf 1993 ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru gynlluniau iaith eisoes. Fe ddylent, felly, fod yn darparu ystod o wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd eisoes. Er y bydd y fframwaith deddfwriaethol yn cael ei ddiweddaru drwy gyflwyno system sy'n seiliedig ar safonau, yr un fydd yr egwyddor greiddiol, fel y'i nodir yn Neddf 1993, sef bod disgwyl i sefydliadau gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Nid oes disgwyl, felly, y bydd cyflwyno'r safonau yn gosod baich ariannol newydd sylweddol ar y sefydliadau yr effeithir arnynt.

8.27 Yn amlwg, gallai unrhyw sefydliadau nad ydynt yn gweithredu cynlluniau ar hyn o bryd wynebu costau mewn perthynas â'r iaith am y tro cyntaf.

*Amcangyfrif o'r costau ar gyfer sefydliadau y gosodir dyletswyddau arnynt*

8.28 Fel y soniwyd eisoes, nid yw'r costau mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion Deddf 1993 wedi'u mesur yn rheolaidd ac mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn cael ei weld yn gynyddol fel rhan ganolog o

ddarparu gwasanaethau prif ffrwd yng Nghymru. O ganlyniad, mae darparu unrhyw amcangyfrif cywir o'r costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â dyletswyddau yn dasg anodd. Fodd bynnag, dylid ystyried y pwyntiau canlynol yn y cyswllt hwn.

(i) Ar hyn o bryd mae gan tua 550 o sefydliadau gynlluniau. Mae'r sefydliadau hyn yn amrywio'n fawr iawn o ran eu maint, eu swyddogaethau, ystod y gwasanaethau y maent yn eu cynnig (mewn unrhyw iaith), eu lleoliad a lefel eu hymwneud â'r cyhoedd. Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth felly yn berthnasol i wahanol sefydliadau ac mae gan rai fwy o oblygiadau ariannol nag eraill.

(ii) Bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu i safonau gael eu teilwra er mwyn gweithredu'n wahanol mewn gwahanol sectorau a gwneud darpariaeth benodol ar gyfer sefydliadau unigol.

(iii) Gall dewis ddull y corff o gynllunio a darparu gwasanaethau dwyieithog effeithio ar gostau. Er enghraifft, gall fod yn fwy costus os yw elfen Gymraeg y gwasanaeth yn 'ychwanegiad' at y ddarpariaeth Saesneg yn hytrach na chael ei hystyried ym mhob prosiect neu weithgaredd o'r cychwyn cyntaf.

(iv) Rhoddir pwerau i'r Comisiynydd i gynhyrchu codau ymarfer a chanllawiau er mwyn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon wrth ddatblygu gwasanaethau.

(v) Ers Deddf 1993, caniatáu i gyrff gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn raddol dros amser fu dull y Bwrdd o weithredu o ran cytuno ar gynlluniau gyda hwy. Mae dull o'r fath wedi caniatáu i gost y ddarpariaeth gael ei hysgwyddo dros gyfnod o amser. Er enghraifft, gosod arwyddion ffyrdd dwyieithog yn lle arwyddion uniaith Saesneg dim ond pan fyddai angen gosod arwydd newydd p'un bynnag.

(vi) Yn gyffredinol, mae yna lawer o ffactorau newidiol sy'n effeithio ar y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Cymraeg.

8.29 Mae ymchwil ddiweddar gan y Bwrdd yn rhoi cipolwg o'r ystod o gostau, fel enghreifftiau, y gallai amrywiaeth o sefydliadau eu hysgwyddo er mwyn gweithredu eu cynlluniau.

8.30 Edrychodd y Bwrdd ar y camau y mae amrywiaeth o sefydliadau wedi'u cymryd er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth geisio pennu'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Cymraeg, fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn ei chael yn anodd cael ffigurau gan sefydliadau y mae darpariaethau Deddf 1993 yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Yn nodweddiadol, maent yn cyfeirio at y ffaith bod cyrff, ers 1993, wedi bod yn integreiddio costau dwyieithrwydd i'w trefniadau i'r fath raddau fel nad ydynt yn gallu darparu'r ffigurau hynny

ar wahân erbyn hyn. Cafwyd yr wybodaeth ganlynol:

- *Sefydliadau bach*

(i) Roedd yr wybodaeth yn dangos mai anaml yr oedd sefydliadau'n mynegi pryderon am gost gweithredu cynllun. Er nad oedd rhai o'r sefydliadau'n cydymffurfio â'u cynlluniau yn llawn, anaml y nodwyd cost fel rheswm.

(ii) Amcangyfrifir nad yw'r gost yn fwy na £1,000 y flwyddyn. Fel rheol, nid yw sefydliadau bach yn cyflogi staff i weithredu'r cynllun ac mae'r costau cyfieithu yn fach.

- *Sefydliadau canolig*

(iii) Yn nodweddiadol, sefydliad sy'n cyflogi tua 100 o staff sy'n gweinyddu swyddogaethau cyfyng ledled Cymru, gyda swyddog iaith sydd â chyfrifoldeb penodol am weinyddu'r cynllun.

(iv) Roedd yr ymatebion i ymholiad y Bwrdd yn dangos nad oedd sefydliadau o'r fath yn ystyried costau iaith ar wahân i gostau gweithredu prif ffrwd y sefydliad.

(v) Fel rheol, amcangyfrifir nad yw'r gost yn fwy na £100,000 y flwyddyn.

- *Sefydliadau mawr*

(vi) Mae nifer o sefydliadau o'r fath, ond nid pob un, wedi penodi swyddogion iaith dynodedig i weinyddu cynllun, ond gall y cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd amrywio o un sefydliad i'r llall. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi'r cyfrifoldeb i'w hadran gyfathrebu, rhai i'r uned strategaethau cymunedol, ac eraill i'r uned cydraddoldebau neu'r uned polisi corfforaethol.

(vii) Mewn llawer o awdurdodau mae'r swyddog cydraddoldebau'n gyfrifol am y cynllun yn ogystal â'r holl faterion cydraddoldeb eraill.

(viii) Mae rhai sefydliadau'n cyflogi cyfieithwyr mewnol ac eraill yn dilyn yr arfer o roi gwaith cyfieithu i gyfieithwyr sector preifat dan gontract.

(ix) Fel rheol, amcangyfrifir bod y gost yn £200,000 y flwyddyn. Roedd yna gostau cychwynnol ar gyfer rhai awdurdodau lleol: gwariant cyfalaf gan fwyaf e.e. gosod offer cyfieithu yn siambrau'r cyngor. Roedd gwariant cyfalaf o'r fath yn gymharol fach o gymharu â gwariant cyfalaf blynyddol cyffredinol awdurdod.

8.31 Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan y Bwrdd yn rhoi syniad o'r ystod o gostau y mae sefydliadau, a ddiffinnir gan y Bwrdd fel rhai bach, canolig a mawr, yn eu hwynebu. Ni fyddai'n briodol, na'n fanwl gywir, fodd bynnag, ceisio defnyddio'r ffigurau hyn i amcangyfrif cyfanswm y gost ar gyfer y mathau o sefydliadau a restrir yn Atodlen 6 i'r Mesur arfaethedig. Roedd y sampl a ddefnyddiodd y Bwrdd yn gymharol fach ac roedd llawer o'r sefydliadau hynny wedi'u lleoli yng Nghymru, gyda chysylltiad uniongyrchol sylweddol â'r cyhoedd yng Nghymru. O ganlyniad, ni ellir dweud eu bod yn cynrychioli'n llawn yr ystod eang o sefydliadau a restrir yn yr Atodlen. Mae'n bosibl y bydd y costau i rai sefydliadau mawr yn debyg i'r rhai y mae'r Bwrdd yn eu nodi ar gyfer sefydliadau canolig; mae'n bosibl mai ychydig iawn o gyswllt uniongyrchol sydd gan rai sefydliadau â'r cyhoedd, ac yn y blaen. Fel y nodir ym mharagraff 4.3, fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â phob sefydliad wrth i'r safonau gael eu paratoi, a bydd hyn yn darparu ffigurau cywirach o ran costau, a gaiff eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynir ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth ym mhob achos. Yn ogystal, dylid nodi bod llawer o'r sefydliadau yn Atodlen 6 eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â'u cynlluniau eu hunain. O ganlyniad, bydd rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r safonau yn golygu parhau â'r gwariant cyfredol ar weithredu cynlluniau.

8.32 Yn yr un modd, ni ellir rhagweld y costau sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau yn Atodlen 8 (nad ydynt wedi bod yn destun cynlluniau o'r blaen, ac sy'n wahanol o ran eu natur i sefydliadau Atodlen 6) cyn ymgynghori ynghylch y safonau a fydd yn berthnasol iddynt.

*Yr effaith ar fusnesau bach*

8.33 Polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru, fel y'i adlewyrchir yn y Mesur arfaethedig, yw peidio â gosod dyletswyddau ar y sector preifat, gan gynnwys busnesau bach. Fodd bynnag, bydd rhai sefydliadau o'r sector preifat yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, gan adlewyrchu'r cymhwysedd a ddarperir gan Fater 20.1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (a atgynhyrchir yn Rhan 1).

8.34 Fel y disgrifir ym mharagraff 8.23, i'r graddau y bydd unrhyw fusnes bach yn destun safonau, dim ond ar ddiwedd y broses a bennwyd gan y Mesur arfaethedig, yn dilyn ymgynghori a pharatoi asesiadau effaith rheoleiddiol, y daw union natur y safonau hynny yn glir. O ganlyniad, mae'r drafodaeth ym mharagraffau 8.28 i 8.32 ynghylch costau yn berthnasol i fusnesau bach.

*Y costau mewn perthynas â hawl sefydliadau i herio gosod safonau*

8.35 Gan y gallai'r broses amrywio o broses cyfnewid llythyrau syml rhwng y sefydliad a'r Comisiynydd i apêl i'r Tribiwnlys, gallai'r costau ar gyfer y sefydliad amrywio o'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi llythyr i gost cynrychiolaeth gyfreithiol yn y Tribiwnlys (ar gyfradd ddyddiol o tua

£2,000).

8.36 Gan y bydd gofyn i'r Comisiynydd ymgynghori â sefydliadau cyn cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ac y bydd angen iddo sicrhau bod y safonau hynny'n rhesymol ac yn gymesur, disgwylir i nifer yr heriau fod yn fychan. Nid yw'n bosibl rhagweld cost gyfartalog her gan mai mater i'r sefydliad perthnasol fydd natur pob her. Rydym wedi nodi ym mharagraff 8.35, fodd bynnag, ryw syniad o ystod y costau a fyddai ynghlwm â hyn.

8.37 Ar gyfer y Comisiynydd, byddai'r costau'n debyg a byddai angen iddynt gael eu hamsugno o gostau rhedeg y Comisiynydd.

*Costau mewn perthynas ag ymchwilio i achosion honedig o dorri safonau*

8.38 Fel ag yn achos herio penderfyniad i osod safonau, mae'r broses orfodi raddol a sefydlwyd gan y Mesur yn golygu y gallai'r broses o ymdrin â'r achosion hyn amrywio o broses syml o gyfnewid llythyrau rhwng y sefydliad a'r Comisiynydd i apêl i'r Tribiwnlys. Gallai'r costau ar gyfer y sefydliad amrywio o'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi llythyr i gostau cynrychiolaeth gyfreithiol yn y Tribiwnlys (ar raddfa o tua £2,000 y dydd).

8.39 Nid yw'n bosibl rhagweld cost gyfartalog ymchwiliad o'r fath gan y bydd natur pob achos yn amrywio. Ym mharagraff 8.38, fodd bynnag, rydym yn rhoi rhyw syniad o ystod y costau a allai fod yn berthnasol.

8.40 O ran cyfeirio apelau ymlaen i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol, dylai bodolaeth polisi gorfodi'r Comisiynydd, a Rheolau a Chyfarwyddiadau Ymarfer y Tribiwnlys, gadw nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at y llysoedd mor isel â phosibl. Fel enghraifft, fodd bynnag, os yw 10% o'r achosion y mae'r Tribiwnlys yn eu hystyried yn arwain at apêl i'r llysoedd, ar sail yr amcangyfrif ym mharagraff 8.48 isod y byddai'r Tribiwnlys yn eistedd am 15 diwrnod, gallwn amcangyfrif ymhellach y byddai'n gwrando ar gyfanswm o rhwng 30 a 50 o achosion ar y dyddiau hynny. Byddai hynny'n golygu bod rhwng 3 a 5 o achosion y flwyddyn yn cael eu cyfeirio at y llysoedd. Yn seiliedig ar un achos yn para diwrnod ar gyfradd o £2,000 y dydd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol, byddai hynny'n arwain at cyfanswm costau o rhwng £6,000 a £10,000 i'r personau sy'n apelio.

8.41 Ar gyfer y Comisiynydd, byddai'r costau'n debyg a byddai angen iddynt gael eu hamsugno o gostau rhedeg y Comisiynydd.

*Costau rhedeg ar gyfer y Comisiynydd*

8.42 Yn seiliedig ar y costau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r Bwrdd, a'r disgwyliad y bydd angen tua'r un faint o adnodd i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd, rhagwelir y bydd y costau rhedeg ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd yn weddol debyg i gostau rhedeg cyfredol y Bwrdd. Ein hamcangyfrif gorau, felly, yw £4.0m. Mae'r ffigur hwn, fodd bynnag, yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd i

hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gallai peth o'r gwaith hwnnw drosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â rhai o staff y Bwrdd. Byddai'r costau fyddai'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa'r Comisiynydd a sefydlu'r drefn reoleiddio newydd (yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â hybu'r defnydd o'r Gymraeg) yn dod o ddarpariaeth gyllidebol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu'r Bwrdd ar hyn o bryd (£13.8m yn 2009-10).

8.43 Fel y trafodir isod, byddai angen dyrannu cyfran fechan o'r £13.8m hefyd ar gyfer costau penodi aelodau'r Panel Cynghori, a rhoi tâl cydnabyddiaeth iddynt ac ar gyfer costau rhedeg y Tribiwnlys. Byddai gweddill cyllideb gyfredol y Bwrdd yn cael ei defnyddio i barhau i ariannu'r rhaglenni a'r grantiau cyfredol ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, p'un a fyddai'r cyfrifoldeb am weithgareddau o'r fath yn cael ei drosglwyddo yn y pen draw o'r Bwrdd i'r Comisiynydd a/neu i Weinidogion Cymru.

*Cost penodi'r Panel Cynghori a rhoi tâl cydnabyddiaeth iddynt*

8.44 Byddai cost penodi aelodau'r Panel Cynghori a rhoi tâl cydnabyddiaeth iddynt yn fychan iawn. Byddai'r gost fesul aelod yn debyg i'r gost fesul aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd. Ein hamcangyfrif gorau, felly, yw y byddai'r costau, yn ddibynnol ar nifer aelodau'r panel a benodir, rhwng £40,000 a £70,000 y flwyddyn. Ar y cyfan, fodd bynnag, gan na fyddai mwy na phum aelod yn gwasanaethu ar y panel ar unrhyw bryd, byddai yna arbediad bach o gymharu â chostau'r Bwrdd, pan fo hyd at 15 aelod yn gallu gwasanaethu.

8.45 Byddai'r costau cylchol hyn yn dod o'r £13.8m y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddefnyddio i noddi'r Bwrdd ar hyn o bryd.

*Costau rhedeg ar gyfer y Tribiwnlys*

8.46 Nid oes yna gynsail y gellir ei ddefnyddio i fesur nifer yr achosion y gellid eu cyfeirio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â gosod dyletswyddau ar bersonau. Mae'r amcangyfrifon o gostau yn seiliedig ar brofiad Panel Dyfarnu Cymru.

8.47 Er mwyn cadw'r gost mor isel â phosibl, bwriedir i Weinidogion Cymru ymgymryd â swyddogaeth ysgrifenyddol y Tribiwnlys. Mae'r amcangyfrif, felly, yn cynnwys costau staff sy'n gyson â rhai Panel Dyfarnu Cymru. Byddai angen i'r gost hon ddod o'r £13.8m a ddefnyddir i noddi'r Bwrdd ar hyn o bryd.

8.48 Bwriedir i'r system orfodi raddol a gyflwynir gan y Mesur arfaethedig sicrhau y bydd y Comisiynydd yn ymdrin â'r mwyafrif llethol o heriau. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn fanwl gywir faint o benderfyniadau'r Comisiynydd fydd yn destun apêl i'r Tribiwnlys. Fel enghraifft yn unig (gan gofio bod y Bwrdd wedi ymdrin â thua 100 o gŵynion yn 2008-09) yr amcangyfrif o'r costau rhedeg pe bai'r Tribiwnlys

yn cwrdd am gyfanswm o 15 diwrnod y flwyddyn fyddai tua £115,000, i'w ariannu o'r £13.8m, gyda £20,000 ar gyfer costau untro sefydlu'r Tribiwnlys (unwaith eto o'r £13.8m).

*Costau rhedeg ar gyfer y Cyngor Partneriaeth*

8.49 Bydd y costau rhedeg ar gyfer y Cyngor Partneriaeth yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth y Cynulliad, a fydd yn dod o'r £13.8m a ddefnyddir i noddi'r Bwrdd ar hyn o bryd.

8.50 Y prif gostau rhedeg mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth fydd y costau staff ar gyfer darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i'r Cyngor Partneriaeth a gaiff ei wneud gan Uned yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r amcangyfrif o'r costau sy'n dilyn yn seiliedig ar brofiad ysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol. Amcangyfrifir y byddai angen i swyddog Band C a swyddog Band D wario rhwng chwarter a thrydedd rhan o'u hamser ar dasgau yn ymwneud â'r Cyngor Partneriaeth, gyda swyddogion uwch yn gwario canran lai o'u hamser. Gan hynny, amcangyfrifir y bydd costau staff ar gyfer y Cyngor Partneriaeth rhwng £20,000 a £30,000 y flwyddyn.

8.51 Y costau mewn perthynas â lleoliadau i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth, a chostau teithio a chynhaliaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor Partneriaeth yw'r costau rhedeg eraill posibl. Gellid cadw'r costau mewn perthynas â'r lleoliadau mor isel â phosibl drwy gynnal cyfarfodydd yn adeiladau Llywodraeth y Cynulliad. Mewn perthynas â chostau teithio a chynhaliaeth, nid oes bwriad i gynnig costau teithio a chynhaliaeth i aelodau sy'n cynrychioli cyrff cyhoeddus eraill, neu gyrff sy'n derbyn cymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad neu gyrff cyhoeddus eraill. Efallai y bydd angen swm bach ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer aelodau fyddai'n cynrychioli cyrff bychain megis cyrff yn y Trydydd Sector.

*Costau gweithredu untro*

8.52 Bydd y broses o sefydlu strwythur newydd yn arwain at gostau untro. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r broses weithredu (h.y. costau cyflogau o tua £200,000 ym mlwyddyn 1) o'r cyllidebau cyfredol (h.y. nid o'r £13.8m a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd i noddi'r Bwrdd).

8.53 Disgwylir i'r costau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect gweithredu megis costau ymsefydlu, costau TGCh, costau cyfleusterau ac adeiladau a chostau gwasanaethau gwybodaeth fod oddeutu £270,000. Bydd angen ailddyrannu'r swm hwn o ddyraniad cyllideb y Bwrdd ond gellir gwneud hynny dros ddwy flynedd ariannol. (Yn dilyn cwblhau'r prosiect gweithredu, bydd y swm hwn ar gael unwaith eto ar gyfer rhaglenni sydd â'r nod o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.)

8.54 Ar sail y dybiaeth y bydd y Comisiynydd yn etifeddu swyddfeydd y Bwrdd (gan adlewyrchu'r ffaith y bydd y Comisiynydd yn ymdrin â'r un ystod o sefydliadau ag yr oedd y Bwrdd yn ymdrin â hwy, ac a leolir ledled Cymru), nid ydym yn rhagweld y byddai'r model a gynigir yn golygu unrhyw ad-drefnu ar ystâd y Bwrdd. Bydd y trafodaethau manwl am ystâd y Comisiynydd, fodd bynnag, yn fater i'w drafod fel rhan o brosiect gweithredu'r Mesur.

8.55 Nid ydym yn rhagweld y bydd cyflogaeth unrhyw aelod o staff y Bwrdd yn dod i ben o ganlyniad i gyflwyno'r Mesur arfaethedig, ac nid ydym felly'n rhagweld y bydd yna unrhyw gostau'n deillio o derfynu cyflogaeth. Rydym yn rhagweld y bydd angen yr adnoddau a ddefnyddir gan y Bwrdd ar hyn o bryd i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1993 ar y Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y bydd peth o waith y Bwrdd i hybu defnyddio'r Gymraeg yn trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad ynghyd â rhai o staff y Bwrdd. Bydd y trafodaethau manwl ynghylch dosbarthiad swyddogaethau o'r fath, bodd bynnag, yn fater i'w drafod fel rhan o brosiect gweithredu'r Mesur.

*Y costau mewn perthynas ag ymchwiliadau gan y Comisiynydd i achosion honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg*

8.56 Bydd unrhyw gostau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon yn dod o gyllideb graidd y Comisiynydd ar sail gylchol. Bydd costau ymdrin â chwynion yn amrywio yn ôl nifer y cwynion a dderbyniwyd a rhwng un gŵyn a'r llall gan ddibynnu ar gymhlethdod y gŵyn. Yn y pen draw, mater i'r Comisiynydd fydd dyrannu'r lefel angenrheidiol o adnodd sy'n i ymchwilio i gŵynion ynghylch achosion honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Fel amcangyfrif, cost cael swyddog ar lefel swyddog gweithredol uwch yn swyddfa'r Comisiynydd i ymchwilio i gŵyn am un diwrnod fyddai £150 (yn seiliedig ar gostau graddfa cyfartalog 2009-10). Yn hanesyddol, mae nifer yr achosion a gyfeirir at y Bwrdd a sefydliadau eraill wedi bod yn fychan iawn, gan adlewyrchu'r ffaith bod y gymdeithas yn gyffredinol yn derbyn y ffaith bod gan bobl y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu nad oes mwy na phum achos y flwyddyn, a fyddai'n arwain at gyfanswm o £750 o ran costau.

*Y costau mewn perthynas â phwerau'r Comisiynydd i ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolyn*

8.57 Nid ydym yn rhagweld y bydd yna lawer o achlysuron pan fyddai unigolyn yn dod yn barti mewn achosion llys gwirioneddol neu bosibl lle byddai'r Comisiynydd yn dymuno darparu cymorth cyfreithiol. Mae'n debygol y defnyddir pwerau gorfodi'r Comisiynydd ei hun i ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n debygol y bydd yr achosion pan fydd y Comisiynydd yn dymuno darparu cymorth yn gyfyngedig i achosion nodedig a fyddai, yn eu hanfod, yn achlysuron prin. Ar y pegwn eithaf mae'n bosibl, felly, na fyddai'r pŵer hwn yn cael

ei ddefnyddio mewn unrhyw un flwyddyn, felly ni fyddai yna gostau o gwbl. Yr amcangyfrif gorau, fodd bynnag, yn seiliedig ar y Comisiynydd yn derbyn cymorth cyfreithiol am bum niwrnod y flwyddyn, ar gyfradd ddyddiol o £2,000, fyddai £10,000. Byddai angen i'r Comisiynydd, felly, ddyrannu arian wrth gefn priodol o gostau rhedeg ei swyddfa.

**Crynodeb o gostau ariannol cynigion y Mesur**

8.58 I grynhoi, bydd costau uniongyrchol sefydlu'r strwythur y darparwyd ar ei gyfer gan y Mesur arfaethedig yn dod o'r £13.8m a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd i noddi'r Bwrdd, ac eithrio'r costau untro sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosiect gweithredu fel y'u disgrifir ym mharagraff 8.52.

8.59 O'r swm hwnnw, fel y disgrifir uchod, yr amcangyfrif gorau o gostau rhedeg y strwythur y darperir ar ei gyfer gan y Mesur arfaethedig (yn seiliedig ar ffigurau 2009-10) yw £4.2m y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys costau rhedeg ar gyfer y Comisiynydd a'r staff (£4.0m – ond gweler y nodyn ym mharagraff 8.42 ynghylch y posibilrwydd y bydd rhai staff yn trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad), y Panel Cynghori (rhwng £40,000 a £70,000), y Tribiwnlys (£115,000) a'r Cyngor Partneriaeth (rhwng £20,000 a £30,000).

8.60 Bydd gweddill y cyllid Rhaglenni sef £9.6m yn parhau i ariannu rhaglenni sydd â'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, naill ai gan y Comisiynydd neu Lywodraeth y Cynulliad, ac eithrio'r £270,000 dros ddwy flynedd ar gyfer y costau gweithredu untro.

## 9. Asesu’r gystadleuaeth

9.1 Fel y nodwyd yng nghyd-destun busnesau bach ym mharagraff 8.33 uchod, polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru, fel y’i adlewyrchir yn y Mesur arfaethedig, yw peidio â gosod dyletswyddau ar y sector preifat. Fodd bynnag, bydd rhai sefydliadau o’r sector preifat yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, gan adlewyrchu’r cymhwysedd a ddarperir gan Fater 20.1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 (a atgynhyrchir yn Rhan 1).

9.2 Yn ogystal, dim ond ar ddiwedd y broses a bennwyd gan y Mesur arfaethedig, yn dilyn ymgynghori a pharatoi asesiadau effaith rheoleiddiol, y daw union natur y safonau’n glir.

9.3 O ran y lleiafrif bychan o gwmnïau sector preifat a allai fod yn destun y safonau, nod Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau tegwch o ran darparu gwasanaethau Cymraeg rhwng cwmnïau sy’n gweithredu o fewn yr un sector ac yn darparu’r un gwasanaethau, neu wasanaethau tebyg. O ganlyniad, dylai effaith y cynigion a nodir yn y Mesur arfaethedig ar y cwmnïau hynny fod yn niwtral o ran cystadleuaeth.

9.4 O blith y sectorau y gallai’r dyletswyddau a osodir o dan y Mesur arfaethedig effeithio arnynt mae gan rai cwmnïau telathrebu, dŵr, trydan a nwy fwy na 10% o’r farchnad yng Nghymru. Mae gan rai o’r rhain hefyd fwy na 20% yng Nghymru ac mae gan y tri chwmni dŵr, gyda’i gilydd, fwy na 50% o’r farchnad yng Nghymru.

9.5 Asesiad cychwynnol Gweinidogion Cymru, felly, yw ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio ohono yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth.

9.6 Gan mai’r egwyddor sy’n llywio polisi Gweinidogion Cymru yw bod angen i unrhyw ddyletswyddau o ran y Gymraeg a osodir ar sector sicrhau tegwch ar gyfer pob cwmni yn y sector hwnnw, dylai’r costau ar gyfer pob cwmni oddi fewn i sector fod yn debyg. Wrth gwrs, mae cwmnïau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn wirfoddol eisoes yn amsugno cost gwneud hynny. Bydd cost cydymffurfio â’r dyletswyddau a osodir arnynt i’r cwmnïau hynny yn anochel yn is nag i’r cwmnïau hynny sy’n dechrau o sylfaen is.

9.7 Nid yw Gweinidogion Cymru’n credu y bydd y Mesur arfaethedig ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio ohono yn cael effaith fawr ar strwythurau’r farchnad nac yn newid nifer neu faint y cwmnïau yn y sector. Yn ogystal, gellir herio unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sail rhesymoldeb a chymesuredd.

9.8 Ni ddylai darparu gwasanaethau dwyieithog syml megis arwyddion a gohebiaeth roi baich ariannol sylweddol ar gwmnïau. Ar gyfer gwasanaethau megis llinellau cymorth a chanolfannau galwadau, gallai

fod yn haws lleoli’r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghymru.

9.9 Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ystyried a fydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio ohono yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd, neu ddarpar-gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo. Fel y trafodwyd uchod, polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru yw peidio â gosod dyletswyddau ar y sector preifat. Ar gyfer y sefydliadau sector preifat hynny a fydd yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, dim ond ar ddiwedd y broses a bennwyd gan y Mesur arfaethedig, yn dilyn ymgynghori a pharatoi asesiad effaith rheoleiddiol, y daw cwmpas a natur y safonau a fydd yn berthnasol iddynt yn glir. O ganlyniad, nid yw’n bosibl pennu pa effaith y bydd unrhyw safonau’n eu cael ar gostau sefydlu. Yn ogystal, gellir herio unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sail rhesymoldeb a chymesuredd. Byddai’r un peth yn wir am unrhyw gostau rheolaidd.

9.10 Mae’r technolegau newydd sy’n ymddangos yn cynnig heriau a chyfleoedd o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Mae’r sector telathrebu yn arbennig yn profi newid technolegol cyflym. Cred Gweinidogion Cymru bod darparu gwasanaethau telathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld yn iaith fodern a bywiog. Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn awgrymu bod systemau telathrebu megis ffonau symudol eisoes yn gallu darparu gwasanaeth amlieithog ac mai’r gost gyfieithu gychwynnol fyddai’r brif gost o ran cynnwys iaith ychwanegol. Dim ond ar ddiwedd y broses a bennwyd gan y Mesur arfaethedig, yn dilyn ymgynghori a pharatoi asesiad effaith rheoleiddiol, y daw cwmpas a natur unrhyw safonau yn glir.

9.11 Mae profiad rhyngwladol yn awgrymu hefyd nad yw dyletswyddau iaith yn rhwystro cyflenwyr rhag gweithredu yn y gwledydd neu’r rhanbarthau hynny. Er enghraifft, yn eu tystiolaeth i’r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wrth iddynt graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyn y broses ddeddfu, dywedodd llywodraeth Catalonia nad oes ganddi dystiolaeth i awgrymu bod y dyletswyddau o ran y Gatalaneg wedi cael effaith negyddol ar economi’r rhanbarth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae'n un o ofynion y Mesur arfaethedig y bydd angen i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau blynyddol y Comisiynydd a'r adroddiadau 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg.

10.2 Bydd gan y Comisiynydd y pŵer hefyd i gynnal gwaith ymchwil a chasglu data fel tystiolaeth ategol ar gyfer adroddiadau o'r fath.

10.3 Fel y nodwyd mewn man arall yn y memorandwm hwn, mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gynnwys ym mhob adroddiad blynyddol safbwynt y Comisiynydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith o ran diogelu rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd.

## RHAN 3: NODIADAU ESBONIADOL

## MESUR ARFAETHEDIG Y GYMRAEG (CYMRU) 2010

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru) fel y'i osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Mawrth 2010 a'i ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Mae Adran Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi'r nodiadau hyn er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur arfaethedig nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Os yw'n ymddangos, felly, nad oes angen rhoi unrhyw esboniad ar adran, ni roddir esboniad.

Ceir deg rhan yn y Nodiadau Esboniadol:

Rhan 1: Statws Swyddogol y Gymraeg
Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg
Rhan 3: Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
Rhan 4: Safonau
Rhan 5: Gorfodi Safonau
Rhan 6: Rhyddid i Ddefnyddio'r Gymraeg
Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg
Rhan 8: Cyffredinol
Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg etc
Rhan 10: Atodol

Mae'r pŵer i wneud y Mesur hwn yn cael ei ddarparu gan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Y Materion perthnasol yn Rhan 1 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno yw 20.1 ac 20.2 fel y'i mewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010.

## Rhan 1: Statws swyddogol y Gymraeg

Mae’r Rhan hon o’r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

### Adran 1: Statws swyddogol y Gymraeg

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

Mae *is-adran (1)* yn datgan bod i’r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

Mae *is-adran (2)* yn darparu bod effaith gyfreithiol yn cael ei rhoi i statws swyddogol y Gymraeg gan y deddfiadau ynghylch dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio’r Gymraeg; ynghylch peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; ynghylch dilysrwydd defnyddio’r Gymraeg; ynghylch hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg; ynghylch rhyddid personau sy’n dymuno defnyddio’r Gymraeg i wneud hynny gyda’i gilydd; ynghylch creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ac ynghylch materion eraill sy’n ymwneud â’r Gymraeg.

Mae *is-adran (3)* yn cyfeirio at enghreifftiau o ddeddfiadau sy’n rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg.

Mae *is-adran (4)* yn datgan nad yw’r Mesur yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru..

## Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg

Mae ail Ran y Mesur yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato yma fel “y Comisiynydd”), yn darparu ar gyfer prif nod y Comisiynydd ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd.

### Adran 2: Comisiynydd y Gymraeg

Mae’r adran hon yn sefydlu swydd Comisiynydd ac yn rhoi ei heffaith i Atodlen 1 sy’n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynglŷn â’r Comisiynydd. Mae’r Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru.

### Adran 2A: Prif nod y Comisiynydd

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch prif nod y Comisiynydd wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Y nod hwnnw yw hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg. Mae *is-adran (2)* yn gwneud darpariaeth ynghylch y camau y mae’n rhaid i’r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer swyddogaethau yn unol â’r prif nod, ac mae *is-adran (3)* yn rhestru’r egwyddorion y mae’n rhaid i’r Comisiynydd roi sylw iddyn nhw pan fydd yn arfer swyddogaethau’n unol â’r prif nod.

**Adran 3: Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Mae'r adran hon yn amlinellu swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd. Mae *is-adran (1*) yn darparu y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n credu ei fod yn briodol i hybu defnyddio'r Gymraeg, i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Adran 4: Cynhyrchu adroddiadau 5-mlynedd**

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gynhyrchu adroddiad ynghylch sefyllfa'r Gymraeg. Rhaid cynhyrchu adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd, fel y mae'n cael ei ddiffinio yn *is-adran (5).* Rhaid i'r adroddiad cyntaf sy'n cael ei gyhoeddi ar ôl pob cyfrifiad gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau'r cyfrifiad o ran y Gymraeg.

**Adran 5: Adroddiadau 5-mlynedd: atodol**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiadau 5-mlynedd.

**Adran 6: Ymholiadau**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i gynnal ymholiadau i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'i swyddogaethau. Mae'r pŵer ymholi cyffredinol hwn yn ddarostyngedig i *is-adrannau (3)* i *(5).* Mae *is-adran (9)* yn rhoi ei heffaith i Atodlen 2 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch ymholiadau.

**Adran 7: Adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill**

Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiynydd i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymyrryd mewn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn berthnasol i fater y mae ganddo swyddogaeth mewn perthynas ag e.

Yn ychwanegol at ddarparu bod pŵer y Comisiynydd i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymyrryd mewn achos cyfreithiol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd wedi'u gosod gan ddeddfwriaeth neu gan reolau'r llys, mae *is-adran (2)* yn egluro nad yw *is-adran (1)*, ohoni ei hun, yn creu sail dros achos.

**Adran 8: Cymorth cyfreithiol**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddarparu cymorth ar gyfer unigolyn os yw'r person hwnnw'n barti neu os gallai ddod yn barti i achos cyfreithiol cyfredol neu bosibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn perthynas ag e. Mae "cymorth", at ddibenion yr adran hon, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, cynrychiolaeth gyfreithiol a chyfleusterau i ddatrys anghydfod, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

**Adran 9: Cymorth cyfreithiol: costau**

Mewn amgylchiadau lle mae'r Comisiynydd wedi helpu unigolyn o dan *adran 8* mewn perthynas ag achos cyfreithiol, a phan gaiff yr unigolyn hwnnw hawl i gael rhywfaint neu'r cyfan o'i gostau yn yr achos, mae'r adran hon yn sicrhau bod treuliau'r Comisiynydd wrth roi'r cymorth yn cael eu codi ar symiau sy'n cael eu talu i'r unigolyn ar ffurf costau. Gall y symiau hyn gael eu gorfodi fel dyled sy'n ddyladwy i'r Comisiynydd.

**Adran 10: Pwerau**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer cyffredinol i'r Comisiynydd i wneud unrhyw beth y mae'n credu ei fod yn briodol i'w wneud mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'i swyddogaethau gan gynnwys y pethau hynny sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (2)* ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw. Mae *is-adran (2)* yn ddarostyngedig i *is-adrannau (4)* i *(6).*

**Adran 11: Staff**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch staff y Comisiynydd sy'n gorfod cynnwys Dirprwy Gomisiynydd.

**Adran 12: Arfer swyddogaethau'r Comisiynydd gan staff**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ddirprwyo unrhyw rai neu'r cyfan o'i swyddogaethau i aelod o'r staff. Mae'r adran yn cyfeirio hefyd at y sefyllfaoedd hynny lle mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn gallu cael eu harfer gan y Dirprwy Gomisiynydd.

**Adran 13: Y weithdrefn gwyno**

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ynghylch gweithredoedd neu anweithiau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

**Adran 14: Y sêl a dilysrwydd dogfennau**

Mae'r adran hon yn ymdrin â chyflawni dogfennau gan y Comisiynydd a'u defnyddio fel tystiolaeth.

**Adran 15: Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer amodol i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath. Ni ellir rhoi cyfarwyddiadau mewn perthynas â rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson gan y Comisiynydd, mewn perthynas â gorfodi safonau gan y Comisiynydd neu mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiynydd a geir yn y Rhan honno o'r Mesur sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Adran 16: Ymgynghori**

Pan fo'r Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth, yn ymgynghori â'r Panel Cynghori neu ag unrhyw berson arall yn unol â'r Mesur, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r ymgynghoriad wrth arfer y swyddogaeth.

### Adran 17: Adroddiadau blynyddol

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiadau mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol.

### Adran 18: Adroddiadau blynyddol: atodol

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol y Comisiynydd.

### Adran 19: Gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad i orfodi safonau (fel y mae wedi'i ddiffinio) neu pan fo ganddo hawl i'w gynnal, a bod testun yr ymchwiliad yn un y gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio iddo hefyd, os yw'r Comisiynydd yn credu bod hynny'n briodol mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r Ombwdsmon ac ymgynghori ag e.  Yna caiff y Comisiynydd a'r Ombwdsmon gydweithredu â'i gilydd drwy wneud unrhyw rai o'r pethau neu'r cyfan o'r pethau sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (3)*.

### Adran 20: Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn

Os yw pwnc ymchwiliad i orfodi safonau (fel y mae wedi'i ddiffinio) y bydd y Comisiynydd yn ei gynnal, neu y mae ganddo hawl i'w gynnal, yn un na châi ombwdsmon penodol ymchwilio iddo ond ei bod yn ymddangos ei fod yn ymwneud â mater cysylltiedig neu'n codi mater cysylltiedig (o fewn ystyr *is-adran (1)*) yna mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi gwybod i'r ombwdsmon hwnnw ac ymgynghori ag e.

Pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ei ymchwiliad a bod yr ombwdsmon perthnasol yn ymchwilio i'r mater cysylltiedig, maen nhw'n cael gwneud unrhyw rai o'r pethau neu'r cyfan o'r pethau sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (4)*. At ddibenion yr adran hon, mae i “ombwdsmon” yr ystyr sydd wedi'i darparu yn *is-adran (6)*.

Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3.

### Adran 21: Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth

Mae'r adran hon yn atal y Comisiynydd rhag datgelu gwybodaeth a geir wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau oni bai bod *is-adran (2)* yn awdurdodi ei datgelu.

## Rhan 3: Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn darparu ar gyfer penodi Panel Cynghori i'r Comisiynydd (“y Panel Cynghori”).

### Adran 22: Y Panel Cynghori

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi'r Panel Cynghori ac mae'n rhoi ei heffaith i Atodlen 4 sy'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch aelodau'r Panel Cynghori.

### Adran 23: Ymgynghori

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater.

## Rhan 4: Safonau

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn sefydlu system newydd ar gyfer gosod dyletswyddau ynglŷn â'r Gymraeg ar bersonau, a hynny ar ffurf safonau, sy'n cael eu diffinio yn y nodiadau ar gyfer Pennod 2. Mae'r Rhan hon wedi'i rhannu'n 9 Pennod:

- Mae Pennod 1 yn esbonio pa bryd y mae'n rhaid i berson gydymffurfio â safon;
- Mae Pennod 2 yn darparu ystyr safonau at ddibenion y Rhan hon;
- Mae Pennod 3 yn esbonio pa bersonau y gellir ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw gydymffurfio â safonau;
- Mae Pennod 4 yn esbonio'r math o safon y gallai fod yn ofynnol i berson gydymffurfio â hi;
- Mae Pennod 5 yn ymdrin â rôl Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n cymhwyso safonau yn benodol at berson neu grŵp o bersonau, ac mae'n esbonio'r broses ar gyfer cymhwyso safonau at bersonau drwy hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi gan y Comisiynydd ar ôl cael awdurdod gan Weinidogion Cymru;
- Mae Pennod 6 yn rhoi manylion ynghylch yr hysbysiad cydymffurfio y caiff y Comisiynydd ei roi er mwyn cymhwyso safonau at unigolyn;
- Mae Pennod 7 yn esbonio o dan ba amgylchiadau y caiff person herio hysbysiad sydd wedi'i roi iddo gan y Comisiynydd, gan gynnwys manylion y llwybr ar gyfer apelio i Dribiwnlys y Gymraeg; (gweler Rhan 7);
- Mae Pennod 8 yn manylu ar bŵer y Comisiynydd i gynnal ymchwiliadau a chynhyrchu adroddiadau mewn perthynas â safonau; ac
- Mae Pennod 9 yn gwneud darpariaeth gyffredinol at ddibenion y Rhan hon.

### PENNOD 1: DYLETSWYDD I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU

### Adran 24: Dyletswydd i gydymffurfio â safon

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson (y cyfeirir ato yma fel "P") gydymffurfio â safon ymddygiad os bodlonir, a thra bodlonir, y chwe amod sydd wedi'u rhestru yn *is-adrannau (2)* i *(7)*.

- Amod 1 yw bod P yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae darpariaeth ynghylch personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau yn cael ei gwneud ym Mhennod 3.

- Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i P. Mae darpariaeth ynghylch y dosbarthiadau o safon sy'n gymwysadwy yn cael ei gwneud ym Mhennod 4.

- Amod 3 yw bod y safon yn benodol gymwys i P. Mae darpariaeth ynghylch safonau sy'n benodol gymwys yn cael ei gwneud ym Mhennod 5.

- Amod 4 yw bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i P. Mae darpariaeth ynghylch hysbysiadau cydymffurfio yn cael ei gwneud ym Mhennod 6.

- Amod 5 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon (gweler Pennod 6).

- Amod 6 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym (gweler Pennod 6).

Mae'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod ar P i gydymffurfio â safon yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn yr hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i P (gweler Pennod 6).

**PENNOD 2: SAFONAU A PHENNU SAFONAU**

**Adran 25: Gweinidogion Cymru i bennu Safonau**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu un neu ragor o safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu neu safonau cadw cofnodion.

Mae pob un o'r safonau hyn yn cael ei diffinio ar wahân yn *adrannau 27 i 31*.

**Adran 26: Pennu safonau: darpariaeth atodol**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safon cadw cofnodion ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg heblaw cwynion ynghylch sut mae person wedi cydymffurfio â safonau eraill o dan amgylchiadau penodol. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu gwahanol safonau o'r math y cyfeirir atynt yn *adran 25* mewn perthynas ag ymddygiad gwahanol.

**Adran 27: Safonau cyflenwi gwasanaethau**

Mae'r adran hon yn diffinio "safon cyflenwi gwasanaethau" i olygu safon ymddygiad sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, wrth i'r gweithgaredd hwnnw gael ei gyflawni.

Mae “gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau” yn cael ei ddiffinio yn *is-adran (2)* i olygu bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall neu’n ymdrin â pherson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i’r person arall hwnnw neu i drydydd person.

### Adran 28: Safonau llunio polisi

Mae’r adran hon yn diffinio “safon llunio polisi” i olygu safon sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o’r canlyniadau canlynol:

- bod y person sy’n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effaith, os byddai effaith o gwbl, a gâi’r penderfyniad polisi ar y cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio’r Gymraeg, neu ar weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg;

- bod y person sy’n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gallai gwneud y penderfyniad gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio’r Gymraeg neu ar weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg;

- bod y person sy’n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gallai’r penderfyniad gael ei wneud fel nad yw’n creu effeithiau andwyol neu fel ei fod yn lleihau unrhyw effeithiau andwyol a gâi’r penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio’r Gymraeg neu ar weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Yn yr adran hon, gall effeithiau cadarnhaol neu andwyol olygu’r rhai sy’n cael eu profi yn uniongyrchol ynteu’n anuniongyrchol.

Ystyr “penderfyniad polisi” at ddibenion y Rhan hon yw penderfyniad gan y person ynghylch arfer swyddogaethau’r person neu ynghylch cynnal busnes neu ymgymeriad arall y person.

### Adran 29: Safonau gweithredu

Mae’r adran hon yn diffinio “safon gweithredu” i olygu safon ymddygiad sy’n ymwneud â gweithgareddau perthnasol person (y cyfeirir ato yma fel “A”) ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio’r Gymraeg:

- gan A wrth gyflawni gweithgareddau perthnasol A;

- gan A a pherson arall wrth iddyn nhw ddelio â’i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A; neu

- gan berson heblaw A wrth gyflawni gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â nhw.

Mae “gweithgareddau perthnasol” yn cael eu diffinio i olygu swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall. Mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau

perthnasol yn gyfeiriad at arfer swyddogaethau neu at gynnal busnes neu ymgymeriad arall.

**Adran 30: Safonau hybu**

Mae'r adran hon yn diffinio "safon hybu" i olygu safon ymddygiad (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

**Adran 31: Safonau cadw cofnodion**

Mae'r adran hon yn diffinio "safon cadw cofnodion" i olygu safon sy'n ymwneud â chadw cofnodion ynghylch safonau penodedig eraill a chofnodion ynghylch cwynion ynglŷn â sut mae person wedi cydymffurfio â safonau eraill neu gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Ystyr "safon benodedig" yw safon sydd wedi'i phennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan *adran 25(1).*

**PENNOD 3: PERSONAU SY'N AGORED I ORFOD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU**

**Adran 32: Personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau**

Mae person ("P") yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw P:

- yn dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 5; a hefyd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 6, neu'n dod o fewn categori o bersonau sydd wedi'u rhestru yn y colofnau hynny; neu

- yn dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7 a hefyd yn dod o fewn un o'r disgrifiadau yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 8.

**Adran 33: Personau sy'n dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 ac 8**

Mae'r adran hon yn diffinio pa bryd y mae person yn dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 neu 8.

Mae gan y personau a'r cyrff yn y tabl yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc) safonau wedi eu rhestru gyferbyn â nhw, ac mae'r personau a'r cyrff hynny yn agored i orfodi cydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau hynny. Mae gan y personau a'r cyrff sydd wedi eu rhestru yn y tabl yn Atodlen 8 (cyrff eraill) wasanaethau penodedig wedi eu rhestru gyferbyn â nhw yn ac y maent yn agored i orfod cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau a safonau cadw cofnodion mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny. Does dim, dyletswydd ar gorff i gydymffurfio a safonau os yw'r corff wedi ei restru yn yr Atodlenni hyn.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n datgan pa safonau sydd i fod yn gymwys i ba bersonau neu gyrff, a sydd yn awdurdodi'r Comisiynydd i ddyroddi hysbysiad cydymffurfio. Mae safonau'n cael eu gosod ar berson neu gorff pan fydd y Comisiynydd yn dyroddi hysbysiad cydymffurfio (*adran 43)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r person neu'r corff sydd wedi'i restru yn y tablau yn Atodlen 6 neu 8 gydymffurfio â'r safon neu'r safonau fel y maen nhw wedi'u

nodi yn yr hysbysiad: yna mae'r person neu'r corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio.

Mae'r tablau yn Atodlen 5 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6) ac Atodlen 7 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 8) yn rhoi disgrifiadau o bersonau neu gyrff a all gael eu dwyn o fewn cylch Atodlenni 6 neu 8.

Caniateir i bersonau neu gyrff sy'n dod o fewn y categori o bersonau yn Atodlen 5 gael eu hychwanegu at Atodlen 6, a chaniateir i'r personau sy'n dod o fewn i'r disgrifiadau o bersonau yn Atodlen 7 gael eu hychwanegu at Atodlen 8. Mae hyn yn galluogi i nifer y personau neu'r cyrff sydd wedi'u rhestru yn Atodlenni 6 ac 8 a all fod yn agored i gydymffurfio â safonau gynyddu dros amser ond, fel yr esboniwyd uchod, fydd personau ddim o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau nes bod y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio iddyn nhw.

Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw newid yn enw person sydd wedi'i bennu yn Atodlenni 6 neu 8 yn effeithio ar sut mae'r Mesur hwn yn gweithredu mewn perthynas â'r person hwnnw.

### Adran 34: Diwygio personau a chategorïau a bennir yn Atodlenni 6 ac 8

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn i ddiwygio'r tablau yn Atodlenni 6 ac 8 yn unol â'r adran hon.

## PENNOD 4: SAFONAU CYMWYSADWY

### Adran 35: Personau sy'n dod o fewn Atodlen 6

Mae'r adran hon yn gymwys i berson ("P") sydd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 6. Mae'n darparu mai'r safonau hynny sy'n ymddangos yng ngholofn (2) o gofnod P yn y tabl yn Atodlen 6 yw'r math o safonau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymhwyso at P mewn rheoliadau.

### Adran 36: Personau sy'n dod o fewn Atodlen 8

Mae'r adran hon yn gymwys i berson ("P") sydd o fewn colofn (1) o'r tabl yn Atodlen 8, ac mae'n darparu mai'r unig ddau fath o safon y gallai Gweinidogion Cymru eu cymhwyso at P mewn rheoliadau yw:

- safonau cyflenwi gwasanaethau penodol; neu
- safonau cadw cofnodion penodol.

### Adran 37: Diwygio safonau cymwysadwy

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r tablau yn Atodlenni 6 ac 8 yn unol â'r adran hon.

## PENNOD 5: SAFONAU SY'N BENODOL GYMWYS

### Adran 38: Safonau sy'n benodol gymwys

Bydd safon yn gymwys i berson ("P") os bydd Gweinidogion Cymru yn darparu mewn rheoliadau fod y safon yn gymwys i P ac yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i P yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon. Mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cydymffurfio.

### Adran 39: Dyletswydd i wneud safonau'n benodol gymwys

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan *adran 38* yn darparu bod y safon o dan sylw yn gymwys i un neu fwy o bersonau.

### Adran 40: Safonau gwahanol yn ymwneud ag ymddygiad penodol

Os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu nifer o safonau mewn perthynas ag ymddygiad penodol, mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau o dan *adran 38* i ddarparu ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

- i un safon fod yn benodol gymwys i un person, i ddau neu fwy o bersonau, neu i grŵp o bersonau;
- i ddwy neu fwy o safonau fod yn benodol gymwys i berson penodol, i ddau neu fwy o bersonau, neu i grŵp o bersonau;
- i safonau gwahanol fod yn benodol gymwys i bersonau gwahanol.

### Adran 41: Dyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys

Os bydd rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan *adran 38* yn darparu bod unrhyw safon cyflenwi gwasanaethau yn gymwys i P (a bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan *adran 25(1)* yn pennu safon o'r fath), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau hynny'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn ymwneud â'r holl weithgareddau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 9 yn gymwys (os yw P yn cyflawni'r gweithgareddau hynny, ac i'r graddau y mae'n eu cyflawni).

Fodd bynnag, o dan *adran (2A)* os bydd, ac i'r graddau y bydd:

- adroddiad safonau o dan *adran 62* yn dangos y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw; neu
- Gweinidogion Cymru'n credu y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw,

yna nid oes angen i reoliadau o dan *adran 38* sicrhau bod safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys i P mewn perthynas â gweithgaredd a

bennir yn Atodlen 9. Mae’r adran hon hefyd yn galluogi rheoliadau sy’n cael eu gwneud o dan *adran 38* i ddarparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn gymwys i P.

**Adran 42: Cyfyngiadau ar y pŵer i wneud safonau’n benodol gymwys**

Yn unol â’r adran hon, dim ond os yw’r safon yn perthyn i’r math o safon y gallai fod yn bosibl i’r person neu i grŵp o bersonau orfod cydymffurfio â hi (gweler Pennod 4) y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 38 ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson neu i grŵp o bersonau. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n darparu i safon fod yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i’r ddarpariaeth honno.

**PENNOD 6: HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO**

**Adran 43: Hysbysiadau cydymffurfio**

Mae “hysbysiad cydymffurfio” yn cael ei ddiffinio gan yr adran hon i olygu hysbysiad sy’n cael ei roi gan y Comisiynydd i berson (“P”) ac sy’n nodi neu’n crybwyll un neu fwy o safonau sy’n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau sy’n cael eu gwneud o dan *adran 25(1)*, gan ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â’r safon neu’r safonau a nodwyd neu a grybwyllwyd.

Caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol o dan rai amgylchiadau, ond nid amgylchiadau eraill a/neu mewn rhyw ardal neu ardaloedd, ond nid ardaloedd eraill.

Pan fo rheoliadau sy’n cael eu cynhyrchu gan Weinidogion Cymru o dan *adran 38* yn darparu bod dwy neu fwy o safonau yn gymwys i berson penodol mewn perthynas ag ymddygiad penodol caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i'r person wneud y canlynol:

- cydymffurfio ag un yn unig o’r safonau; neu
- gydymffurfio â gwahanol safonau ar adegau gwahanol, o dan amgylchiadau gwahanol (boed ar yr un adeg ynteu ar adegau gwahanol) neu mewn ardaloedd gwahanol (boed ar yr un adeg ynteu ar adegau gwahanol).

**Adran 44: Rhoi hysbysiad cydymffurfio i unrhyw berson**

Dim ond os yw P yn agored i orfod cydymffurfio â safonau yn unol â Phennod 3 y caniateir i’r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i P.

Caiff  hysbysiad cydymffurfio sy’n cael ei roi i P nodi neu grybwyll safon benodol, ond dim ond os yw’r safon:

- yn safon sy’n gymwysadwy i P (yn unol â Phennod 4); ac
- yn benodol gymwys i P (yn unol â Phennod 5).

Pan fo hysbysiad cydymffurfio yn cael ei roi i P gan y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd roi copi i P o unrhyw god ymarfer perthnasol sydd wedi'i ddyroddi o dan *adran 66* a rhoi gwybod i P am yr hawl i herio o dan Bennod 7. Mae darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr yn cael ei gwneud yn *adran 47*.

**Adran 45: Diwrnodau gosod**

Rhaid i bob safon sy'n cael ei phennu mewn hysbysiad cydymffurfio ddatgan y diwrnod(au) gosod. Rhaid i'r diwrnod gosod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau gosod, syrthio ar ôl diwedd chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cydymffurfio.

Mewn perthynas â safon, ystyr "diwrnod gosod" yw:

- y diwrnod y mae'n dechrau bod yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon; neu
- y diwrnod y mae'n dechrau bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol.

**Adran 46: Ymgynghori**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â pherson cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw. Dydy'r gofyniad hwn ddim yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn fodlon yr ymgynghorwyd â'r person eisoes, neu ei fod wedi cael cyfle ar gyfer ymgynghori ag e, mewn cysylltiad ag ymchwiliad i safonau (gweler Pennod 8). Os bydd person yn methu â chymryd rhan mewn ymgynghoriad, fydd hynny ddim yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

**Adran 47: Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr**

Mae'r adran hon yn gymwys i hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i berson sy'n dod o fewn colofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7 ("person neilltuedig") sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ("y gwasanaethau perthnasol") sy'n cael eu darparu o dan gontract, neu yn unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus ("y contract perthnasol"). Dim ond os yw'r amodau yn *is-adran (2)* wedi'u bodloni y caniateir i hysbysiad o'r fath nodi neu grybwyll safon benodol mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol. Rhaid i'r gofyniad i'r person cymwys gydymffurfio â'r safon benodol fod yr un fath â'r gofyniad, neu heb fod yn fwy na'r gofyniad, i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon.

**Adran 48: Amrywio hysbysiadau cydymffurfio**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd amrywio unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

**Adran 49: Dirymu hysbysiadau cydymffurfio**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd ddirymu unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

**Adran 50: Pan fydd hysbysiad cydymffurfio mewn grym**

Mae hysbysiad cydymffurfio sy'n cael ei roi i P mewn grym o'r diwrnod y bydd y Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad i P hyd nes iddo gael ei ddirymu.

**Adran 51: Cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio**

Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion sy'n cael eu gosod gan yr adran hon ynghylch trefnu bod copïau o hysbysiadau cydymffurfio yn hygyrch ac ar gael i'w harchwilio.

**Adran 52: Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben**

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i P beidio â bod o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon yn sgil y ffaith bod un neu fwy o'r amodau yn adran 24 heb eu bodloni, neu fod y safon yn peidio â bod wedi'i phennu gan Weinidogion Cymru o dan *adran 25(1)*, rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod unrhyw hysbysiadau cydymffurfio sy'n ymwneud â P ac sy'n dal mewn grym yn adlewyrchu'r newid hwnnw.

## PENNOD 7: YR HAWL I HERIO

**Adran 53: Herio dyletswyddau dyfodol**

Pan fo person ("P") wedi cael hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â safon o ddiwrnod gosod yn y dyfodol, caniateir i P wneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

**Adran 54: Herio dyletswyddau presennol**

Pan fo P wedi cael hysbysiad cydymffurfio sydd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â safon, mae'r adran hon yn caniatáu i P wneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarnu a yw'r gofyniad i P gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

Caiff y Comisiynydd wrthod derbyn cais o dan yr adran hon os yw'n fodlon nad oes newid o sylwedd wedi bod yn amgylchiadau P ers y diwrnod y daeth yn ofynnol am y tro cyntaf i P gydymffurfio â'r safon honno (yn gyfan gwbl neu mewn modd penodol) neu ers y diwrnod y dyfarnodd y Comisiynydd ar y cwestiwn perthnasol ar gais blaenorol o dan yr adran hon (os oes cais blaenorol wedi'i wneud).

Yn yr adran hon, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw'r cwestiwn y mae cais o dan yr adran hon yn cyfeirio ato sef a oedd y gofyniad i gydymffurfio â'r safon neu i gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

**Adran 55: Ceisiadau i'r Comisiynydd**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i'r Comisiynydd sy'n ceisio herio dyletswyddau dyfodol a dyletswyddau presennol o dan adran 53 neu 54.

**Adran 56: Dyfarnu ar gais**

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch dyfarnu ar unrhyw gais i’r Comisiynydd o dan adran 53 neu unrhyw gais nad yw’r Comisiynydd yn gwrthod ei dderbyn o dan adran 54. Mae’r baich yn cael ei osod ar P i ddangos bod y gofyniad i P gydymffurfio â safon (yn gyfan gwbl neu mewn modd penodol) yn afresymol neu’n anghymesur.

Os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu o blaid cais P mae’n rhaid i’r Comisiynydd (a) dirymu’r hysbysiad cydymffurfio (b) dirymu’r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd neu (c) amrywio’r hysbysiad cydymffurfio presennol.

**Adran 57: Yr hawl i apelio**

Os bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i P am ddyfarniad nad yw’r gofyniad y mae P wedi’i herio yn afresymol neu’n anghymesur, mae’r adran hon yn caniatáu i P apelio i’r Tribiwnlys am ddyfarniad a yw’r gofyniad hwnnw’n afresymol neu’n anghymesur neu beidio.

Yn ddarostyngedig i *is-adran (4)*, rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud o fewn 28 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddodd y Comisiynydd wybod i P am ei ddyfarniad ar y cais.

Rhaid i’r Tribiwnlys roi gwybod i P a’r Comisiynydd am ei ddyfarniad ar apêl sy’n cael ei gwneud o dan yr adran hon.

Os bydd y Tribiwnlys yn dyfarnu bod y gofyniad yn afresymol neu’n anghymesur, rhaid i’r Tribiwnlys (a) dirymu’r hysbysiad cydymffurfio (b) dirymu’r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd neu (c) amrywio’r hysbysiad cydymffurfio presennol. Mae’r hawl i apelio ddarostyngedig i Reolau Tribiwnlys, sy’n gallu gwneud darpariaethau ynghylch dwyn apêl o dan yr adran hon.

**Adran 57A: Apelau o’r Tribiwnlys**

Pan fo’r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan *adran 57*, caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu’r Uchel Lys, apelio i’r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy’n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.

Os yw’r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud gwall ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o’r naill du. Os gosodir yr achos o’r naill du, rhaid i’r Uchel Lys naill ai anfon yr achos yn ôl i’r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu ail-wneud y penderfyniad.

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddyd y caiff yr Uchel Lys ei roi i’r Tribiwnlys ac mae’n darparu y caiff yr Uchel Lys, pan fydd yn ail-wneud penderfyniad, wneud unrhyw benderfyniad y gallai’r Tribiwnlys ei wneud, a chaiff wneud canfyddiadau ffeithiol fel y bo’n briodol yn ei farn ef.

Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio a hynny cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl i'r Tribiwnlys hysbysu'r ymgeisydd am ei ddyfarniad ar yr apêl. Fodd bynnag, mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys ddisgresiwn i ganiatáu apelau ar ôl 28 o ddiwrnodau os ydyw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu â cheisio am ganiatâd mewn pryd, neu os bod rheswm da dros ohirio cais am ganiatâd.

### Adran 58: Gohirio gosod dyletswydd

Os bydd P yn gwneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarniad a yw'r gofyniad i gydymffurfio, neu i gydymffurfio mewn modd penodol, â safon yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, nid oes angen i P gydymffurfio â'r safon honno, neu gydymffurfio â hi yn y modd hwnnw, oni fydd a hyd nes bydd y Comisiynydd wedi gwneud dyfarniad a bod hawliau P i apelio wedi'u dihysbyddu.

## PENNOD 8: YMCHWILIADAU AC ADRODDIADAU SAFONAU

### Adran 59: Ymchwiliadau safonau

Ystyr "ymchwiliad safonau" yw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â pherson ("P") er mwyn dyfarnu ar un neu fwy o'r cwestiynau ym mharagraffau *(a)* i *(e)* yn *is-adran (1).*

Caniateir i ymchwiliad safonau penodol gael ei gynnal mewn perthynas â pherson penodol neu grŵp penodol o bersonau.

### Adran 60: Y pŵer i gynnal ymchwiliadau safonau

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliadau safonau ar yr amod ei fod wedi rhoi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r ymchwiliad.

Hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bod y Comisiynydd yn bwriadu cynnal ymchwiliad safonau ac sy'n nodi pwnc yr ymchwiliad hwnnw yw."hysbysiad rhagymchwilio".

Ystyr "person perthnasol" yw:

- yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â pherson penodol, y person hwnnw; ac
- yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â grŵp o bersonau, unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp a phersonau y mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol rhoi hysbysiadau rhagymchwilio iddyn nhw.

### Adran 61: Y gofynion wrth gynnal ymchwiliadau safonau

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd, wrth gynnal ymchwiliad safonau, roi sylw i'r angen i sicrhau nad yw gofynion i bersonau gydymffurfio â safonau yn afresymol neu'n anghymesur.

Mae *is-adran (1A)* yn gwneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried a'r canlyniadau y mae'n rhaid dod iddynt mewn amgylchiadau penodedig pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu, neu pan gaiff ei gyfarwyddo, bod ymchwiliad safonau i ystyried a ddylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â phob person perthnasol, â'r Panel Cynghori ac â'r cyhoedd (oni fydd, ac i'r graddau y bydd, y Comisiynydd o'r farn ei bod yn amhriodol ymgynghori â'r cyhoedd).

Nid yw methiant person i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn atal y Comisiynydd rhag cynnal yr ymchwiliad safonau.

Ystyr "person perthnasol" yw:

- yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â pherson penodol, y person hwnnw; ac
- yn achos ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â grŵp o bersonau, unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp a phersonau y mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

**Adran 62: Adroddiad safonau**

Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad safonau sy'n nodi casgliadau'r ymchwiliad safonau a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.

Os bydd ymchwiliad yn dod i'r casgliad y dylai safonau fod yn benodol gymwys i P, a bod unrhyw rai neu'r cyfan o'r safonau hynny heb eu pennu mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan *adran 25(1)*, rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad safonau i'r rhai a restrir yn *is-adran (4)(a)*, a chaniateir iddo anfon copi o'r adroddiad at unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn bod ganddo fuddiant yn yr adroddiad.

**Adran 63: Cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad safonau**

Pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan *adran 15* (gweler Rhan 2) i gyfarwyddo'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson neu grŵp o bersonau, mae'n rhaid i'r cyfarwyddyd bennu'r materion sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau *(a) - (d)* o *is-adran (2)*.

**Adran 64: Gweinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i adroddiad**

Pan fo'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad safonau ac wedi cynhyrchu adroddiad safonau rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylen nhw arfer y pwerau sy'n cael eu rhoi iddyn nhw gan y Rhan hon o'r Mesur, a sut ddylen nhw arfer y pŵer hwnnw.

## PENNOD 9: CYFFREDINOL

### Adran 65: Eithrio darlledu

Mae’r adran hon yn darparu nad yw’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson nac yn awdurdodi person i’w gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon os yw’r safon honno’n ymwneud â darlledu, ac i’r graddau y mae’n ymwneud â darlledu.

Mae *is-adran (2)* yn diffinio “darlledu” at ddibenion yr adran hon.

### Adran 66: Codau ymarfer

Mae’r adran hon yn rhoi pŵer i’r Comisiynydd i ddyroddi dogfen y bwriedir iddi roi canllawiau ymarferol (“cod ymarfer safonau”) o ran gofynion unrhyw safonau sy’n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan *adran 25(1)*. Mae codau ymarfer safonau sy’n cael eu cynhyrchu o dan yr adran hon yn dod o dan ofynion ynglŷn ag ymgynghori yn ogystal â gofynion ynglŷn â chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

### Adran 67: Methiant i gydymffurfio â chodau

Yn rhinwedd yr adran hon, dydy methiant person i gydymffurfio â darpariaeth mewn cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo ddim yn peri bod y person hwnnw’n agored i gamau gorfodi o unrhyw fath.

Serch hynny, os bydd camau’n cael eu cymryd o dan y Mesur mewn perthynas â methiant person (P) i gydymffurfio â safon (“y methiant safonau honedig”), caniateir dibynnu ar fethiant gan P i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer sydd wedi’i gymeradwyo fel rhywbeth sy’n tueddu i sefydlu bod P yn atebol am y methiant safonau. Ar y llaw arall, caniateir dibynnu ar gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer sydd wedi’i gymeradwyo fel rhywbeth sy’n tueddu i sefydlu nad yw P yn atebol am y methiant safonau honedig.

### Adran 68: Rhoi gwybodaeth i’r Comisiynydd

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch rhoi gwybodaeth i’r Comisiynydd sy’n cael ei chadw mewn cofnodion y mae person yn eu cadw er mwyn cydymffurfio â’r ddyletswydd o dan *adran 24* i gydymffurfio â safon cadw cofnodion.

### Adran 69: Dehongli

Mae’r adran hon yn darparu bod cyfeiriadau:

- at fod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau i’w darllen yn unol ag *adran 32*;
- at gofnod person yn y tabl yn Atodlenni 6 neu 8 i’w darllen yn unol ag *adran 33*;
- at fod safon yn gymwysadwy i berson i’w darllen yn unol ag *adrannau 35 a 26*;
- at fod safon yn benodol gymwys i berson i’w darllen yn unol ag *adran 38*.

Darperir hefyd ddiffiniadau i'r tablau yn Atodlenni 5, 6, 7 ac 8.

## Rhan 5: Gorfodi Safonau

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn sefydlu'r weithdrefn i'r Comisiynydd ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau. Pan fo'r Comisiynydd yn dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol (fel y mae wedi'i ddiffinio yn *adran 70*) caniateir i'r Comisiynydd gymryd camau gorfodi fel y maen nhw wedi'u rhestru yn *adran 76*. Gall camau gorfodi gynnwys un neu fwy o'r canlynol: ei gwneud yn ofynnol i'r person baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau; bod y person neu'r Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio; neu fod y Comisiynydd yn gosod cosb sifil. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cael rhoi argymhellion neu gyngor, neu'n cael gwneud cytundeb setlo (*adran 89)* gyda'r person hwnnw yn lle cymryd camau gorfodi. Mae'r Rhan hon wedi'i rhannu'n bedair Pennod:

- Mae Pennod 1 yn esbonio y caiff y Comisiynydd ymchwilio i weld a yw person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol (sy'n cael ei ddiffinio yn *adran 70*) ac yn esbonio bod rhaid i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad ar yr ymchwiliad os caiff ymchwiliad ei gyflawni (ac na chaiff ei derfynu gan y Comisiynydd ). Yn dilyn yr ymchwiliad, os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu bod yna fethiant i gydymffurfio, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad penderfynu i'r person yn datgan yr hyn y mae'n rhaid i'r person ei wneud. Mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn hefyd i beidio â chymryd rhagor o gamau hyd yn oed os bydd yn dyfarnu bod yna fethiant i gydymffurfio.

- Mae Pennod 2 yn disgrifio ystyr cytundeb setlo sy'n cael ei wneud gan y Comisiynydd a pherson ynghylch methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae'n datgan yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cytundeb hwnnw a'r hyn y caniateir ei gynnwys ynddo.

- Mae Pennod 3 yn esbonio'r seiliau dros apelio y caiff person eu defnyddio pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu bod y person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol. Caniateir i apelau gael eu gwneud i'r Tribiwnlys, ac o dan amgylchiadau penodol i'r Uchel Lys.

- Mae Pennod 4 yn esbonio'r hyn y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei wneud pan fydd cŵyn ddilys yn cael ei gwneud am ymddygiad person. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch ymchwilio i weld a yw'r ymddygiad hwnnw yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon.

### PENNOD 1: YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

#### Adran 70: Ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau etc

Caiff y Comisiynydd ymchwilio i weld a yw person (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "D") wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

Yn y Rhan hon, ystyr “gofyniad perthnasol” yw unrhyw rai o’r canlynol:

- dyletswydd i gydymffurfio â safon sy’n cael ei phennu gan Weinidogion Cymru (gweler *adran 24*);
- gofyniad sydd wedi’i gynnwys mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd *adran 78* (sy’n cael ei hesbonio isod);
- cynllun gweithredu (gweler *adrannau 78* a *79*, sy’n cael eu hesbonio isod);
- gofyniad sy’n cael ei gynnwys mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd *adran 81* (sy’n cael ei hesbonio isod).

Mae Atodlen 10 yn rhoi rhagor o fanylion am ymchwiliadau.

**Adran 71: Terfynu ymchwiliad**

Caiff y Comisiynydd, ar unrhyw adeg, derfynu ymchwiliad sy’n cael ei gynnal o dan *adran 70*. Os caiff ymchwiliad ei derfynu, rhaid i’r Comisiynydd roi gwybod i bob person sydd â buddiant, gan roi gwybod i D am y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

**Adran 72: Dyfarnu ar ymchwiliad**

Pan na fydd y Comisiynydd yn terfynu ymchwiliad, mae’n rhaid iddo ddyfarnu a yw D wedi methu â chydymffurfio â’r gofyniad perthnasol neu beidio (*gweler adran 70* uchod). Wrth wneud hynny, rhaid i’r Comisiynydd:

- gynhyrchu adroddiad ar yr ymchwiliad (yn unol â’r diffiniad yn *adran 73*), gan roi copi i bob person sydd â buddiant; a
- rhoi hysbysiad penderfynu i D, gan roi copi i unrhyw berson arall sydd â buddiant.

Wrth wneud dyfarniad o dan yr adran hon, rhaid i’r Comisiynydd gydymffurfio â’r gofynion sy’n cael eu gosod gan *adran 84* (ymgynghori cyn dyfarnu’n derfynol etc).

**Adran 73: Adroddiadau ar ymchwiliadau**

Ystyr adroddiad ar ymchwiliad yw adroddiad ar ymchwiliad o dan *adran 70* sy’n cynnwys y cyfan o’r canlynol:

- cylch gorchwyl yr ymchwiliad;
- crynodeb o’r dystiolaeth a gafodd ei chymryd yn ystod yr ymchwiliad;
- canfyddiadau’r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;
- dyfarniad y Comisiynydd a yw D wedi cydymffurfio â’r gofyniad perthnasol neu beidio;
- datganiad ynghylch a fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach;
- os yw’r Comisiynydd am weithredu ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw.

Serch hynny, gall y Comisiynydd gynnwys materion eraill yn yr adroddiad.

## Adran 74: Hysbysiadau penderfynu

Ystyr hysbysiad penderfynu yw hysbysiad yn datgan dyfarniad y Comisiynydd a wnaeth D fethu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio (yn unol â'r diffiniad yn *adran 70*), er nad yw'r Comisiynydd yn cael ei atal rhag cynnwys materion eraill yn yr hysbysiad. Mae adrannau eraill yn y Rhan hon o'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad penderfynu gynnwys materion penodol.

## Adran 75: Dim methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol

Caniateir i'r Comisiynydd beidio â gweithredu ymhellach os yw'n dyfarnu nad yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mewn achosion o'r fath, caniateir i'r Comisiynydd roi argymhellion neu gyngor i D neu unrhyw berson arall. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd fodloni gofynion *adran 84*.

## Adran 76: Methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

Mae'r adran hon yn rhestru'r opsiynau sydd ar gael i'r Comisiynydd os yw wedi dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol. Caniateir i'r Comisiynydd beidio â gweithredu ymhellach, neu caiff wneud un neu fwy o'r canlynol o dan *adran 76(3)*:

- ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu (at y diben yn *adran 78*);
- ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau (at y diben yn *adran 78*);
- rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio;
- ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio;
- gosod cosb sifil ar D.

O dan *adran 76(4)*, caniateir i'r Comisiynydd roi argymhellion neu gyngor i D neu i unrhyw berson arall neu, os yw D wedi methu â chydymffurfio â safon, wneud cytundeb setlo gyda D. Dydy hi ddim yn ofynnol i D wneud cytundeb o'r fath, ond os bydd D yn gwrthod, mae'r Comisiynydd yn cael arfer ei bwerau o dan yr adran hon yn wahanol.

Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion *adran 84* hefyd.

## Adran 77: Dim camau gorfodi gosodedig

Os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol a'i fod yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach, neu os bydd yn rhoi cyngor neu argymhellion neu'n gwneud cytundeb setlo gyda D o dan *adran 76(4)*, rhaid i'r hysbysiad penderfynu (sydd wedi'i ddiffinio yn *adran 74*) roi rhesymau'r Comisiynydd dros y penderfyniad.

Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion *adran 84* hefyd.

## Adran 78: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu neu i gymryd camau

Diben y cynllun gweithredu a'r camau yw atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol a'i fod yn ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau, neu'r ddau, yna mae'n rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud, y terfynau amser o dan sylw, y canlyniadau os na fydd D yn cydymffurfio â'r gofynion yn yr hysbysiad, a rhoi gwybod i D am yr hawl i apelio o dan *adran 91* (apelau i'r Tribiwnlys).

### Adran 79: Cynlluniau gweithredu

Pan fo'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gweithredu gael ei baratoi, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd gymeradwyo'r cynllun drafft cyntaf, neu ofyn am gynllun drafft diwygiedig os nad yw'r drafft yn ddigonol. Caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun drafft cyntaf neu gynllun drafft diwygiedig gael ei roi iddo yn unol â'r gorchymyn.

Mae cynllun gweithredu'n dod i rym—

- chwe wythnos ar ôl i ddrafft cyntaf neu ddrafft diwygiedig gael ei roi i'r Comisiynydd, ar yr amod (os nad yw'r Comisiynydd yn dyroddi hysbysiad sy'n datgan nad yw'r drafft yn ddigonol gan ofyn am ddrafft diwygiedig, neu nad yw'r Comisiynydd yn gwneud cais i lys am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft diwygiedig pellach gael ei baratoi), neu

- os yw'r Comisiynydd yn gwneud cais i lys am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafft diwygiedig pellach gael ei baratoi, ar yr adeg pan fo llys yn gwrthod gwneud y gorchymyn.

Caniateir i gynllun gweithredu gael ei amrywio drwy gytundeb rhwng y Comisiynydd a'r person a'i paratôdd.

### Adran 80: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn a olygir pan fo'r Mesur yn crybwyll bod y Comisiynydd neu D yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio.

Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio drwy gyhoeddi datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu drwy gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad mewn perthynas â'r ymchwiliad i D, neu'r ddau.

Pan fo'n ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, mae'n ofynnol iddo roi cyhoeddusrwydd i unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol: datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, yr adroddiad ar yr ymchwiliad a gynhyrchwyd, neu wybodaeth arall am fethiant D i gydymffurfio.

**Adran 81: Ei gwneud yn ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio**

Pan fo'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol a'i fod yn penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D neu ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant, rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd i'w wneud neu'r hyn y mae'n ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud. Yn ychwanegol, rhaid i'r hysbysiad penderfynu roi gwybod i D am ganlyniadau peidio â chydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad ac am hawl D i apelio o dan *adran 91.*

Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion *adran 84* hefyd.

**Adran 82: Cosbau sifil**

Wrth ddyfarnu a ddylai osod cosb sifil ar unrhyw berson, a swm unrhyw gosb sifil, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i ba mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb yn cael ei gosod amdano, amgylchiadau'r person y mae'r gosb i'w gosod arno, a'r angen i atal y methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol rhag parhau neu ddigwydd eto. Dydy'r Comisiynydd ddim yn cael ei atal rhag rhoi sylw i faterion eraill.

Mae'r adran hon hefyd yn pennu uchafswm cosb sifil.

**Adran 83: Rhoi cosb sifil**

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, a'i fod yn penderfynu gosod cosb sifil, mae'n rhaid i'r hysbysiad penderfynu nodi'r gosb sifil, sut y gall gael ei thalu, ac o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid iddi gael ei thalu (sy'n gorfod bod yn gyfnod o nid llai nag 28 diwrnod). Mae'n rhaid hefyd i'r hysbysiad roi gwybod i D am y canlyniadau os na fydd D yn ei thalu, ac am hawl D i apelio o dan *adran 91*.

Rhaid i'r Comisiynydd fodloni gofynion *adran 84* hefyd.

**Adran 84: Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol, etc**

Mae'r adran hon yn gymwys os bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan *adran 70*. Cyn dyfarnu'n derfynol a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol neu beidio, rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad o ddyfarniad arfaethedig y Comisiynydd i bob person sydd â buddiant.

Cyn penderfynu'n derfynol pa gamau i'w cymryd, os yw am gymryd camau o gwbl, o dan *is-adran (3)* mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad i bob person sydd â buddiant i ddweud a yw'r Comisiynydd yn bwriadu cymryd camau neu beidio, hysbysiad o unrhyw gamau arfaethedig, datganiad o'r rhesymau dros fwriadu cymryd y camau hynny, a chopïau o'r hysbysiad penderfynu drafft y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei ddyroddi.
Cyn setlo'r adroddiad ar yr ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi drafft i bob person sydd â buddiant yn yr adroddiad arfaethedig ar yr ymchwiliad, gan roi cyfle i D ac unrhyw berson arall sydd â buddiant gyflwyno sylwadau am y dyfarniad neu'r adroddiad arfaethedig ar yr ymchwiliad. Mae D hefyd yn cael cyflwyno sylwadau ynghylch y cynigion sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (3).*

Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan D neu gan unrhyw berson arall sydd â buddiant cyn gwneud unrhyw beth y mae'r sylwadau'n cyfeirio ato. Y Comisiynydd sy'n pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, ond rhaid iddo beidio â bod yn llai nag 28 diwrnod.

**Adran 85: Yr adeg y bydd camau gorfodi yn dod yn effeithiol**

Mae'r adran hon yn nodi beth sy'n digwydd os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n nodi'r camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd.

Ar ddiwedd y cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl i'r Tribiwnlys o dan *adran 91,* mae'r camau gorfodi'n dod yn effeithiol ac mae'n rhaid i D baratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau, rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio, neu dalu cosb sifil, yn unol â gofynion yr hysbysiad penderfynu, a chaiff y Comisiynydd roi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio.

Serch hynny, os bydd apêl yn cael ei gwneud i'r Tribiwnlys, dydy'r camau gorfodi ddim yn dod yn effeithiol nes i'r apêl honno ac unrhyw apêl arall ddod i ben, ac ni chaniateir i apêl arall gael ei gwneud, neu ddim ond gyda chaniatâd Tribiwnlys neu lys y caniateir i apêl arall gael ei gwneud.

**Adran 86: Methiant i gydymffurfio â gofyniad i baratoi cynllun gweithredu neu i gymryd camau**

Pan fo hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gymryd y camau hynny.

Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd yr hysbysiad penderfynu ei ddyroddi.

**Adran 87: Methiant i gydymffurfio â chynllun gweithredu**

Pan fo D wedi paratoi cynllun gweithredu yn unol â'r gofynion yn yr hysbysiad penderfynu, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r cynllun gweithredu.

Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r cynllun gweithredu i rym.

**Adran 88: Methiant i gydymffurfio â gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio**

Pan fo hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad.

Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd yr hysbysiad penderfynu ei roi.

## PENNOD 2: CYTUNDEBAU SETLO

### Adran 89: Cytundebau setlo

Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn a olygir pan fo'r Mesur yn cyfeirio at gytundeb setlo rhwng y Comisiynydd a pherson (y cyfeirir ato fel D) mewn perthynas â methiant D i gydymffurfio â safon.

Mae cytundeb setlo yn cynnwys ymrwymiad gan D:

- i beidio â methu â chydymffurfio ag un neu fwy o safonau;
- i gymryd camau penodol;
- i ymatal rhag cymryd camau penodol

ac ymrwymiad gan y Comisiynydd i beidio â chymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r methiant.

Caiff y cytundeb setlo gynnwys darpariaeth arall ac mae hefyd yn gallu cael ei amrywio neu ei derfynu drwy gytundeb y Comisiynydd a D. Serch hynny, dydy gwneud cytundeb setlo ddim yn golygu bod D wedi cyfaddef i'r methiant.

### Adran 90: Methiant i gydymffurfio â chytundeb setlo

Caniateir i'r Comisiynydd wneud cais i'r llys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â chytundeb setlo. Caiff y Comisiynydd wneud cais i'r llys yn ystod cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r cytundeb setlo'n cael ei wneud.

## PENNOD 3: APELAU

### Adran 91: Apelau i'r Tribiwnlys

Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer seiliau apêl person (y cyfeirir ato fel D) o dan amgylchiadau lle mae'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan *adran 70* a'i fod yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad.

O dan *is-adran (2)* caiff D apelio i'r Tribiwnlys ar y sail na wnaeth D fethu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol. O dan *is-adran (3)* os yw'r Comisiynydd yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â methiant D, caiff D apelio ar y sail bod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur.

Caiff D apelio ar y seiliau yn *is-adran (2) neu (3),* neu yn *is-adrannau (2) a (3)*. Mae'n rhaid i apelau gael eu gwneud o fewn 28 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu sy'n ofynnol o dan *adran 72* i D*.* Caiff y Tribiwnlys dderbyn apelau ar ôl yr 28 diwrnod os bydd D yn gwneud cais ysgrifenedig iddo ac os yw'r Tribiwnlys wedi'i fodloni bod yna reswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes yna oedi) cyn gofyn am ganiatâd i apelio y tu allan i'r amser.

**Adran 92: Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl**

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff y Tribiwnlys ei wneud mewn perthynas â dyfarniad y Comisiynydd neu â chamau gorfodi'r Comisiynydd. Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar apêl o dan *adran 91*.

Mae i unrhyw benderfyniad sy'n cael ei gymryd gan y Tribiwnlys ynghylch apêl yr un effaith, a gall gael ei orfodi yn yr un ffordd, â dyfarniad gan y Comisiynydd.

**Adran 93: Apelau o'r Tribiwnlys**

Pan fo'r Tribiwnlys wedi penderfynu ar apêl, caiff y Comisiynydd neu D, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar gwestiwn cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad y Tribiwnlys.

Os bydd yr Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud gwall ar bwynt cyfreithiol, mae'r Uchel Lys yn cael gosod penderfyniad y Tribiwnlys o'r neilltu. Os caiff yr achos ei osod o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu gyfeirio'r achos at y Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau ynghylch ei hailystyried.

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddiadau y caiff yr Uchel Lys eu rhoi i'r Tribiwnlys ac mae'n datgan y caiff yr Uchel Lys, wrth ail-wneud penderfyniad, wneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud, ac y caiff wneud canfyddiadau ffeithiol fel y bo'n briodol ym marn yr Uchel Lys.

Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys cyn pen 28 o ddiwrnodau am ganiatâd i apelio, ond mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys ddisgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os ydynt wedi'u bodloni bod rheswm da, yn unol ag is-adrannau (7)(a) a (b).

**Adran 93A: Dyletswydd y Comisiynydd ar apêl**

Pan fo'r Comisiynydd wedi cyflawni, ar ôl i gŵyn ddod i law, ymchwiliad adran 70 i ganfod a yw ymddygiad person yn mynd yn groes i safon o dan adran 94, a bod apêl wedi ei dwyn wedyn o dan adran 91 neu 93 yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn fod apêl wedi ei dwyn a beth yw canlyniad yr apêl.

**PENNOD 4: CYFFREDINOL**

**Adran 94: Ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cŵyn ynghylch ymddygiad**

Pan fo person (y cyfeirir ato fel P) yn gwneud cŵyn ddilys i'r Comisiynydd ynghylch ymddygiad person arall (y cyfeirir ato fel D), rhaid i'r Comisiynydd ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan *adran 70* ynghylch a yw ymddygiad D yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon.

I fod yn gŵyn ddilys, rhaid i’r amodau yn *is-adrannau (3) i (6)* gael eu bodloni. Hyd yn oed os yw’r gŵyn yn un ddilys, does dim dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad o dan yr amgylchiadau sydd wedi’u rhestru yn *is-adran (7).*

Serch hynny, o dan amgylchiadau pan nad yw’r gŵyn yn bodloni pob un o’r amodau ar gyfer cŵyn ddilys, neu pan nad yw’r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad, mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn i ystyried a ddylai gynnal yr ymchwiliad.

**Adran 95: Hysbysiad os nad oes ymchwiliad etc**

Pan fo P yn gwneud cŵyn o dan *adran 94* fod ymddygiad D yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon, yn yr achosion canlynol mae’n rhaid i’r Comisiynydd roi gwybod i P os bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio, gan roi rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

- Achos 1: pan fo cŵyn yn cael ei gwneud a bod y Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad, a’i fod yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad
- Achos 2: pan fo cŵyn yn cael ei gwneud ac nad yw’r Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad, a’i fod yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad
- Achos 3: pan fo cŵyn yn cael ei gwneud a bod y Comisiynydd o dan ddyletswydd i ystyried a ddylai gynnal ymchwiliad, a’i fod yn penderfynu cynnal ymchwiliad ond ei fod wedyn yn penderfynu rhoi’r gorau i’r ymchwiliad.

**Adran 96: Rhwystro a dirmygu**

Os yw’r Comisiynydd yn credu:

- bod person wedi’i rwystro wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rhan hon, neu
- mewn perthynas ag ymchwiliad o dan *adran 70,* fod person wedi gweithredu mewn modd a fyddai’n ddirmyg llys pe bai’r ymchwiliad yn cael ei drafod gan yr Uchel Lys,

caiff y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i’r Uchel Lys. Caiff yr Uchel Lys ymchwilio i’r mater. Os yw wedi’i fodloni y byddai gweithredoedd person yn ddirmyg llys, caiff ddelio â’r person hwnnw fel pe bai’r person hwnnw wedi cyflawni dirmyg mewn perthynas â’r Uchel Lys**.**

**Adran 97: Dogfen polisi gorfodi**

Rhaid i’r Comisiynydd gynhyrchu dogfen polisi gorfodi yn nodi ei ymagwedd arfaethedig at arfer swyddogaethau’r Comisiynydd o dan y Rhan hon. Rhaid i’r ddogfen ac unrhyw ddiwygiadau iddi gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Mae’r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu bod y ddogfen hon ar gael i’w harchwilio ac ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i’r trefniadau hynny.

**Adran 98: Cofrestr camau gorfodi**

Rhaid i’r Comisiynydd greu a chynnal cofrestr gyfoes o’r holl gamau gorfodi y mae’n eu cymryd. Mae’r adran hon yn datgan yr hyn y mae’n rhaid i’r gofrestr ei gynnwys.

Mae’r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu bod y gofrestr ar gael i’w harchwilio ac ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hynny.

**Adran 99: Dehongli**

Mae’r adran hon yn diffinio “camau gorfodi” a “person a chanddo fuddiant” at ddibenion Rhan 5.

## Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg

Mae’r Rhan hon yn rhoi pŵer i’r Comisiynydd i ymchwilio i ymyriadau honedig penodol â rhyddid personau yng Nghymru i ddefnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd. Hefyd, rhaid iddo gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i Weinidogion Cymru ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw’r gyfraith wrth ddiogelu’r rhyddid hwn, gan roi sylw i brofiad swyddfa’r Comisiynydd wrth ddefnyddio’r pŵer hwn. Mae’r Comisiynydd hefyd yn cael cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau penodol y bydd yn eu cynnal.

**Adran 100: Gwneud cais i’r Comisiynydd**

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth i unigolyn (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel P) sydd o’r farn bod trydydd person (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel D) wedi ymyrryd â’i ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (y cyfeirir ato yn y Mesur ac yn y nodyn esboniadol hwn fel R) wneud cais i’r Comisiynydd yn gofyn iddo ymchwilio i’r ymyrraeth honedig. Mae *is-adran (3)* yn nodi sut y dylai’r cais gael ei gyflwyno ac mae *is-adrannau (4) a (5)* yn nodi’r manylion y mae’n rhaid eu cynnwys yn y cais.

**Adran 101: Cyfathrebiadau Cymraeg**

Mae’r adran hon yn diffinio ‘cyfathrebiad Cymraeg’ fel cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn sydd wedi’u lleoli yng Nghymru ac sy’n dymuno defnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd wrth ymgymryd â’r cyfathrebiad.

**Adran 102: Ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg**

At ddibenion y rhan hon o’r Mesur mae’r adran hon yn nodi beth yw ymyrraeth â’r rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg y caniateir i’r Comisiynydd ymchwilio iddo. Gall ymyrraeth ddigwydd ar sawl ffurf wahanol ac mae’r ffurfiau hyn yn cael eu disgrifio yn *is-adrannau (2) i (8).*

Achos 1

Mae *is-adran (2)(a)* yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D wedi mynegi i P neu R fod rhaid iddyn nhw beidio ag ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Effaith *is-adran 2(b)* yw y bydd y Comisiynydd hefyd yn cael ymchwilio i achosion lle mae D, yn hytrach na mynegi na ddylai cyfathrebiad penodol ddigwydd,

(i) wedi mynegi'n fwy cyffredinol na ddylai'r Gymraeg gael ei defnyddio; a
(ii) mae mynegiad mwy cyffredinol D yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o "cyfathrebiad Cymraeg".

Rhaid i *is-adran (2)* gael ei darllen ar y cyd ag *is-adran (6).* Diben i*s-adran (6)* yw cydnabod bod yna nifer o ffyrdd gwahanol i D fynegi na ddylai P ac R ymgymryd â chyfathrebiad penodol neu gategori penodol o gyfathrebiadau. Mae *is-adran (6)* yn ei gwneud yn glir bod rhoi cyfarwyddyd yn un ffordd o'r fath, ac felly hefyd mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu drwy law rhywun arall) os byddan nhw'n ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau. Ffordd arall yw i D, neu rywun arall ar anogaeth D, beri bod P neu R yn dioddef anfantais mewn cysylltiad ag ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau.

Does dim bwriad i *is-adran (6)* fod yn rhestr gynhwysfawr o'r ffyrdd y gallai D eu defnyddio i fynegi na ddylai P ac R ymgymryd â chyfathrebiad penodol neu gategori penodol o gyfathrebiadau. Gallai'r mynegi gael ei wneud mewn ffordd wahanol nad yw ymhlith y rhai sydd wedi'u rhestru.

Achos 2

Mae *is-adran (3)(a)* yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D wedi mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu drwy law rhywun arall) am eu bod wedi ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Mae *is-adran 3(b)* yn gwneud gwaith tebyg i *is-adran 2(b)* sydd wedi'i hesbonio uchod. Mae'n caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion lle mae bygythiad D y bydd anfantais yn cael ei pheri yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, ond ei fod yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Achos 3

Mae *is-adran (4)(a)* yn caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth lle mae D, neu rywun sy'n gweithredu ar anogaeth D, eisoes wedi peri anfantais i P neu R am eu bod wedi ymgymryd â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Mae *is-adran 4(b)* yn gwneud gwaith tebyg i *is-adrannau 2(b)* a *3(b)* sydd wedi'u hesbonio uchod. Mae'n caniatáu i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion lle mae penderfyniad D (neu rywun arall ar anogaeth D) i beri anfantais yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, ond ei fod yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Mae *is-adran (5)* yn darparu mai dim ond i'r graddau y mae hynny'n effeithio ar gyfathrebiadau Cymraeg y caiff y Comisiynydd ystyried gweithred D a dod i benderfyniad arno mewn achosion lle mae mynegiadau mwy cyffredinol yn cynnwys cyfathrebiadau sy'n syrthio o fewn y diffiniad o gyfathrebiad Cymraeg.

Mae *is-adran (6)* wedi'i hesbonio uchod yn y nodyn sy'n ymdrin ag *is-adran (2).*

Mae *is-adran (7)* yn darparu nad yw pŵer y Comisiynydd i ymchwilio i fynegiad gan D fod rhaid peidio ag ymgymryd â chyfathrebiad yn Gymraeg neu y bydd anfantais yn cael ei pheri yn dibynnu mewn unrhyw fodd ar y cwestiwn a oes gan D neu unrhyw un arall y gallu i gyflawni'r hyn a fynegwyd.

Mae *is-adran (8)* yn ei gwneud yn glir bod cael eich bygylu, eich bwlio, eich aflonyddu neu eich bychanu yn gyfystyr â dioddef anfantais at ddibenion yr adran hon.

**Adran 103: Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio**

Pan fo cais yn cael ei wneud o dan *adran 100* gan P i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth honedig, mae *adran 103* yn datgan mai mater i'r Comisiynydd yw penderfynu a ddylai ymchwilio neu beidio. Mae *is-adran (3)* yn rhestru materion y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried neu y caiff eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth y cyd-destun y mae'r ymyrraeth honedig wedi digwydd ynddo, gan gynnwys unrhyw berthynas sy'n bodoli rhwng D a P, neu D ac R. Mae'r Comisiynydd yn awdurdod cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac felly mae'n rhaid iddo beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn). Mae erthygl 8 o'r Confensiwn yn ymdrin â'r hawl i gael parch i fywyd preifat a bywyd teuluol.

Serch hynny, nid yw'r Comisiynydd yn cael ei gyfyngu i ystyried dim ond y materion sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (3)* wrth benderfynu a ddylai ymchwilio i ymyrraeth honedig neu beidio. Gall fod yna ffactorau eraill sy'n berthnasol i'w benderfyniad.

Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio, mae *is-adran (5)* yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod i P a D am y penderfyniad i gynnal yr ymchwiliad a rhoi'r “wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau” (gweler isod) iddyn nhw. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'r

ymyrraeth honedig, rhaid iddo roi gwybod i P am y penderfyniad a'r rheswm drosto (*is-adran (6)).*

Mae *is-adran (8)* yn rhoi ystyr 'gwybodaeth berthnasol am ymchwiliadau'.

**Adran 104: Ymchwiliadau**

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff y Comisiynydd ei wneud a'r hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud os bydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig.

**Adran 105: Terfynu ymchwiliadau**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiynydd roi'r gorau i'w ymchwiliad i'r ymyrraeth honedig ar unrhyw adeg. Mae *is-adran (2)* yn rhestru'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd os bydd yn penderfynu rhoi'r gorau i'r ymchwiliad.

**Adran 106: Cwblhau ymchwiliadau**

Mae'r adran hon yn gymwys mewn amgylchiadau lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ac nad yw'n rhoi'r gorau i'r ymchwiliad. Mae *is-adran (2*) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd benderfynu a yw D wedi ymyrryd neu beidio â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 102. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod ymyrraeth wedi digwydd, rhaid iddo roi barn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei farn ynghylch a allai'r ymyrraeth gael ei gyfiawnhau, ond heb fod yn gyfyngedig i'w farn ynghylch hynny (*is-adran (3)).*

Cyn gwneud unrhyw ddyfarniad o dan *is-adran (2)* neu roi barn o dan *is-adran (3)*, rhaid i'r Comisiynydd roi gwybod i D am y dyfarniad y mae'n bwriadu ei roi neu am y farn y mae'n bwriadu ei rhoi, a, cyn belled ag y bo'n ymarferol, rhaid i'r Comisiynydd roi cyfle i D ymateb. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r dyfarniad gael ei wneud, mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiynydd roi gwybod amdano i P a D.

Mae *is-adran (7)* yn caniatáu i'r Comisiynydd roi cyngor i P, D neu unrhyw berson arall, ynghylch yr ymyrraeth honedig neu unrhyw fater sy'n ymwneud ag e.

**Adran 107: Adroddiadau**

Does dim dyletswydd ar y Comisiynydd i gynhyrchu adroddiad pan fydd yn cwblhau ymchwiliad. Os bydd y Comisiynydd o'r farn mewn achos penodol mai rhannu ei gasgliadau gyda P a D yn unig yw'r peth priodol i'w wneud, mae'n cael gwneud hynny.

Serch hynny, mae *is-adran (2)* yn darparu y caiff y Comisiynydd gynhyrchu adroddiad i'w roi i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw gais (nid dim ond ceisiadau y mae wedi ymchwilio iddyn nhw) a gafodd ei wneud iddo o dan *adran 100*, ac ynghylch y camau a gymerodd mewn ymateb i'r cais hwnnw. Os bydd adroddiad o'r fath yn cael ei gynhyrchu, mae *is-adran (3)* yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi copi i P a D.

Pan fo’r Comisiynydd wedi cynhyrchu adroddiad i Weinidogion Cymru o dan *is-adran (2),* mae *is-adran (4*) yn caniatáu i’r Comisiynydd gyhoeddi’r adroddiad hwnnw neu, fel arall, dogfen berthynol arall. Mae’n cael cyhoeddi fersiwn o’i adroddiad (er enghraifft, fersiwn cryno neu fersiwn sy’n tynnu enwau’r partïon sydd wedi’u crybwyll ynddo), neu ddogfen arall sy’n ymwneud â phwnc yr adroddiad.

Mae *is-adrannau (5)-(8)* yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid eu bodloni er mwyn i’r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw ddogfen o dan *is-adran (4*). Rhaid i P a D ill dau gytuno i ddogfen gael ei chyhoeddi neu, os nad yw eu cytundeb nhw wedi’i sicrhau, rhaid i’r Comisiynydd fod o’r farn bod cyhoeddi er budd y cyhoedd. Wrth bwyso a mesur a ydy hi er budd y cyhoedd, rhaid i’r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth fuddiannau P, D ac unrhyw berson priodol arall. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu mewn unrhyw achos nad ymyrrodd D â’r rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg fel y mae wedi’i ddiffinio yn *adran 102*, mae’r Comisiynydd wedi’i wahardd rhag enwi D mewn unrhyw ddogfen y bydd yn ei chyhoeddi o dan *is-adran (4).*

### Adran 108: Adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru

Mae *adran 108* yn rhestru’r mathau o wybodaeth ynghylch ceisiadau am ymchwiliad i ymyrraeth honedig y mae’n rhaid eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd, sy’n ofynnol o dan *adran 17* o’r Mesur.

Mae *is-adran (1)(c)* yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiynydd roi barn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw’r gyfraith wrth ddiogelu rhyddid personau yng Nghymru sy’n dymuno defnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd.

Mae *is-adran (2)* yn rhestru’r materion y mae’n rhaid i’r Comisiynydd eu hystyried wrth ffurfio barn at y diben hwn, er nad yw’n cael ei gyfyngu i’r materion hyn yn unig.

Mae *is-adran (3)* yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch yr adroddiadau mewn rheoliadau.

Effaith *is-adran (4)* yw bod rhaid i’r adroddiad blynyddol beidio â’i gwneud yn hysbys pwy yw D, os yw adroddiad blynyddol y Comisiynydd yn cyfeirio at unrhyw achosion lle penderfynodd nad ymyrrodd D â’r rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg fel y mae wedi’i ddiffinio yn adran 102.

## Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg

Mae’r Rhan hon o’r Mesur yn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg (“y Tribiwnlys”) ac yn gwneud darpariaeth berthynol.

### Adran 109: Tribiwnlys y Gymraeg

Mae’r adran hon yn sefydlu’r Tribiwnlys ac yn darparu bod rhaid i’r Tribiwnlys gynnwys Llywydd, aelodau a chanddyn nhw gymwysterau yn y gyfraith ac aelodau lleyg. Rhaid i aelodau’r Tribiwnlys gael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae *is-adran (4)* yn rhoi ei heffaith i *Atodlen 11* sy’n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch y Tribiwnlys.

**Adran 110: Cyfansoddiad ar gyfer achosion gerbron y Tribiwnlys**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad y Tribiwnlys i ymdrin ag achosion. Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (gweler *adran 112*).

**Adran 111: Gwrandawiadau cyhoeddus**

Mae achosion gerbron y Tribiwnlys i gael eu cynnal yn gyhoeddus o dan Reolau'r Tribiwnlys.

**Adran 112: Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd wneud rheolau ("Rheolau'r Tribiwnlys") yn llywodraethu'r arferion a'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn y Tribiwnlys. Rhaid i Reolau'r Tribiwnlys gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

**Adran 114: Cyfarwyddiadau ymarfer**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd roi cyfarwyddiadau ynghylch arferion a gweithdrefn y Tribiwnlys. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau a fydd yn cael eu rhoi gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru oni bai eu bod yn ymwneud â chymhwyso'r gyfraith neu ddehongli'r gyfraith, neu'n ymwneud â phenderfyniadau gan aelodau'r Tribiwnlys.

**Adran 115: Canllawiau, cyngor a gwybodaeth**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd roi canllawiau i aelodau eraill o'r Tribiwnlys ynghylch arfer eu swyddogaethau. Rhaid i aelodau'r Tribiwnlys roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath. Mae'r Llywydd hefyd yn cael rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch y Tribiwnlys a'i swyddogaethau.

**Adran 116: Pwerau atodol**

Mae'r adran hon yn rhoi'r un pwerau, hawliau, breintiau ac awdurdod i'r Tribiwnlys ag sydd gan yr Uchel Lys o ran:

- presenoldeb tystion a holi tystion;
- dangos dogfennau ac archwilio dogfennau; a
- phob mater arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Tribiwnlys.

Mae *is-adran (4)* yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys i gyfarwyddo bod rhaid i barti neu dyst gael ei holi ar lw neu gadarnhad. Caiff y Tribiwnlys weinyddu unrhyw lw, neu gymryd unrhyw gadarnhad, sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw.

**Adran 117: Staff, adeiladau ac adnoddau eraill y Tribiwnlys**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer y Tribiwnlys y lefel briodol o staff, adeiladau, adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i arfer ei swyddogaethau.

**Adran 118: Cynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig**

Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Llywydd benodi cynghorwyr a chanddyn nhw gymwysterau arbennig i roi cymorth i'r Tribiwnlys.

### Adran 119: Y sêl

Bydd gan y Tribiwnlys sêl swyddogol. Mae dogfennau sy'n dwyn y sêl i gael eu derbyn fel tystiolaeth yng Nghymru a Lloegr heb ragor o brawf.

### Adran 120: Y flwyddyn Ariannol

Mae'r adran hon yn diffinio blwyddyn ariannol y Tribiwnlys.

### Adran 121: Swydd y Llywydd yn wag

Os bydd swydd y Llywydd yn wag, mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud penodiadau er mwyn i swyddogaethau'r Llywydd gael eu harfer.

### Adran 122: Adroddiad blynyddol y Llywydd

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gynhyrchu adroddiad blynyddol ynghylch sut mae'r Tribiwnlys wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a gosod yr adroddiad hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r Llywydd gydymffurfio â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch ffurf yr adroddiad a sut i'w osod.

### Adran 123: Hyfforddiant etc ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i bennu a chynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau'r Tribiwnlys.

## Rhan 8: Cyffredinol

Mae Pennod 1 o'r Rhan hon o'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd (y cyfeirir atyn nhw yma fel "deiliaid swydd perthnasol").

Mae Pennod 2 yn rhoi amddiffyniad absoliwt rhag achosion difenwi mewn perthynas â chyhoeddi materion o dan amgylchiadau sy'n cael eu diffinio.

Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth gyffredinol.

### PENNOD 1: UNIONDEB CYMERIAD

### Adran 125: Cofrestr buddiannau

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar bob deiliad swydd perthnasol i greu a chynnal cofrestr gyfoes o fuddiannau.

### Adran 126: Cyhoeddi cofrestrau buddiannau

Mae'r adran hon yn gosod dyletswyddau ar y Comisiynydd o ran archwilio cofrestr buddiannau deiliad swydd perthnasol a threfnu bod y gofrestr honno ar gael.

### Adran 127: Gwrthdrawiadau buddiannau

Mae'r adran hon yn atal deiliad swydd perthnasol rhag arfer swyddogaeth os oes ganddo fuddiant cofrestradwy (sy'n cael ei ddiffinio yn *adran 130*) sy'n

ymwneud ag arfer y swyddogaeth honno. Pan fo'r deiliad swydd perthnasol yn cael ei atal rhag arfer swyddogaeth, mae'r adran hon yn darparu ar gyfer sut mae'n rhaid i'r swyddogaeth gael ei dirprwyo (os na all y Comisiynydd weithredu) neu ar gyfer trefnu i'r swyddogaeth gael ei harfer gan un arall (os na all y Dirprwy Gomisiynydd weithredu).

**Adran 128: Dilysrwydd gweithredoedd**

Nid yw methiant i gydymffurfio ag un o ddarpariaethau'r Bennod hon o Ran 8 o'r Mesur, neu ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud o dani, yn effeithio ar ddilysrwydd gweithred gan ddeiliad swydd perthnasol.

**Adran 129: Rheoliadau**

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy a gwneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod hon yn Rhan 8 o'r Mesur.

**Adran 130: Dehongli'r Bennod hon**

Mae "buddiant cofrestradwy" a "deiliad swydd perthnasol" yn cael eu diffinio yn yr adran hon.

**PENNOD 2: DIFENWI**

**Adran 131: Braint absoliwt**

Mae yna amddiffyniad cyflawn yn y gyfraith (o'r enw braint absoliwt) rhag hawliad o ddifenwi ynglŷn â chyhoeddi materion sy'n syrthio o fewn paragraffau *(a) – (e)* o *is-adran (1)*. Effaith braint absoliwt yw bod personau sy'n cyhoeddi'r mater yn cael eu diogelu rhag unrhyw atebolrwydd am ddifenwi o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u diffinio isod:

- cyhoeddi mater gan y Comisiynydd wrth iddo arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau;
- cyhoeddi mater gan aelod o'r Panel Cynghori wrth iddo arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau;
- cyhoeddi mater gan berson wrth iddo gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu;
- cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng y Comisiynydd a pherson a ddiogelir, fater mewn cysylltiad ag ymholiad neu ymchwiliad;
- cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng yr achwynydd neu berson sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd a chynrychiolydd, fater sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad o dan Ran 5 (Gorfodi) neu Ran 6 (Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg).

Mae *is-adran (2)* yn darparu bod cyfeiriad at y Comisiynydd yn yr adran hon yn cynnwys aelodau staff y Comisiynydd neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y Comisiynydd neu'n helpu i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

### Adran 132: Dehongli'r Bennod hon

Mae'r adran hon yn darparu nifer o ddiffiniadau er mwyn dehongli *adran 131*.

### PENNOD 3: CYFYNGIADAU

### Adran 133: Cyfyngiadau

Nid yw'r Mesur yn awdurdodi'r Comisiynydd nac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd arfer swyddogaeth ragnodedig sydd yn rhinwedd deddfiad yn arferadwy hefyd gan berson rhagnodedig. At ddibenion yr adran hon, ystyr "rhagnodedig" yw wedi'i ragnodi mewn gorchymyn sydd wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru.

## Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg etc

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y cyfeirir ato yma fel "y Bwrdd") a'r trefniadau ar gyfer cynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993"), a diddymu'r darpariaethau perthnasol.

Mae *adrannau 134* i *136* yn gwneud darpariaeth sy'n pontio tri chyfnod rhwng y gyfundrefn gyfredol (fel y mae wedi'i nodi yn Neddf 1993) i'r gyfundrefn newydd y darperir ar ei chyfer yn y Mesur hwn.

Mae *adrannau 137* i *138* ac Atodlen 12 yn gwneud darpariaethau atodol a darpariaethau eraill ynghylch *adrannau 134* i *136*.

### Adran 134: Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau

Mae'r adran hon yn nodi dechrau'r cyfnod pontio cyntaf.

Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiddymu ac mae ei swyddogaethau o dan adran 3 o Ddeddf 1993 yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993 gael eu harfer gan Weinidogion Cymru yn lle eu trosglwyddo i'r Comisiynydd neu yn ychwanegol at eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Gallai hyn gael ei gyflawni drwy orchymyn a fyddai'n cael ei wneud o dan *adran 143* o'r Mesur hwn.

Mae swyddogaethau'r Bwrdd a geir yn Rhan 2 o Ddeddf 1993 (cynlluniau iaith Gymraeg) yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd.

Mae'r adan hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993

### Adran 135: Diddymu swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a disodli cynlluniau gan safonau

Mae'r adran hon yn nodi dechrau'r ail gyfnod pontio. Mae'n darparu ar gyfer symud o gyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg (Rhan 2 o Ddeddf 1993) a swyddogaethau'r Bwrdd (adran 3 o Ddeddf 1993) i'r gyfundrefn newydd o safonau y darperir ar ei chyfer yn y Mesur hwn.

Mae’r adran hon yn diddymu swyddogaethau’r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993, gan gynnwys y rhai a fydd wedi’u trosglwyddo o dan *adran 134* yn ystod y cyfnod pontio cyntaf.

Pan fo corff cyhoeddus yn dod o fewn Rhan 2 o Ddeddf 1993, ac yna’n dod yn ddarostyngedig i’r gyfundrefn newydd o safonau o dan *adran 24(1)* o’r Mesur hwn, ni fydd Rhan 2 yn gymwys iddo mwyach.

Mae’r adan hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.

**Adran 136: Disodli cynlluniau iaith Gymraeg gan safonau**

Mae’r adran hon yn nodi diwedd yr ail gyfnod pontio a gafodd ei gychwyn gan *adran 135*. Mae’r cyfnod olaf yn dechrau wrth i gynllun iaith Gymraeg y corff cyhoeddus gael ei ddisodli drwy gymhwyso safonau’r Gymraeg, fel y darperir ar eu cyfer yn *adran 24(1)* o’r Mesur hwn.

Mae’r adran yn darparu ar gyfer diddymu swyddogaethau’r Bwrdd o dan Ran 2 o Ddeddf 1993, sy’n cael eu harfer gan y Comisiynydd neu gan Weinidogion Cymru o dan *adran 134*, Dim ond pan fydd yr holl gynlluniau iaith Gymraeg sy’n bodoli wedi’u disodli drwy gymhwyso safonau, fel y darperir ar eu cyfer gan y Mesur hwn, y bydd y ddarpariaeth hon yn cychwyn.

Mae’r adan hon hefyd yn diddymu rhai o ddarpariaethau Deddf 1993.

**Adran 137: Darpariaeth arall**

Mae’r adran hon yn cyflwyno Atodlen 12 i’r Mesur, sy’n cynnwys darpariaethau eraill ynghylch diddymu’r Bwrdd.

**Adran 138: Atodol**

Mae’r adran hon yn darparu bod pwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o’r Mesur:

- heb gael eu cyfyngu gan y Rhan hon;
- yn gallu cael eu defnyddio i alluogi’r Comisiynydd i arfer swyddogaethau’r Bwrdd nes y bydd swyddogaethau newydd y Comisiynydd, fel y maen nhw’n cael eu rhoi gan y Mesur hwn, wedi cychwyn;
- yn cael diwygio neu ddisodli darpariaethau’r Rhan hon.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o’r Mesur yn cynnwys eu pwerau mewn gorchmynion sy’n cael eu gwneud o dan *adran 143* (darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc), a gorchmynion o dan *adran 145* (cychwyn), ond dydyn nhw ddim wedi'u cyfyngu i’r rhain yn unig.

## Rhan 9A: Strategaeth Iaith Gymraeg Gweinidogion Cymru

Mae’r Rhan hon o’r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu mewn perthynas â’r strategaeth iaith Gymraeg ac yn gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

### Adran 138A: Gweinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu

Mae'r adran hon yn diwygio adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion eu cynigion ar gyfer gweithredu eu strategaeth iaith Gymraeg. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer amser cyhoeddi'r cynllun.

### Adran 138B: Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ("y Cyngor Partneriaeth").

Mae *is-adran (2)* yn darparu bod yn rhaid i'r Gweinidog hwnnw o blith Gweinidogion Cymru a chanddo gyfrifoldeb am y Gymraeg gadeirio'r Cyngor Partneriaeth. Gwneir darpariaeth hefyd mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor.

Mae *is-adran (3*) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt benodi aelodau o'r Cyngor Partneriaeth, roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod aelodaeth y Cyngor Partneriaeth yn adlewyrchu graddau amrywiol defnyddio'r Gymraeg gan y rhai sy'n byw yng Nghymru.

Mae gweithdrefnau'r Cyngor Partneriaeth i'w rheoleiddio gan reolau sefydlog wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru drwy ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth. Caiff y rheolau sefydlog wneud darpariaeth ynghylch pwy ddylai gadeirio'r Cyngor Partneriaeth yn absenoldeb y Gweinidog o blith Gweinidogion Cymru a chanddo gyfrifoldeb am y Gymraeg.

Mae *is-adran (6)* yn darparu i'r Cyngor Partneriaeth roi cyngor neu wneud sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r strategaeth iaith Gymraeg (gan gynnwys y cynllun yn nodi sut bydd Gweinidogion Cymru'n gweithredu'r cynigion a nodir yn y strategaeth).

## Rhan 10: Atodol

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol o ran y Mesur.

### Adran 139: Gorchmynion a rheoliadau

Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, y bydd y mwyafrif ohonyn nhw yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'n rhaid i'r offerynnau statudol sydd wedi'u rhestru yn *is-adran (2)* gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfle i drafod y mater a bod rhaid iddo gymeradwyo'r offeryn statudol cyn iddo allu cael ei wneud. Mae'r offerynnau statudol y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys iddyn nhw yn cynnwys, ymhlith eraill: gorchmynion sy'n diwygio Atodlen 6 neu 8; gorchmynion sy'n pennu safonau; gorchmynion sy'n darparu i safonau fod yn benodol gymwys; gorchmynion sy'n newid uchafswm cosb sifil; gorchmynion sy'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu'n addasu deddfiad; rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth

ynghylch penodi'r Comisiynydd; a gorchmynion sy'n newid y swm o arian cyhoeddus sydd wedi'i bennu yn y tabl yn Atodlen 5.

Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys y pŵer i wneud y canlynol:

- gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol;
- gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; a
- gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru'n credu eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol.

Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer o dan *adran 144(3)* i gychwyn diddymiad darpariaethau yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, maen nhw'n cael darparu ar gyfer cychwyn yn wahanol mewn awdurdodaethau gwahanol.

Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw Deddf Seneddol, neu un o Fesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad.

**Adran 140: Cyfarwyddiadau**

Mae cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn:

- yn gallu cael eu hamrywio neu eu dirymu gan gyfarwyddyd yn nes ymlaen;
- yn gorfod cael eu rhoi mewn ysgrifen;
- yn cael gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; ac
- yn cael gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol.

**Adran 141: Hysbysiadau etc**

Mae *adran 141* yn gwneud darpariaeth o ran hysbysiadau a dogfennau eraill y mae'n ofynnol eu rhoi o dan y Mesur hwn neu yr awdurdodir eu rhoi o dan y Mesur hwn.

**Adran 142: Dehongli'r Mesur hwn**

Mae'r adran hon yn rhoi diffiniadau o dermau penodol sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur.

**Adran 143: Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud unrhyw ddarpariaethau y maen nhw'n credu eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol

mewn cysylltiad â'r Mesur neu er mwyn rhoi ei effaith lawn iddo.  Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy orchymyn.

Mae hyn yn cynnwys pŵer i ddiwygio, diddymu neu addasu deddfiad mewn cysylltiad â'r Mesur neu i roi ei effaith lawn iddo.

**Adran 144:  Rhychwant**

Yn ddarostyngedig i *is-adran (3),* mae'r Mesur yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig. Mae *is-adran (3)* yn darparu bod diddymiad ar un o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gymwys i'r un graddau â'r ddarpariaeth sy'n cael ei diddymu.

**Adran 145:  Cychwyn**

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer cychwyn darpariaethau'r Mesur. Mae'r darpariaethau yn *is-adran (1)* yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddechrau paratoadau, yn union ar ôl i'r Mesur gael ei wneud, i benodi'r Comisiynydd a Llywydd y Tribiwnlys.

**Adran 146: Enw Byr**

Enw byr y Mesur hwn yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2010.

## Atodlen 1: Comisiynydd y Gymraeg

Mae Atodlen 1 yn cael ei chyflwyno gan adran 2 o'r Mesur. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch statws y Comisiynydd a'i benodi, ac ynghylch materion ariannol.

**Rhan 1: Statws etc**

***Paragraff 1: Statws***

Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch statws cyfreithiol y Comisiynydd. Rhaid peidio â barnu bod y Comisiynydd yn was neu'n asiant i'r Goron na bod ganddo unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sydd gan y Goron, a rhaid peidio â barnu bod eiddo'r Comisiynydd yn eiddo i'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron.  Mae *is-adran (4)* yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth iddynt arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd, i roi sylw i faterion penodedig yn ymwneud ag annibyniaeth weithrediadol y Comisiynydd.

***Paragraff 2: Dilysrwydd gweithredoedd***

Mae'r paragraff hwn yn sicrhau nad yw diffyg wrth benodi'r Comisiynydd neu unrhyw aelod o'r Panel Cynghori (neu yn achos person sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Comisiynydd, diffyg wrth benodi'r person hwnnw) yn effeithio ar ddilysrwydd gweithredoedd sy'n cael eu cyflawni gan y Comisiynydd, neu gan berson sy'n arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

**Rhan 2: Penodi**

***Paragraff 3: Penodi***

Mae'r paragraff hwn yn nodi'r paramedrau y mae'n rhaid i Brif Weinidog Cymru weithredu o'u mewn wrth benodi'r Comisiynydd.

***Paragraff 4: Talu cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau***

Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth, lwfansau, arian rhodd a phensiynau i'r Comisiynydd, a symiau ar gyfer pensiynau neu tuag at bensiynau personau sydd wedi bod yn Gomisiynydd.

***Paragraff 5: Telerau penodi***

Mae'r paragraff hwn yn sicrhau bod y Comisiynydd yn dal ei swydd yn unol â thelerau ei benodi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill Atodlen 1. Mae *is-baragraff (3)* yn ei gwneud yn ofynnol i delerau penodi'r Comisiynydd ddarparu bod y Comisiynydd yn dal ei swydd yn llawn-amser.

***Paragraff 6: Cyfnod y penodiad***

Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei benodi'n Gomisiynydd yn dal ei swydd am gyfnod o 7 mlynedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 3 o Atodlen 1 sy'n ymdrin ag anghymhwyso, ac ag ymddiswyddiad y Comisiynydd neu ddiswyddo'r Comisiynydd.

***Paragraff 7: Rheoliadau penodi***

Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch penodi'r Comisiynydd drwy reoliadau ("rheoliadau penodi").

***Paragraff 8: Dirprwyo swyddogaethau penodi etc***

Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Brif Weinidog Cymru, drwy orchymyn, i ddirprwyo swyddogaeth penodi'r Comisiynydd ac unrhyw rai neu'r cyfan o'i swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd i Weinidogion Cymru.

**Rhan 3: Terfynu penodiad**

***Paragraff 9: Ymddiswyddo***

Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i'r Comisiynydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o nid llai na thri mis i Brif Weinidog Cymru.

***Paragraff 10: Anghymhwyso***

Mae person yn peidio â bod yn Gomisiynydd os yw wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd ar sail cyflogaeth.

***Paragraff 11: Diswyddo***

Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Brif Weinidog Cymru i ddiswyddo'r Comisiynydd o dan amgylchiadau penodol.

### *Paragraff 12: Taliadau pan fydd yn peidio â dal y swydd*

Mae’r paragraff hwn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru i dalu iawndal i berson sy’n rhoi’r gorau i swydd y Comisiynydd.

## Rhan 4: Anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd

### *Paragraff 13: Anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd*

Mae’r paragraff hwn yn darparu bod person sy’n cael ei gyflogi mewn un o’r swyddi sydd wedi’u rhestru yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd.

## Rhan 5: Materion ariannol

### *Paragraff 13A: Taliadau gan Weinidogion Cymru*

Mae’r paragraff hwn yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer penodol i ariannu’r Comisiynydd.

### *Paragraff 14: Blwyddyn ariannol*

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch blwyddyn ariannol y Comisiynydd.

### *Paragraff 15: Swyddog cyfrifyddu*

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldebau’r Comisiynydd fel y swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa’r Comisiynydd.

Mae *is-baragraff (5)* yn rhoi pŵer i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gymryd tystiolaeth, os bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ’r Cyffredin (“y Pwyllgor Seneddol”) yn gofyn iddo wneud hynny, gan y Comisiynydd ar ei ran a chyflwyno adroddiad ynghylch y dystiolaeth a chyfleu’r dystiolaeth i’r Pwyllgor Seneddol.

### *Paragraff 16: Amcangyfrifon*

Mae’r paragraff hwn yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa’r Comisiynydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol heblaw’r un gyntaf, gan gyflwyno’r amcangyfrif i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru, yn eu tro, archwilio’r amcangyfrif a gyflwynir iddyn nhw a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Paragraff 17: Cyfrifon*

Mae’r paragraff hwn yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gadw cofnodion cyfrifyddu priodol, gan baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â’r cyfarwyddiadau sy’n cael eu rhoi, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.

***Paragraff 18: Archwilio***

Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno'r cyfrifon a fydd yn cael eu paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r paragraff hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio ac ardystio pob set o gyfrifon a fydd yn cael ei chyflwyno iddo, cyflwyno adroddiad arnyn nhw a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***Paragraff 19: Archwilio'r defnydd o adnoddau***

Mae'r paragraff hwn yn darparu y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Wrth gynnal archwiliadau o dan y paragraff hwn, does gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddim hawl i amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Comisiynydd.

**Rhan 6: Cyffredinol**

***Paragraff 20: Dehongli***

Mae'r paragraff hwn yn diffinio "rheoliadau penodi" a "panel dethol" at ddibenion yr Atodlen hon.

## Atodlen 2: Ymholiadau gan y Comisiynydd

Mae Atodlen 2 yn cael ei chyflwyno gan *adran 6* o'r Mesur ac mae'n gwneud darpariaeth atodol ynghylch pwerau'r Comisiynydd i ymholi.

***Paragraff 1: Cyflwyniad***

Mae Atodlen 2 yn gymwys i ymholiadau y caiff y Comisiynydd eu cynnal o dan *adran 6*.

***Paragraff 2 i 5: Cylch gorchwyl***

Cyn cynnal ymholiad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi ei gylch gorchwyl.

Yn unol â *pharagraff 3,* pan fo'r cylch gorchwyl yn cyfeirio at berson penodol neu at gategori penodol o berson, rhaid i'r cylch gorchwyl hwnnw bennu'r person hwnnw neu'r categori hwnnw o berson. Mae person sy'n cael ei bennu yng nghylch gorchwyl ymholiad a phob person sydd, ym marn y Comisiynydd, yn syrthio o fewn categori o bersonau sy'n cael ei bennu yng nghylch gorchwyl ymholiad, wedi'u diffinio at ddibenion *paragraff 3* fel "person perthnasol".

Cyn setlo'r cylch gorchwyl o dan *baragraff 3*, rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad i bob person perthnasol ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig a chyfle i gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl hwnnw. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno gan y person perthnasol.

Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd ei gyhoeddi yn unol â'r gofyniad sy'n cael ei osod gan *baragraff 3* yn ogystal â rhoi hysbysiad ynghylch y cylch gorchwyl i bob person perthnasol ac i Weinidogion Cymru.

Pan nad yw'r cylch gorchwyl yn ymwneud â pherson penodol neu gategori penodol o berson, mae *paragraff 4* yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r cylch gorchwyl yn unol â'r gofyniad sy'n cael ei osod gan *baragraff 4(2)(a)* yn ogystal â rhoi hysbysiad ynghylch y cylch gorchwyl i Weinidogion Cymru.

Mae *paragraff 5* yn darparu bod *paragraff 3* neu *4* yn gymwys i newidiadau yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys wrth baratoi'r cylch gorchwyl hwnnw.

***Paragraffau 6 a 7: Sylwadau***

Yn unol â *pharagraff 6(1),* rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i roi cyfle i bersonau gyflwyno sylwadau mewn perthynas ag ymholiadau.

Mae *paragraff 6(2*) yn darparu bod rhaid i'r trefniadau hyn roi cyfle i'r personau sydd wedi'u rhestru gyflwyno sylwadau yn ystod ymholiad.

Mae *paragraff 7(1)* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ystyried sylwadau sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas ag ymholiad gan y personau sydd wedi'u rhestru.

Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gan unrhyw berson arall mewn perthynas ag ymholiad, oni bai bod y Comisiynydd yn credu ei bod yn briodol gwrthod gwneud hynny. Pan fo'r Comisiynydd yn gwrthod ystyried sylwadau, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person a gyflwynodd y sylwadau ynghylch y penderfyniad i wrthod ystyried y sylwadau a gafodd eu cyflwyno yn ogystal â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

***Paragraff 8: Adroddiadau ar ymholiadau***

Rhaid i'r Comisiynydd baratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau ynghylch unrhyw ymholiad ac anfon drafft o'r adroddiad at Weinidogion Cymru, sef drafft y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion *is-baragraff (2)*. Os yw'r cylch gorchwyl yn pennu person penodol neu gategori penodol o berson, rhaid hefyd i'r Comisiynydd anfon drafft o'r adroddiad at bob person perthnasol (fel y maen nhw wedi'u diffinio gan *baragraff 3(5)*).

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd roi cyfle i Weinidogion Cymru, ac i unrhyw berson arall y mae drafft o adroddiad yn cael ei anfon ato, i gyflwyno sylwadau ynghylch yr adroddiad. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno ynghylch y drafft ac, ar ôl setlo'r adroddiad, ei gyhoeddi.

## Atodlen 3: Diwygiadau ynglŷn â gweithio ar y cyd a gweithio'n gyfochrog

Mae Atodlen 3 yn cael ei chyflwyno gan *adran 20* yn Rhan 2 o'r Mesur.

Mae'r Atodlen hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Safonau Gofal 2000, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, er mwyn gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch comisiynwyr ac ombwdsmyn eraill yn gweithio ar y cyd a gweithio'n gyfochrog â Chomisiynydd y Gymraeg.

## Atodlen 4: Aelodau'r Panel Cynghori

Mae Atodlen 4 yn cael ei chyflwyno gan *adran 22* o'r Mesur ac mae'n gwneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch penodi aelodau'r Panel Cynghori, yn ogystal â materion ariannol perthynol.

### Rhan 1: Penodi

#### *Paragraff 1: Penodi*

Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rheoliadau penodi (sy'n cael eu diffinio ym *mharagraff 5*) sy'n cael eu gwneud ganddyn nhw. Mae Gweinidogion Cymru yn cael eu hatal rhag penodi person yn aelod o'r Panel Cynghori os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod ar sail cyflogaeth. Mae'r seiliau hyn yn cael eu darparu ym *mharagraff 10*.

#### *Paragraff 2: Talu tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau*

Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth, lwfansau, arian rhodd a phensiynau i aelodau'r Panel Cynghori, a symiau ar gyfer pensiynau neu tuag at bensiynau personau sydd wedi bod yn aelodau.

#### *Paragraff 3: Telerau penodi*

Mae aelod o'r Panel Cynghori yn dal ei swydd yn unol â'i delerau penodi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr Atodlen hon.

#### *Paragraff 4: Cyfnod y penodiad*

Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei benodi'n aelod o'r Panel Cynghori yn dal ei swydd am gyfnod o dair blynedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o Atodlen 4 sy'n ymdrin ag anghymhwyso, ymddiswyddiad neu ddiswyddo aelodau.

#### *Paragraff 5: Rheoliadau penodi*

Rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ynghylch penodi aelodau'r Panel Cynghori drwy reoliadau ("rheoliadau penodi").

### Rhan 2: Terfynu penodiad

#### *Paragraff 6: Ymddiswyddo*

Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i aelod o'r Panel Cynghori ymddiswyddo.

***Paragraff 7: Anghymhwyso rhag bod yn aelod***

Mae person yn peidio â bod yn aelod o'r Panel Cynghori os yw wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod ar sail cyflogaeth (sy'n cael ei ddiffinio ym *mharagraff 10*).

***Paragraff 8: Diswyddo***

Mae'r paragraff hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiswyddo aelod o'r Panel Cynghori o dan amgylchiadau penodol. Cyn arfer eu pŵer i ddiswyddo, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd.

***Paragraff 9: Taliadau pan fo rhywun yn peidio â dal swydd***

Mae'r paragraff hwn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru i dalu iawndal i berson sy'n peidio â bod yn aelod o'r Panel Cynghori.

**Rhan 3: Anghymhwysiad**

***Paragraff 10: Anghymhwyso ar sail cyflogaeth***

Mae'r paragraff hwn yn darparu bod person sy'n cael ei gyflogi mewn un o'r swyddi sydd wedi'u rhestru yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori ar sail cyflogaeth.

**Rhan 4: Cyffredinol**

***Paragraff 11: Dehongli***

Mae'r paragraff hwn yn diffinio "rheoliadau penodi" at ddibenion yr Atodlen hon.

## Atodlen 5: Y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6

Mae Atodlen 5 yn cael ei chyflwyno gan *adran 32* o'r Mesur. Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ychwanegu'r personau neu'r categorïau o berson sydd wedi'i rhestru yng ngholofn (2) at y tabl yn Atodlen 6 (Cyrff cyhoeddus etc: Safonau) fel bod y personau hynny yn agored i orfod cydymffurfio â safonau.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gynyddu'r trothwy ariannol y cyfeirir ato yng nghofnod (5) o'r tabl (Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn arian cyhoeddus) drwy ddisodli'r swm perthnasol ag unrhyw swm arall nad yw'n llai na £400,000.

Mae'r Atodlen hon yn diffinio "cydsyniad" at ddibenion cofnod (8) (Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6) yn y tabl, ac mae'n datgan y caniateir i gydsyniad gael ei dynnu'n ôl, yn dibynnu ar gytundeb Gweinidogion Cymru.

Mae diffiniadau o "deddfiad", "awdurdod cyhoeddus" ac "arian cyhoeddus" hefyd yn cael eu darparu at ddibenion yr Atodlen hon.

## Atodlen 6: Cyrff cyhoeddus etc: Safonau

Mae safonau yn cael eu diffinio ym Mhennod 2 o Ran 4 o'r Mesur.

Mae Atodlen 6 yn cael ei chyflwyno gan *adran 32* o'r Mesur. Mae'r personau neu'r categorïau o bersonau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (1) o'r tabl yn agored i orfod cydymffurfio â'r dosbarthiadau o safon sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (2) yn y tabl. Nid ydynt o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon neu safonau nes bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio iddyn nhw o dan *adran 43* yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw wneud hynny.

O dan *adran 34* caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n diwygio Atodlen 6 drwy wneud y canlynol:

- ychwanegu at golofn (1) berson neu gategorïau o bersonau o'r tabl yn Atodlen 5 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 6)
- tynnu person neu gategori o berson o golofn (1)
- gwneud diwygiadau eraill yn unol ag *adran 34.*

O dan *adran 37* caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio colofn (2) fel ei bod yn cynnwys neu'n tynnu cyfeiriadau at un neu fwy o'r dosbarthiadau canlynol o safon: safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau cadw cofnodion.

Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio colofn (2) yn y tabl i beri bod Gweinidogion Cymru, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor sir neu awdurdod parc cenedlaethol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau hybu.

O blith y personau a'r categorïau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (1), nid yw'r cofnod yn y tabl sy'n ymwneud ag adrannau'r llywodraeth yn cynnwys dim byd sydd o fewn y cofnod sy'n ymwneud â Gweinidogion y Goron, a nid yw'r cofnod sy'n ymwneud â phersonau sy'n arfer swyddogaethau'r Goron ddim yn cynnwys unrhyw berson o fewn cofnod arall.

Mae diffiniadau hefyd yn cael eu darparu at ddibenion yr Atodlen hon.

## Atodlen 7: Y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 8

Mae Atodlen 7 yn cael ei chyflwyno gan *adran 32* o'r Mesur. Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ychwanegu'r categori o bersonau sy'n cael eu disgrifio yng ngholofn (2) at y tabl yn Atodlen 8 (Cyrff eraill: Safonau) fel bod y personau hynny yn agored i orfod cydymffurfio â safonau ynglŷn â chyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion, fel y darperir ar eu cyfer yn *adran 36*.

Nid yw'r cyfeiriadau yn y tabl at wasanaethau cysylltiedig yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn siopau oni bai bod y gwasanaethau'n golygu:

- gwasanaethau cownteri swyddfeydd post; neu
- werthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd.

Mae diffiniadau'n cael eu darparu o dermau penodol sy'n cael eu defnyddio yn yr Atodlen.

## Atodlen 8: Cyrff eraill: Safonau

Mae safonau yn cael eu diffinio ym Mhennod 2 o Ran 4 o'r Mesur a'u hesbonio yn y nodyn esboniadol uchod.

Mae Atodlen 8 yn cael ei chyflwyno gan *adran 32* o'r Mesur. Mae'r personau neu'r categori o bersonau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (1) yn y tabl yn agored i orfod cydymffurfio â safonau ynglŷn â chyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion, fel y darperir yn *adran 36*, mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru yng ngholofn (2) yn y tabl . Nid yw'r personau neu'r categori o bersonau o dan ddyletswydd i gydymffurfio â safon neu safonau nes bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio iddyn nhw o dan *adran 43* yn eu gwneud yn ofynnol iddyn nhw wneud hynny.

O dan *adran* 34 caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n diwygio Atodlen 8 drwy wneud y canlynol:

- ychwanegu at golofn (1) berson neu gategori o bersonau o'r tabl yn Atodlen 7 (y categorïau o berson y caniateir eu hychwanegu at Atodlen 8)

- tynnu person neu gategori o golofn (1)

- gwneud diwygiadau eraill yn unol ag *adran 34*.

Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio colofn (2) fel ei bod yn cynnwys cyfeiriad at ddarparu gwasanaeth dim ond os yw amodau penodol yn *adran 34* wedi'u bodloni. Mae ganddyn nhw bŵer hefyd i dynnu unrhyw gyfeiriadau yng ngholofn (2).

Mae i'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn yr Atodlen hon yr un ystyr ag yn Atodlen 7, heblaw cyfeiriadau sydd wedi'u diffinio neu y rhoddir ystyr benodol iddynt at ddibenion yr Atodlen hon.

## Atodlen 9: Gweithgareddau y mae'n rhaid pennu safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â hwy

Mae Atodlen 9 yn cael ei chyflwyno gan *adran 41* o'r Mesur. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan *adran 38* yn awdurdodi'r

Comisiynydd i ddyroddi hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodol gydymffurfio â safon. Pan fo'r rheoliadau hynny'n cyfeirio at safon cyflenwi gwasanaethau (sy'n cael ei ddiffinio ym Mhennod 2) mae *adran 41* yn darparu bod rhaid i'r safon gyfeirio at y cyfan o'r gweithgareddau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 9 (i'r graddau y mae'r safonau hynny wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru o dan *adran 25(1)*) os yw'r person yn cyflawni'r gweithgareddau hynny, ac i'r graddau y  mae'n eu cyflawni.

## Atodlen 10: Ymchwiliad y Comisiynydd i fethiant i gydymffurfio â safonau etc

Mae Atodlen 10 yn cael ei chyflwyno gan *adran 70* yn Rhan 5 o'r Mesur.

### Rhan 1: Cyffredinol

***Paragraff 1:  Cyflwyniad***

Mae'r Atodlen hon yn gymwys i ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal o dan adran 70 o'r Mesur.

***Paragraff 2:  Cylch gorchwyl***

Mae'r paragraff hwn yn datgan bod rhaid i'r Comisiynydd, cyn iddo gynnal ymchwiliad, baratoi'r cylch gorchwyl sy'n gorfod pennu'r person yr ymchwilir iddo, a'r methiant a amheir i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad i bersonau penodol ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig a chyfle iddynt gyflwyno sylwadau amdano.  Rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno.

Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi'r cylch gorchwyl a setlwyd ac ar gyfer rhoi hysbysiad yn ei gylch i bersonau penodol. Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer paratoi cylch gorchwyl a gwneud newidiadau iddo.

***Paragraffau 3 a 4:  Sylwadau***

Mae *paragraff 3* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd wneud trefniadau i roi cyfle i bersonau penodol gyflwyno sylwadau, gan gynnwys sylwadau llafar, ynghylch ymchwiliadau.

Mae *paragraff 4* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ystyried y sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno gan y person yr ymchwilir iddo neu gan gynghorydd cyfreithiol y person hwnnw. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a fydd yn cael eu cyflwyno gan unrhyw berson arall, oni bai bod y Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol gwrthod gwneud hynny.  Mae'r paragraff hwn yn diffinio cynghorwyr cyfreithiol fel person sydd wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, neu adfocad neu gyfreithiwr yn yr Alban.

**Rhan 2: Gwybodaeth, dogfennau a thystiolaeth lafar**

***Paragraffau 5 a 6: Hysbysiadau tystiolaeth***

Yn ystod ymchwiliad, caiff y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i berson (y cyfeirir ato fel A), a all ei gwneud yn ofynnol i A wneud un neu fwy o'r canlynol: rhoi gwybodaeth sydd ym meddiant A; rhoi dogfennau sydd ym meddiant A; neu roi tystiolaeth lafar. Serch hynny, does dim modd gorfodi A i wneud unrhyw beth na fyddai A yn medru cael ei orfodi i'w wneud pe bai'r achos yn cael ei gynnal gerbron Uchel Lys.

Mae'r paragraff yn nodi yr hyn y caiff yr hysbysiad ei gynnwys neu y mae'n rhaid i'r hysbysiad ei gynnwys, gan gynnwys rhoi gwybod i A am ganlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad a'r hawl i apelio o dan *baragraff 9.*

Os bydd person (y cyfeirir ato fel B) yn rhoi gwybodaeth, dogfennau neu dystiolaeth lafar, mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn i wneud taliadau am dreuliau sydd wedi eu tynnu'n briodol a lwfansau ar ffurf iawndal am golli amser B. Bydd unrhyw daliadau o'r fath yn cael eu gwneud yn unol â graddfeydd ac amodau taliadau a bennir gan y Comisiynydd.

***Paragraffau 7 ac 8: Cyfrinachedd etc***

Nid yw hysbysiad tystiolaeth o dan *baragraff 5* yn cael ei gwneud yn ofynnol i berson roi gwybodaeth y mae'r person wedi'i wahardd rhag ei datgelu yn rhinwedd deddfiad ac nid yw'n cael ei gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth na allai'r person gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

Os oes hysbysiad tystiolaeth wedi'i roi i A, mae'n rhaid i A ei anwybyddu (gan roi gwybod i'r Comisiynydd) os yw A yn credu y byddai cydymffurfio â'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i dosbarthu'n sensitif neu wybodaeth arall sy'n ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth a nodir yn *is-baragraffau (a) i (e).*

Ystyr gwasanaeth cudd-wybodaeth yw'r gwasanaeth diogelwch, y gwasanaeth cudd-wybodaeth cyfrinachol a Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth.

Mae'r paragraff hwn yn darparu hefyd ar gyfer yr hyn y caiff y Comisiynydd ei wneud os bydd A yn rhoi gwybod iddo fod A yn anwybyddu'r hysbysiad.

***Paragraffau 9 a 10: Apelau***

Caiff A wneud cais i Dribiwnlys y Gymraeg am ddileu'r hysbysiad os gall A ddangos bod gofyniad sy'n cael ei osod gan yr hysbysiad yn ddiangen mewn perthynas â diben yr ymchwiliad neu ei fod yn afresymol neu'n anghymesur mewn modd arall.

Os yw gofyniad yn annymunol am resymau diogelwch y wlad na ddarperir ar eu cyfer ym *mharagraff 8(1)*, caiff A wneud cais i'r Tribiwnlys am ddileu'r hysbysiad.

### *Paragraff 11: Gorfodi*

Os yw’r Comisiynydd yn credu bod A wedi methu, neu’n debyg o fethu, â chydymffurfio â’r hysbysiad heb esgus rhesymol, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i A gymryd camau a bennir yn y gorchymyn i gydymffurfio â’r hysbysiad.

### Rhan 3: Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio

### *Paragraff 12: Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio*

Caiff y Comisiynydd, neu unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran, fynd i mewn ac archwilio mangre os yw’r Comisiynydd neu’r person awdurdodedig yn credu bod angen gwneud hynny at ddibenion ymchwiliad.

Nid yw’r pŵer hwn yn awdurdodi mynd i annedd, nac i unrhyw fangre nad yw o dan reolaeth y person yr ymchwilir iddo, nac yn awdurdodi mynd ar adeg benodol os yw’r adeg honno’n afresymol.

## Atodlen 11: Tribiwnlys y Gymraeg

Mae Atodlen 11 yn cael ei chyflwyno gan *adran* 109 yn Rhan 7 o’r Mesur. Mae’r Atodlen hon yn gwneud rhagor o ddarpariaeth o ran y Tribiwnlys.

### Rhan 1: Nifer aelodau’r Tribiwnlys

### *Paragraff 1: Aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith*

Mae’r paragraff hwn yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru o dro i dro bennu nifer yr aelodau a chanddyn nhw gymwysterau cyfreithiol a fydd gan y Tribiwnlys, ar ôl ymgynghori i ddechrau â’r Llywydd. Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn belled ag y bo’n rhesymol gwneud hynny, sicrhau bod nifer yr aelodau a chanddyn nhw gymwysterau cyfreithiol a benodir i’r Tribiwnlys yn hafal i’r nifer sy’n cael ei bennu ganddyn nhw.

### *Paragraff 2: Aelodau lleyg*

Mae’r paragraff hwn yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru o dro i dro bennu nifer yr aelodau lleyg y mae’n rhaid eu cael ar y Tribiwnlys, ar ôl ymgynghori i ddechrau â’r Llywydd. Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn belled ag y bo’n rhesymol gwneud hynny, sicrhau bod nifer yr aelodau lleyg a benodir i’r Tribiwnlys yn hafal i’r nifer sy’n cael ei bennu ganddyn nhw.

### Rhan 2: Penodi

### *Paragraff 3: Y Llywydd*

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyster person i gael ei benodi’n Llywydd.

### *Paragraff 4: Aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith*

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwysedd person i gael ei benodi’n aelod o’r Tribiwnlys a chanddo gymwysterau cyfreithiol.

***Paragraff 5: Aelodau lleyg***

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwysedd person i gael ei benodi’n aelod lleyg o’r Tribiwnlys.

***Paragraff 6: Talu tâl cydnabyddiaeth etc***

Caiff Gweinidogion Cymru dalu cydnabyddiaeth, lwfansau, arian rhodd a phensiynau i aelodau’r Tribiwnlys.

***Paragraff 7: Telerau penodi***

Mae aelod o’r Tribiwnlys yn dal ei swydd yn unol â’i delerau penodi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr Atodlen hon.

***Paragraff 8: Cyfnod y penodiad***

Bydd person yn cael ei benodi i’r Tribiwnlys am gyfnod o bum mlynedd ond mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i wneud penodiadau byrrach.

***Paragraff 9: Rheoliadau penodi***

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodi aelodau’r Tribiwnlys (”rheoliadau penodi”).

**Rhan 3: Terfynu penodiad**

***Paragraff 10: Ymddiswyddo***

Mae *paragraff 10* yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymddiswyddiad aelodau o’r Tribiwnlys.

***Paragraff 11: Anghymhwyso rhag bod yn aelod***

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch anghymhwyso personau rhag bod yn aelod o’r Tribiwnlys.

***Paragraff 12: Diswyddo***

Mae’r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch diswyddo aelodau o’r Tribiwnlys gan Weinidogion Cymru.

**Rhan 4: Anghymhwyso rhag bod yn aelod neu rhag cael ei benodi**

***Paragraff 13: Anghymhwyso rhag bod yn aelod: cyflogaeth***

Mae’r paragraff hwn yn darparu bod person sy’n cael ei gyflogi yn un o’r swyddi sydd wedi’u rhestru wedi’i anghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth.

***Paragraff 14: Anghymhwyso rhag bod yn aelod: anaddasrwydd***

Mae’r paragraff hwn yn darparu’r seiliau anaddasrwydd a fydd yn anghymhwyso person rhag bod yn aelod o’r Tribiwnlys.

***Paragraff 15: Anghymhwyso rhag penodi: oedran***

Mae person yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei benodi os yw eisoes wedi cyrraedd ei 70 oed ar ddyddiad y penodiad.

***Paragraff 16: Anghymhwyso rhag penodi: penodiad blaenorol***

Mae person yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei benodi yn aelod o'r Tribiwnlys os yw eisoes wedi gwasanaethu am gyfnod o 10 mlynedd neu fwy (boed drwy benodiadau olynol neu beidio).

***Paragraff 17: Anghymhwyso rhag penodi: diswyddiad blaenorol o swydd***

Ni chaniateir i berson sydd wedi'i ddiswyddo o'r blaen o'r Tribiwnlys gan Weinidogion Cymru o dan *baragraff 12* gael ei ailbenodi'n aelod.

**Rhan 5: Cyffredinol**

***Paragraff 18: Dehongli***

Mae'r paragraff hwn yn diffinio "rheoliadau penodi".

## Atodlen 12: Diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg: darpariaeth arall

Mae'r Atodlen hon yn cael ei chyflwyno gan *adran 137* o'r Mesur.

***Paragraff 1: Staff y Bwrdd***

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud gorchymyn yn trosglwyddo staff y Bwrdd naill ai i Weinidogion Cymru neu i'r Comisiynydd.

***Paragraff 2: Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd***

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud gorchymyn ynghylch eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys pŵer i drosglwyddo'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru. Mae diffiniadau o "eiddo", a "hawliau a rhwymedigaethau" yn cael eu darparu hefyd.